



Translated by: Elin Meek

Proofread by: Catrin Alun

---

# Cynnwys

---

<b>Uned A1:</b>	<b>Gweithio yn y Diwydiant Celfyddydau Perfformio</b>	<b>1</b>
<b>Uned A2:</b>	<b>Datblygiad Proffesiynol yn y Diwydiant Celfyddydau Perfformio</b>	<b>7</b>
<b>Uned A3:</b>	<b>Proses Gynhyrchu'r Celfyddydau Perfformio</b>	<b>11</b>
<b>Uned B4:</b>	<b>Sgiliau a Thechnegau Actio</b>	<b>17</b>
<b>Uned B5:</b>	<b>Datblygiad Drama</b>	<b>23</b>
<b>Uned B6:</b>	<b>Dyfeisio Dramâu</b>	<b>27</b>
<b>Uned B7:</b>	<b>Perfformio Dramâu sydd wedi'u Sgriptio</b>	<b>33</b>
<b>Uned B8:</b>	<b>Perfformio Theatr Gerdd</b>	<b>39</b>
<b>Uned B9:</b>	<b>Datblygu Perfformiadau Theatr Gorfforol</b>	<b>45</b>
<b>Uned C10:</b>	<b>Dawns Gyfoes</b>	<b>49</b>
<b>Uned C11:</b>	<b>Archwilio Arddulliau Dawns Trefol</b>	<b>55</b>
<b>Uned C12:</b>	<b>Dawns Jazz</b>	<b>61</b>
<b>Uned C13:</b>	<b>Perfformio Dawns</b>	<b>65</b>
<b>Uned C14:</b>	<b>Datblygiad Dawns</b>	<b>71</b>
<b>Uned D15:</b>	<b>Creu Gwisgoedd</b>	<b>77</b>
<b>Uned D16:</b>	<b>Criwio ar gyfer Perfformiadau Llwyfan</b>	<b>81</b>
<b>Uned D17:</b>	<b>Dylunio ar gyfer Perfformiadau</b>	<b>87</b>
<b>Uned D18:</b>	<b>Gweithrediadau goleuo ar gyfer Perfformiadau Llwyfan</b>	<b>93</b>
<b>Uned D19:</b>	<b>Coluro ar gyfer Perfformwyr</b>	<b>99</b>
<b>Uned D20:</b>	<b>Gwneud Masgiau</b>	<b>103</b>
<b>Uned D21:</b>	<b>Adeiladu Setiau</b>	<b>109</b>
<b>Uned D22:</b>	<b>Gwisgoedd ar gyfer Perfformiadau Llwyfan</b>	<b>115</b>
<b>Uned D23:</b>	<b>Gweithrediadau Sain ar gyfer Perfformiadau Llwyfan</b>	<b>119</b>
<b>Uned E24:</b>	<b>Technoleg a Pherfformiad DJ</b>	<b>125</b>
<b>Uned E25:</b>	<b>Archwilio Systemau Cyfrifiadurol a Ddefnyddir gan Gerddorion</b>	<b>129</b>

<b>Uned E26:</b>	<b>Archwilio Cyfansoddi Cerddorol</b>	<b>135</b>
<b>Uned E27:</b>	<b>Archwilio Creu Cerddorol Byrfyfyr</b>	<b>141</b>
<b>Uned E28:</b>	<b>Datblygu Theori Cerddoriaeth</b>	<b>145</b>
<b>Uned E29:</b>	<b>Cynhyrchu Recordiad o Gerddoriaeth</b>	<b>149</b>
<b>Uned E30:</b>	<b>Perfformiad Cerddorol Unigol</b>	<b>155</b>
<b>Uned E31:</b>	<b>Datblygiad Cerddoriaeth</b>	<b>159</b>
<b>Uned E32:</b>	<b>Gweithio fel Ensemble Cerddorol</b>	<b>165</b>





# Uned A1: Gweithio yn y Diwydiant Celfyddydau Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/4809</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>5</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>30</b>

---

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwyr am y cyfleoedd cyflogaeth yn y diwydiant celfyddydau perfformio a'r swyddi sy'n cael eu gwneud gan y rhai sy'n gweithio ynddo.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'n hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio yn y sector neu sy'n dymuno i symud ymlaen i lefelau cymwysterau uwch fod â gwybodaeth am sut mae'r cyrff amrywiol yn y diwydiant celfyddydau perfformio'n gweithio, yn ogystal ag am yr ystod o swyddi. Nod yr uned yw galluogi'r dysgwyr i gael ymwybyddiaeth a gwybodaeth greiddiol am strwythur sylfaenol y diwydiant celfyddydau perfformio, gan ystyried y gwahanol fathau o gyrff a'r rolau y maen nhw'n eu gwneud, megis gweinyddu, perfformio a chynhyrchu.

Bydd y dysgwyr yn edrych ar amrywiaeth o gyrff celfyddydau perfformio i ddarganfod beth yw eu diben, y ffyrdd y maen nhw'n gweithredu a sut maen nhw'n ymwneud â'i gilydd. Dylai'r addysgu a'r dysgu dynnu ar gynnwys yr uned i gwmpasu ystod o gyrff celfyddydau perfformio, gan gynnwys cwmnïau cynhyrchu a lleoliadau, a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i'r diwydiant a chyrff gweinyddu'r celfyddydau. Er na fydd y dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu dealltwriaeth o bob math o gorff, mae'n bwysig fod yr uned yn cael ei chyflwyno fel bod trosolwg o'r sector yn cael ei rhoi, fel bod y dysgwyr yn ymwybodol o sut mae mathau gwahanol o gorff yn rhan o'r 'darlun cyfan'.

Bydd y dysgwyr hefyd yn ystyried rolau pobl sy'n gweithio yn y cyrff hyn, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gweinyddu, perfformio a chynhyrchu digwyddiadau a chynnyrch y celfyddydau perfformio. Er na fydd y dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu dealltwriaeth o bob math o swydd, mae'n bwysig eu bod yn ymwybodol o'r meysydd i gyd fel y gallant ystyried sut mae angen i unigolion gydweithio ac ymgysylltu ag eraill sy'n gweithio yn yr un maes o'r diwydiant, yn ogystal â rhai mewn cyrff eraill, er mwyn cyflawni eu nodau.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am wahanol fathau o gyrff yn y diwydiant celfyddydau perfformio
- 2 Gwybod am swyddi yn y diwydiant celfyddydau perfformio.



# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gwybod am wahanol fathau o gyrff yn y diwydiant celfyddydau perfformio

*Cwmnïau a lleoliadau cynhyrchu:* ee tai cynhyrchu, tai derbyn, cyfadeiladau adloniant, canolfannau'r celfyddydau, cwmnïau syrcas, cwmnïau dawns, cwmnïau theatr, cwmnïau teithio, ffilm a theledu, allgymorth addysgol, celfyddydau cymunedol

*Gweinyddu'r Celfyddydau:* cyrff ariannu ee cyrff ariannu cenedlaethol; byrddau rhanbarthol y celfyddydau; awdurdodau lleol; noddwyr o fyd busnes; asiantaethau gweinyddu; cyrff marchnata; Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; Phonographic Performance Ltd (PPL); undebau ee Equity, Undeb Darlledu, Adloniant, Sinemâu a Theatrau (BECTU); Undeb y Cerddorion (MU) asiantaethau ee asiantaethau castio, asiantaethau 'extras', asiantaethau modelu, asiantaethau cyflogaeth, asiantaethau llenyddol, cynrychiolwyr artistiaid, asiantaethau bwcio

*Gwasanaethau:* cwmnïau llogi ee goleuo, sain, propiau, cyfarpar golygfeydd, gwisgoedd; creu golygfeydd; cwmnïau sy'n gwerthu ac yn gosod cyfarpar technegol, colur, gwisgoedd, wigiau, propiau, tân gwyllt; asiantaethau archebu tocynnau; cwmnïau cludiant

**Dylai'r dysgwyr allu disgrifio UN math o gorff.**

## 2 Gwybod am swyddi yn y diwydiant celfyddydau perfformio

*Perfformwyr:* ee actor, canwr, dawnsiwr, cerddor

*Gweinyddu'r Celfyddydau:* ee cynhyrchydd, rheolwr theatr, swyddog ariannu, staff swyddfa docynnau, blaen tŷ, swyddog marchnata

*Rolau cynhyrchu:* ee cynhyrchu, rheolwr cynhyrchu, cyfarwyddwr technegol, rheolwr llwyfan, dylunydd set, gweithredwr goleuo, peiriannydd sain, rheolwr gwisgoedd, lluniwr golygfeydd, gweithiwr allgymorth theatr, cyfarwyddwr, coreograffydd, animateur, cyfarwyddwr cerdd

**Dylai'r dysgwyr allu disgrifio un swydd o faes perfformio ac ail swydd o feysydd gweinyddu neu gynhyrchu.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio corff celfyddydau perfformio, ei swyddogaeth a'i berthynas â meysydd eraill y diwydiant [YA]	<b>T1</b> esbonio swyddogaeth corff celfyddydau perfformio, gan ei gysylltu â meysydd eraill y diwydiant	<b>Rh1</b> esbonio swyddogaeth corff celfyddydau perfformio, gan ddod i ganlyniadau wedi'u cefnogi am ei berthynas â meysydd eraill y diwydiant
<b>LI2</b> disgrifio swydd o faes perfformio'r gyflogaeth a sut mae'n cysylltu â swyddi eraill yn yr un maes o'r diwydiant a meysydd gwahanol ohono [YA]	<b>T2</b> esbonio swydd o faes perfformio'r gyflogaeth a sut mae'n cysylltu â swyddi eraill o'r un maes o'r diwydiant a meysydd gwahanol	<b>Rh2</b> esbonio swydd o faes perfformio'r gyflogaeth, gan roi adroddiad manwl sut mae'n cysylltu â swyddi eraill o'r un maes o'r diwydiant a meysydd eraill, gan ddefnyddio enghreifftiau wedi'u dewis yn dda
<b>LI3</b> disgrifio swydd o faes gweinyddu neu gynhyrchu'r gyflogaeth a sut mae'n cysylltu â swyddi eraill o'r un maes o'r diwydiant a meysydd gwahanol ohono. [YA]	<b>T3</b> esbonio swydd o faes gweinyddu neu gynhyrchu'r gyflogaeth a sut mae'n cysylltu â swyddi eraill o'r un maes o'r diwydiant a meysydd gwahanol ohono.	<b>Rh3</b> esbonio swydd o faes gweinyddu neu gynhyrchu'r celfyddydau'r gyflogaeth, gan roi adroddiad manwl sut mae'n cysylltu â swyddi eraill o'r un maes o'r diwydiant a meysydd eraill, gan ddefnyddio enghreifftiau wedi'u dewis yn dda.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned A2: Datblygiad Proffesiynol yn y Diwydiant Celfyddydau Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>R/502/4810</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>5</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>30</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i gael gwybodaeth am amrywiaeth o gyfleoedd gyrfaol er mwyn ystyried eu datblygiad proffesiynol eu hunain yn niwydiant y celfyddydau perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dysgwyr yn dechrau rhaglenni'r Celfyddydau Perfformio Lefel 2 am amryw o resymau. Efallai bydd rhai dysgwyr yn gobeithio cael gyrfa fel actor, cerddor neu ddawnsiwr. Efallai bydd rhai'n ystyried swyddi cefn llwyfan ym maes dylunio, theatr dechnegol neu gynhyrchu. Efallai bydd eraill wedi dewis y pwnc oherwydd eu bod yn ei fwynhau'n unig. Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ystyried eu dewisiadau drwy archwilio'r hyn sydd gan y diwydiant i'w gynnig o ran gyfleoedd posibl. Byddan nhw'n edrych ar ystod o gyfleoedd gyrfaol sydd ar gael yn sector y celfyddydau perfformio, gan edrych ar yr hyfforddiant sydd ei angen a'r llwybr gyrfaol mwyaf tebygol ar gyfer meysydd gwaith penodol. Ar ôl cael trosolwg o'r diwydiant, bydd y dysgwyr yn dewis maes o'r proffesiwn sy'n briodol i'w diddordebau, sgiliau a/neu eu harbenigedd penodol nhw i ymchwilio iddynt ymhellach, gan edrych ar gyrsiau hyfforddi penodol a chymwysterau a llwybrau dilyniant.

Bydd yr uned yn galluogi'r dysgwyr i ystyried eu datblygiad proffesiynol eu hunain yn ystod y rhaglen hon a thu hwnt. Byddan nhw'n asesu eu lefelau sgiliau presennol ym maes perfformio, gwaith technegol, dylunio a/neu gynhyrchu. Hefyd, byddan nhw'n ystyried y sgiliau cyffredinol sydd eu hangen ym myd gwaith fel cyfathrebu, trefnu a gweithio mewn tîm. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei chasglu yn ystod yr archwiliadau sgiliau hyn yn cael ei defnyddio wrth ochr canfyddiadau eu hymchwil i lwybrau gyrfaol er mwyn dylunio cynllun datblygu proffesiynol sy'n nodi targedau i'w gwella tymor hir a thymor byr. Wedyn bydd gofyn i'r dysgwyr fonitro ac adolygu eu cynllun yn gyson.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am y cyfleoedd gyrfaol a dilyniant yn y diwydiant celfyddydau perfformio
- 2 Gallu dylunio a monitro cynllun datblygu proffesiynol.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am y cyfleoedd gyrfaoel a dilyniant yn y diwydiant celfyddydau perfformio

*Gyrfaoedd:* ee ym maes perfformio, cynhyrchu, theatr dechnegol, dylunio ar gyfer y theatr, gweinyddu, rheoli, blaen y tŷ; mathau o gyflogaeth ee rhan amser, llawn amser, gwirfoddol, profiad gwaith, llawrydd, cytundebau tymor byr, cytundebau parhaol

*Hyfforddiant:* cymwysterau; cyrsiau Addysg Bellach ac Uwch ee graddau prifysgol, Tystysgrifau Cenedlaethol BTEC; conservatoires dawns; ysgolion drama

*Trefnau ymgeisio:* ee CVau, datganiadau personol, llythyrau cais, clyweliadau, portffolios o waith, asiantaethau castio

### 2 Gallu dylunio a monitro cynllun datblygu proffesiynol

*Archwiliad sgiliau:* sgiliau'r celfyddydau perfformio ee dawns, cerddoriaeth, actio, technegol, dylunio; sgiliau personol a gwaith ee trefnu, cyfathrebu, gweithio mewn tîm

*Gosod targedau:* nodau tymor hir ee cwblhau cwrs Addysg Bellach neu Uwch yn y celfyddydau perfformio; ennill cymwysterau ychwanegol ee arholiad llefaru a drama neu gerddoriaeth; nodau tymor byr ee gwella sgiliau lleisiol neu symud, mynychu clwb drama ar ôl ysgol, gwella presenoldeb a phrydlondeb

*Olrhain cynnydd:* cerrig milltir, gan ddefnyddio adborth oddi wrth diwtoriaid a chymheiriaid, mesur cyflawniad, ailedrych ar dargedau a'u hadolygu, hunanwerthuso

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi'r gofynion hyfforddi a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer llwybr gyrfaol yn y celfyddydau perfformio [YA]	<b>T1</b> disgrifio'r gofynion hyfforddi a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer llwybr gyrfaol yn y celfyddydau perfformio gan gyfeirio at enghreifftiau	<b>Rh1</b> esbonio'r gofynion hyfforddi a'r profiad sydd eu hangen ar gyfer llwybr gyrfaol yn y celfyddydau perfformio gan gyfeirio at enghreifftiau wedi'u dyfynnu'n dda
<b>LI2</b> dylunio cynllun datblygu proffesiynol sy'n nodi lefelau sgiliau presennol ac sy'n gosod targedau [DM]	<b>T2</b> dylunio cynllun datblygu proffesiynol sy'n disgrifio lefelau sgiliau presennol ac sy'n gosod targedau sydd wedi'u hystyried	<b>Rh2</b> dylunio cynllun datblygu proffesiynol sy'n rhoi esboniad o'r lefelau sgiliau presennol ac sy'n gosod targedau mesuradwy sydd wedi'u diffinio'n eglur o
<b>LI3</b> monitro cynllun datblygu proffesiynol, gan nodi'r cynnydd tuag at dargedau. [DM]	<b>T2</b> monitro cynllun datblygu proffesiynol, gan ddisgrifio'r cynnydd tuag at dargedau.	<b>Rh2</b> monitro cynllun datblygu proffesiynol gan roi esboniadau manwl o'r cynnydd tuag at dargedau.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned A3:

# Proses Gynhyrchu'r Celfyddydau Perfformio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>4502/4811</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o'r prosesau hanfodol sydd eu hangen er mwyn llwyfannu perfformiad, gan gynnwys yr holl weithdrefnau technegol a gweinyddol. Yn ogystal, mae'n meithrin dealltwriaeth o'r angen am waith tîm a chydweithredu.

## Cyflwyniad i'r uned

Gallai 'Amser y sioe' fod yn is-deitl i'r uned hon gan ei bod yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall y broses sy'n hanfodol wrth llwyfannu perfformiad cyhoeddus, o'r syniad cychwynol i'r noson gyntaf. Mae'n galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n benodol i'w disgyblaeth nhw, drwy ymwneud â'r broses weithio a gwireddu perfformiad cyhoeddus, a chyfrannu tuag atynt. Mae gofyn i berfformwyr proffesiynol wybod, deall a gallu cyfrannu i'r broses hon. Bydd y dysgwyr yn dod i werthfawrogi mai yng nghyd-destun tîm sy'n gweithio gyda'i gilydd y gellir dilyn y broses gynhyrchu. Mae'n debygol y bydd y dysgwyr nid yn unig yn ymwneud â swydd sy'n gysylltiedig â'r broses gynhyrchu ond efallai y byddan nhw hefyd yn cyfrannu fel perfformwyr. Mae hyn yn adlewyrchu arfer y diwydiant pan fydd ymarferwyr yn cael eu cyflogi mewn cwmni bach a nifer cyfyngedig o staff sydd ar gael i ateb y gofynion i gyd.

Bydd y dysgwyr yn ymgymryd â rolau cynhyrchu megis technegwyr, gweinyddwyr neu ddylunwyr, gan wneud mwy nag un dasg yn aml. Mae hyn yn rhoi profiad realistig o sut mae cwmni proffesiynol yn gweithio, yn enwedig os yw'r cwmni'n fach.

Gan fod yr uned hon yn rhoi profiad galwedigaethol realistig i'r dysgwyr, maen nhw'n cael eu hannog i adlewyrchu arfer y diwydiant o ran cwmmpas a rheoli'r prosiect a chael adnoddau ar ei gyfer. Er nad yw'n bosib cael mynediad i leoliadau proffesiynol gyda'r cyfarpar diweddaraf bob amser, mae'n hi'n bwysig fod yr uned hon yn parhau i gynnig cyfleoedd i weithio mewn cyd-destun proffesiynol. Dylai'r gwaith o'r uned hon arwain at berfformiad i gynulleidfa gyhoeddus, gyda chyfleusterau sy'n briodol i gwmpas a maint y cynhyrchiad, a gofynion technegol a gweinyddol y swyddi y mae'r dysgwyr yn ymgymryd â nhw.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae rhoi gofynion cynllunio ar waith ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio
- 2 Gallu cymryd rhan yn y broses ddatblygu ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio
- 3 Deall diben y broses gynllunio a pharatoi wrth greu cynnyrch y celfyddydau perfformio

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae rhoi gofynion cynllunio ar waith ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio

*Cynllunio*: agendâu; cofnodion; cynlluniau gweithredu; cynlluniau wrth gefn; dyrannu swyddi a chyfweld am swyddi; cynllunio; cyflwyniadau a chyfarfodydd; trefnu'r cyfnod cynhyrchu; nodi gofynion iechyd a diogelwch; dulliau cyfathrebu; gofynion technegol cyfarpar; gofynion lleoliad; cynulleidfa darged ee oedran, rhyw, economaidd-gymdeithasol, hil

*Gofynion cynllunio ar gyfer marchnata*: cynulleidfa darged ee oedran, rhyw, economaidd-gymdeithasol, hil; strategaeth farchnata ee poster, taflenni, datganiadau i'r wasg, hysbysebu ar y radio a'r teledu

*Cynnyrch*: bwriad artistig ee perfformiad, drama, theatr ffisegol, theatr stryd, theatr gymunedol, dawn, cyngerdd, syrcas, gig

### 2 Gallu cymryd rhan yn y broses ddatblygu ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio

*Datblygu*: ee ymarferion, archwilio'r deunydd perfformio, ymchwil i'r deunydd perfformio, sgriptio, cyfansoddi, coreograffi, gweithdai, archwilio testunau, ymarferion technegol, ymarfer gwisgoedd

*Technegol*: lleoliadau ee theatr, canolfan y celfyddydau, neuadd ysgol, neuadd bentref; adnoddau'r lleoliad ee mynedfeydd, allanfeydd, cyflenwad pŵer, lle'r awditoriwm, seddi; trefniant y llwyfan; gosodiad y llwyfan; cywirdeb wrth drin a gweithredu cyfarpar; ymateb i giwiau a chyfarwyddiadau; arferion gweithio diogel; cyfathrebu ag aelodau tîm a pherfformwyr; archwiliad o'r cyfarpar; cynnal a chadw; cludo'r cyfarpar cario i mewn, gosod a chario allan; rigio; cyfathrebu; iechyd a diogelwch; adroddiadau; dilyn cynlluniau a chyfarwyddiadau technegol; ymarferion technegol, ymarfer gwisgoedd

*Tîm cynhyrchu*: cyfarfodydd tîm; cynllunio; amserlenni; iechyd a diogelwch; cyfathrebu; paratoadau penodol i rôl(rolau) unigol ee dilyn briffiau dylunio, cyfarfodydd dylunio, cyflwyno syniadau dylunio, trefnu eiddo, sain, goleuo a'r set, trefnu blaen tŷ, gosod y swyddfa docynnau

### 3 Deall diben y broses gynllunio a pharatoi wrth greu cynnyrch y celfyddydau perfformio

*Gwerthusiad*: cryfderau/gwendidau; effeithiolrwydd y prosesau a'r technegau ymarfer/cynhyrchu; perthnasoedd proffesiynol; defnyddio adnoddau; cyfraniad unigol; cyfraniad tîm; ymateb y gynulleidfa; awgrymiadau ar gyfer gwella/datblygu

*Cynnyrch*: ee perfformiad, drama, theatr ffisegol, theatr stryd, theatr gymunedol, dawn, cyngerdd, syrcas, gig

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi'r gofynion cynllunio angenrheidiol ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio	<b>T1</b> disgrifio'r gofynion cynllunio angenrheidiol ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio	<b>Rh1</b> esbonio'r gofynion cynllunio angenrheidiol ar gyfer cynnyrch y celfyddydau perfformio gyda mewnwelediad, rhagwelediad a hyder
<b>LI2</b> nodi deunyddiau/cyfarpar addas i gynnyrch y celfyddydau perfformio [YA]	<b>T2</b> disgrifio deunyddiau/cyfarpar addas i gynnyrch y celfyddydau perfformio gydag ymdrech i lunio natur y gwaith sy'n cael ei ddatblygu	<b>Rh2</b> esbonio deunyddiau/cyfarpar addas i gynnyrch y celfyddydau perfformio mewn ffordd sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol ac artistig i'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu
<b>LI3</b> cyfathrebu ag aelodau eraill o'r tîm a/neu bersonél y digwyddiad fel y bo'n briodol [GT]	<b>T3</b> cyfathrebu ag aelodau eraill y tîm a/neu bersonél y digwyddiad gan ddefnyddio sianelau a dulliau priodol i sicrhau bod y cyfathrebu'n cyflawni ei amcan	<b>Rh3</b> cyfathrebu'n effeithiol ag aelodau eraill o'r tîm a/neu bersonél y digwyddiad

**Meini prawf asesu a graddio**

I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p><b>LI4</b> cyflawni rôl yn y broses ddatblygu gan ddangos gafael ar ofynion y dasg a chyda pheth ymrwymiad</p>	<p><b>T4</b> cyflawni rôl yn y broses ddatblygu gan ddangos bod gofynion y dasg yn cael eu trin gyda pheth ystyriaeth a sylw i fanylder a chyda pheth ymrwymiad</p>	<p><b>Rh4</b> cyflawni rôl yn y broses ddatblygu gan ddangos bod gofynion y dasg yn cael eu trin yn effeithiol, yn ymrwymedig ac yn annibynnol</p>
<p><b>LI5</b> gwerthuso prif gryfderau a gwendidau'r cynnyrch gan gyfeirio at y broses gynllunio a pharatoi. [DM]</p>	<p><b>T5</b> gwerthuso prif gryfderau a gwendidau'r cynnyrch gan gyfeirio at y broses gynllunio a pharatoi a chyda pheth rhesymu.</p>	<p><b>Rh3</b> gwerthuso'n fanwl effeithiolrwydd y cynnyrch gan gyfeirio at y broses gynllunio a pharatoi a gyda chanlyniadau wedi'u hystyried.</p>

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned B4: Sgiliau a Thechnegau Actio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/4814</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar alluogi'r dysgwyr i ddatblygu technegau actio penodol. Mae'r sgiliau a gaiff eu caffael drwy gydol yr uned hon yn hanfodol er mwyn datblygu hyder a dealltwriaeth y dysgwr o rôl yr actor.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddod yn gyfarwydd â rôl yr actor ac ymarfer rhai o'r sgiliau technegol a dehongli sy'n sail i grefft actio. Caiff sgiliau llais a symud eu datblygu ac edrychir ar ymatebion i destun a chymeriadau yn y dosbarth, mewn ymarferion ac mewn perfformiadau.

Mae'r uned hon yn rhoi sail sgiliau y gellir ei hestyn a'i datblygu yn nifer o feysydd eraill y rhaglen. Mae strwythur yr uned yn adlewyrchu natur alwedigaethol ei chynnwys lle caiff sgiliau eu datblygu, eu hymarfer a'u gwella dros gyfnod o amser. Mae gweithdai drama hanfodol ar ffurf ymarferion lleisiol, ymarferion corfforol, creu drama'n fyrfyfyr ac archwilio testunau'n nodwedd o'r uned hon. Ar ôl cael peth dealltwriaeth o'r gwaith hanfodol y mae actor yn ei wneud wrth baratoi at berfformiad, bydd y dysgwyr yn cymhwyso'r sgiliau y byddan nhw newydd eu caffael at berfformiad o flaen cynulleidfa. Canolbwynt eithaf yr uned hon yw actio yng nghyd-destun perfformiad i gynulleidfa, lle mae sgiliau lleisiol a chorfforol yn cyfuno yn y broses o gymeriadau.

Mae'r uned hon yn werthfawr dros ben o ran datblygu sgiliau'r dysgwyr ar lwybr actio yn ogystal â rhoi'r sgiliau actio sydd eu hangen ar berfformwyr mewn gweithiau'r theatr gerdd.

**Dylai'r dysgwyr ddangos sgiliau actio mewn o leiaf ddau berfformiad lle gallan nhw ddangos cyferbyniad wrth gymeriadau.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol
- 2 Gallu defnyddio sgiliau symud
- 3 Gallu dehongli a datblygu cymeriadau
- 4 Gallu perfformio mewn rôl actio.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu defnyddio sgiliau lleisiol

*Techneg:* rheoli anadlu; taflu'r llais; ynganu; traw; ymarferion lleisiol; goslef; dysgu llinellau; goslef

*Mynegiant:* goslefiad; cyflymder; brawddeg; acen; pwyslais; defnyddio oedi; tafodiaith; cyfathrebu ystyr; seiniau geiriau; ansawdd y tôn, lliw lleisiol

### 2 Gallu defnyddio sgiliau symud

*Techneg:* cydbwysu; ymwybyddiaeth ofodol; lleoli pwysau; canolbwynt; ymarferion corfforol; rheoli'r symud; ymlacio'r cyhyrau; cydlynu; ymddiried; gweithio gydag eraill; egni; cof symud

*Mynegiant:* defnyddio ystum; mynegiant yr wyneb; cyflymder; mynegi teimladau mewnol drwy gyfrwng y corff; trin propiau; cof symud; dehongli'r testun; perthnasoedd gofodol

### 3 Gallu dehongli a datblygu cymeriadau

*Dehongliad:* dadansoddi nodweddion corfforol; is-destun; cymhwysu canfyddiadau ymchwil i'r rôl/cymeriad; perthynas â chymeriadau/rolau eraill; cydlynu â chysyniad y cyfarwyddwr; cymryd rhan mewn ymarferion oddi ar y testun; yr amgylchiadau ar y pryd

*Datblygu:* ee creu'n fyrfyfyr, wrth ysgrifennu rôl, creu eiliadau oddi ar y llwyfan yn fyrfyfyr, archwilio sefyllfaoedd 'beth petai', ateb, cadair goch

### 4 Gallu perfformio mewn rôl actio

*Sgiliau perfformio:* defnyddio sgiliau corfforol a lleisiol; trin propiau a chymhorthion allanol eraill; defnyddio lle; alldaflu dehongliad; ymgorffori'r rôl/cymeriad; chwarae'r arddull briodol; ffocws; canolbwyntio; egni

*Cyfathrebu:* â'r perfformwyr eraill, â'r gynulleidfa; cyfathrebu dehongliad o'r cymeriad/rôl; eglurder traddodi'r ddeialog; defnyddio mynegiant lleisiol, mynegiant corfforol; ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio; ymateb

**Dylai'r dysgwyr ddangos sgiliau actio mewn o leiaf ddau berfformiad lle gallan nhw ddangos cyferbyniad wrth gymeriadu.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cymryd rhan mewn ymarferion lleisiol a dangos gwelliant wrth ddefnyddio technegau lleisiol [GT, CE]	<b>T1</b> cymryd rhan mewn ymarferion lleisiol a dangos gwelliant amlwg i'r technegau lleisiol	<b>Rh1</b> cymryd rhan mewn ymarferion lleisiol a dangos gwelliant sylweddol i'r technegau lleisiol
<b>LI2</b> defnyddio sgiliau lleisiol mewn ffordd sy'n briodol i'r rôl actio gyda rheolaeth dechnegol [MC, CE]	<b>T2</b> defnyddio sgiliau lleisiol mewn ffyrdd sy'n dangos rheolaeth dechnegol dda mewn rôl actio	<b>Rh2</b> dangos meistrolaeth dechnegol gref ar sgiliau lleisiol mewn rôl actio
<b>LI3</b> cymryd rhan mewn ymarferion symud a dangos gwelliant wrth reoli'r corff [GT, CE]	<b>T3</b> cymryd rhan mewn ymarferion symud a dangos gwelliant amlwg wrth reoli'r corff	<b>Rh3</b> cymryd rhan mewn ymarferion symud a dangos rheolaeth lwyr ar y corff
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau symud mewn ffordd sy'n briodol i'r rôl actio gyda rheolaeth dechnegol [MC, CE]	<b>T4</b> defnyddio sgiliau symud mewn ffyrdd sy'n dangos rheolaeth dechnegol dda mewn rôl actio	<b>Rh4</b> dangos meistrolaeth dechnegol gref ar sgiliau symud mewn rôl actio
<b>LI5</b> dangos ffyrdd o archwilio, ymchwilio a chreu cymeriad/rôl [YA, MC, MA, HR]	<b>T5</b> dangos ffyrdd ymatebol o archwilio, ymchwilio a chreu cymeriad/rôl	<b>Rh5</b> dangos ffyrdd hynod hyblyg a chreadigol o archwilio, ymchwilio a chreu cymeriad/rôl

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI6</b> datblygu cymeriad a gwneud penderfyniadau am ddehongliad [YA, MC, MA, HR]	<b>T6</b> datblygu cymeriad a gwneud penderfyniadau ystyriol am ddehongliad	<b>Rh6</b> datblygu cymeriad sy'n dangos defnydd o'r dychymyg a/neu fewnwelediad o ran y dewisiadau a'r penderfyniadau a wnaed am ddehongliad
<b>LI7</b> perfformio rôl gan ddangos triniaeth sylfaenol o'r rôl gydag ymrwymiad [CE]	<b>T7</b> g ymrwymiad a pheth sylw at fanylion	<b>Rh7</b> perfformio rôl gyda ffocws, ymrwymiad, dychymyg a pheth ymdeimlad o rwyddineb
<b>LI8</b> cyfathrebu â chynulleidfa gan fod yn anghyson ar brydiau. [CE]	<b>T8</b> cyfathrebu â chynulleidfa a pharhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r ddrama.	<b>Rh8</b> cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfa a pharhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r ddrama drwyddi draw.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned B5: Datblygiad Drama

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4815</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol drama ac i'w helpu nhw i ddatblygu ac ymarfer gwaith perfformio.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn cynnig trosolwg o faes drama, gan gyfuno archwilio ffurfiau drama'n ddamcaniaethol ac ymarferol â'r broses o greu gwaith dramatig. Bydd y dysgwyr yn edrych ar ddatblygiad ystod o arddulliau dramatig gwahanol drwy weithdai ymarferol, dosbarthiadau, ymchwil annibynnol a chyflwyniadau. Bydd cyfle gan y dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau drwy greu darn o ddrama.

Disgwylir i bawb sy'n gweithio yn sector y theatr fod â gwybodaeth a dealltwriaeth gyffredinol o brosesau a chynnyrch eu gwaith. Mae'r uned hon yn ceisio helpu dysgwyr i ddeall iaith sylfaenol drama a rhai o'r technegau a'r confensiynau sy'n cael eu defnyddio.

Drwy archwilio ystod o arddulliau a genres drama, mae'r uned hon yn rhoi cyflwyniad i sut mae ffactorau cymdeithasol a hanesyddol wedi dylanwadu ar ddrama a'i chyfoethogi drwy'r oesau.

Bydd y dysgwyr yn magu ymwybyddiaeth o ystod o ffurfiau dramatig a byddant yn gallu adnabod nodweddion tebyg neu gyferbyniol. Bydd y broses ymarfer a pharatoi yn cael ei hystyried a sut mae darn o ddrama'n datblygu o syniad neu destun cychwynnol i gael ei berfformio neu ei ddangos yn gyhoeddus.

Bydd cyfle i'r dysgwyr ymchwilio i arddulliau dramatig penodol a chyflwyno eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Byddant yn cael eu hannog i arbrofi gyda gwahanol arddulliau er mwyn helaethu eu dealltwriaeth a'u sgiliau perfformio. Wedyn bydd y dysgwyr yn cymhwyso'r sgiliau a'r ddealltwriaeth o'r broses ymarfer a/neu baratoi i greu darn byr wedi'i berfformio.

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu dau ddarn o ddrama a phob un yn para 10 MUNUD o leiaf.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol yn natblygiad drama
- 2 Adnabod strwythurau a nodweddion drama
- 3 Gallu cymhwyso'r prosesau o greu gwaith dramatig.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol yn natblygiad drama

*Cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol:* ee gwleidyddol, diwylliannol, cynulleidfa, defodol, crefydd, lleoliad, gofod theatr (ee arena, ymwithiol, bwa prosceniwm, traws), economeg, dylanwad technoleg sy'n datblygu

### 2 Adnabod strwythurau a nodweddion drama

*Arddull:* ee naturiolaid, epig, mynegiadol, swrrealaid, arbrofol

Nodweddion cyfansoddol: gweithred; lle; emosiwn; deinameg; plot a datblygiad y naratif; datblygiad y cymeriadau; dangosiad; argyfwng; datrysiad; uchafbwynt; actau; golygfeydd;

*Genres:* ee comedi, ffars, trasiedi, melodrama, drama, rifw, theatr stryd, theatr gerdd, amlgyfrwng

### 3 Gallu cymhwyso'r prosesau o greu gwaith dramatig

*Mannau cychwyn ar gyfer drama:* ee dethol testun, creu gwaith ar ôl cael ysgogiad

Prosesau ymarfer a pharatoi: ee darllen drwy waith, blocio, caboli deunydd, datblygu cymeriad, dysgu llinellau, dylunio cynhyrchiad, rheoli cynhyrchiad, ymarfer technegol, ymarferion gwisgoedd

*Sgiliau actio:* ffocws; canolbwyntio; rheolaeth; dychymyg; cyfathrebu; cydweithredu; arsylwi; cymeriadu; symud; llais; lleferydd; taflu'r llais neu

*Sgiliau cynhyrchu:* dylunio; goleuo; sain; propiau; sgiliau llunio a chreffft ee gwneud masgiau, gwneud propiau, adeiladu setiau, colur

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu dau ddarn o ddrama a phob un yn para o leiaf 10 munud.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadau ar ddatblygiad drama [YA, MC]	<b>T1</b> disgrifio ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadau ar ddatblygiad drama	<b>Rh1</b> esbonio ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadau ar ddatblygiad drama'n fanwl
<b>LI2</b> nodi dau genre dramatig a'u prif nodweddion [YA, MC]	<b>T2</b> disgrifio dau genre dramatig a'u prif nodweddion	<b>Rh2</b> esbonio dau genre dramatig a'u prif nodweddion yn fanwl
<b>LI3</b> dangos y prosesau o greu gwaith dramatig. [MC, GT]	<b>T3</b> dangos y prosesau o greu gwaith dramatig gyda bwriad ac ymrwymiad.	<b>Rh3</b> dangos y prosesau o greu gwaith dramatig gyda hyder a sylw manwl.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned B6: Dyfeisio Dramâu

<b>Cod yr uned:</b>	<b>A/502/4817</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i'r dysgwyr iddyn nhw allu creu dramâu gan ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau dyfeisio. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio deunydd pwnc, themâu, pynciau a materion y gellir eu datblygu i greu darn o ddrama unigryw.

## Cyflwyniad i'r uned

Ar ddechrau'r broses o greu unrhyw ddrama neu gyflwyniad dramatig mae proses ddyfeisio'n digwydd. Yn draddodiadol, tasg y dramodydd unig yw hon sy'n cynhyrchu sgript i eraill ei dehongli. Mae'r uned hon yn ymwneud â dyfeisio dramâu i'w perfformio yng nghyd-destun grŵp. Bydd y dysgwyr yn archwilio ffyrdd o strwythuro deunydd ar ffurf ddramatig a chreu darn gwreiddiol i'w berfformio i gynulleidfa.

Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau i'w galluogi i ddeall strwythur ffurfiau, arddulliau a thechnegau dramatig y gellid eu defnyddio drwy ystod o dechnegau dyfeisio, ac y gall y dysgwyr eu cymhwyso i ystod o sefyllfaoedd. Mae'r broses o ddyfeisio'n amhrisiadwy lle mae thema neu bwnc arbennig yn cael ei harchwilio. Drwy ddadansoddi pwnc drwy ymchwil a datblygu efallai y bydd y ddrama sy'n cael ei dyfeisio'n dangos canlyniadau unigryw lle gall y cyfranogwyr gynnwys eu hagweddau a'u gwerthoedd penodol eu hun.

Mae'r cysyniad o ddyfeisio yn offeryn hanfodol yn y broses o ddatblygu actorion yn ogystal â dramodwyr. Mae'n cynnig offeryn creadigol i'w ddefnyddio i agor drysau i arbrofi. Gall yr uned hon danio diddordeb dysgwr mewn ysgrifennu sgriptiau ac mae'n galluogi'r dysgwyr i amgyffred naratif dramatig ar amryw o ffurfiau.

Mae'r uned hon yn addas iawn i ddysgwyr sydd eisiau archwilio drama mewn ffordd wreiddiol ac mae'n ddelfrydol fel offeryn i dargedu cynulleidfaoedd a chreu drama o gwmpas thema.

**Dylai'r dysgwyr greu o leiaf ddau ddarn o ddrama wedi'u dyfeisio.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu archwilio a datblygu deunydd i ddrama wedi'i dyfeisio
- 2 Gallu defnyddio amrywiaeth o ffurfiau a thechnegau drama
- 3 Gallu cyfathrebu syniadau, materion a/neu deimladau drwy gyflwyno gwaith wedi'i ddyfeisio
- 4 Deall effeithiolrwydd gwaith wedi'i ddyfeisio ar gyfer perfformio.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu archwilio a datblygu deunydd i ddrama wedi'i dyfeisio

*Mannau cychwyn:* ee pwnc, thema, delwedd, gair, cymeriad, sain, cerddoriaeth, sefyllfa, prop, gwisg, masg

*Datblygu:* ymchwil; llunio syniadau; dethol, gwrthod deunydd; datblygiad o ganlyniad i ymchwil pellach; dangos/ailweithio/ailldangos; cofnodi/sgriptio syniadau a deialog

*Ymarfer:* dysgu llinellau; symudiadau; ymwybyddiaeth ofodol; defnyddio cyfryngau, propiau, gwisgoedd, masgiau, cerddoriaeth, sain, goleuo; colur; ymarfer ciwiau; ymateb i eraill; rhoi cyfarwyddyd; derbyn cyfarwyddyd; cadw amser; trefn ymarfer

## 2 Gallu defnyddio amrywiaeth o ffurfiau a thechnegau drama

*Gemau, ymarferion:* ee ymarferion torri'r garw, ymarferion ymddiried, ymarferion arsylwi, ymarferion canolbwyntio, ymarferion gweithio mewn tîm

*Strategaethau archwilio:* ee delwedd lonydd, olrhain meddyliau, y gadair goch, lôn cydwybod, rôl-ar-y-wal, chwarae rôl, theatr delweddau, theatr fforwm, ysgrifennu creadigol, montage, defod

*Elfennau drama:* gweithred; plot: arddull ee naturoliaeth, swrreal, epig; uchafbwynt; disgynneb; tensiwn dramatig; cymeriadu

## 3 Gallu cyfathrebu syniadau, materion a/neu deimladau drwy gyflwyno gwaith wedi'i ddyfeisio

*Rôl:* alldaflu rôl/rolau a/neu gymeriad/au; defnyddio symud; ystum; llais; traddodi llinellau; symud; ciwiau; perthynas â pherfformwyr eraill

*Cyfathrebu:* â'r perfformwyr eraill, â'r gynulleidfa; cymeriadu; technegol; drwy actio; eglurder y traddodi; mynegiant lleisiol; mynegiant corfforol

## 4 Deall effeithiolrwydd gwaith wedi'i ddyfeisio ar gyfer perfformio

*Proffesiynol:* cynnig profiad i gynulleidfa; perthnasoedd gweithio gydag eraill; effaith y broses ymarfer ar y gwaith terfynol

*Artistig:* cyfathrebu bwriadau/syniadau; defnyddio cyfrwng y ddrama; strwythuro gwaith wedi'i ddyfeisio; cyfathrebu â chynulleidfa; creu rolau; dadansoddi cryfderau a gwendidau'r gwaith

**Dylai'r dysgwyr greu o leiaf ddau ddarn o ddrama wedi'u dyfeisio.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> cyfrannu rhai syniadau ac awgrymiadau sy'n berthnasol i'r gwaith [GT]	<b>T1</b> datblygu syniadau ac awgrymiadau sy'n canolbwyntio'n eglur ar y ddrama ac sy'n ceisio llunio strwythur y gwaith	<b>Rh1</b> datblygu syniadau ac awgrymiadau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i siâp a ffurf y gwaith gyda chanlyniadau effeithiol
<b>LI2</b> dethol a defnyddio rhai ffurfiau a thechnegau drama'n rhan o'r broses ddatblygu [MC]	<b>T2</b> dethol a defnyddio ystod o ffurfiau a thechnegau gyda pheth dyfeisgarwch yn rhan o'r broses ddatblygu	<b>Rh2</b> arbrofi'n greadigol gyda gwahanol ffurfiau a thechnegau'n rhan o'r broses ddatblygu
<b>LI3</b> datblygu rôl a gwneud rhai penderfyniadau artistig [MC]	<b>T3</b> datblygu rôl a gwneud penderfyniadau artistig ystyriol	<b>Rh3</b> datblygu rôl sy'n dangos defnydd o'r dychymyg a/neu fewnwelediad o ran y dewisiadau a'r penderfyniadau a wnaed
<b>LI4</b> perfformio rôl gyda mynegiant lleisiol a chorfforol gan gysylltu â'r perfformwyr eraill y rhan fwyaf o'r amser [GT]	<b>T4</b> perfformio rôl gyda chywirdeb lleisiol a chorfforol gan gysylltu â'r perfformwyr eraill drwyddi draw	<b>Rh4</b> perfformio rôl gyda dychymyg lleisiol a chorfforol gan ymateb i'r perfformwyr eraill drwy'r amser
<b>LI5</b> cyfathrebu bwriadau i'r gynulleidfa gyda pheth llwyddiant [CE]	<b>T5</b> cyfathrebu bwriadau i'r gynulleidfa'n effeithiol	<b>Rh5</b> cyfathrebu bwriadau i'r gynulleidfa'n effeithiol

**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI6</b> gwerthuso prif gryfderau a gwendidau'r darn terfynol sydd wedi'i ddyfeisio. [DM]	<b>T6</b> gwerthuso cryfderau a gwendidau'r darn terfynol sydd wedi'i ddyfeisio gan gyfeirio at y broses baratoi a gyda pheth rhesymu.	<b>Rh6</b> gwerthuso'n fanwl effeithiolrwydd y darn terfynol wedi'i ddyfeisio gan gyfeirio at y broses baratoi a gyda chanlyniadau wedi'u hystyried.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned B7: Perfformio Dramâu sydd wedi'u Sgriptio

<b>Cod yr uned:</b>	<b>F/502/4818</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymarfer a pherfformio sgriptiau drama. Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddehongli rôl fel y'i hysgrifennwyd gan ddramodydd. Bydd y dysgwyr yn ymarfer rôl mewn grŵp ac yn ei pherfformio o flaen cynulleidfa.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn bwysig ar gyfer datblygiad actor, gan fod y rhan fwyaf o rolau actio'n gofyn i'r perfformiwr ddehongli a gwerthfawrogi testun. Mae'r uned yn canolbwyntio ar yr ystod o sgiliau sydd eu hangen ar actorion i'w cael o'r dudalen i'r llwyfan, o ddeall cychwynnol a dadansoddi testun drwy greu a datblygu cymeriad, technegau ymarfer ac archwilio testun i'r gofynion ar gyfer perfformiad. Y tu hwnt i'r perfformiad mae hi'n bwysig ystyried cryfderau a gwendidau'r perfformiad a dod i gasgliadau er mwyn datblygu mewn rolau actio.

Bydd angen i'r dysgwyr ddeall yr amrywiaeth o sgiliau a thechnegau actio sydd ar gael a sut bydd y rhai mwyaf priodol yn ateb gofynion arddull y testun drama a roddwyd. Bydd angen i'r dysgwyr ystyried yr arddull, y strwythur, y thema/themâu, yr iaith, y naratif a'r cymeriadau sydd mewn drama. Bydd angen sgiliau actio cynradd llais, lleferydd a symud er mwyn gwerthfawrogi sut mae'r actor yn gwasanaethu bwriad y dramodydd a/neu'r arddull gynhyrchu.

Caiff datblygiad arddull a thechneg ymarfer eu hystyried. Mae hyn yn cael effaith ar y ffordd y mae actorion yn cyfathrebu â'i gilydd a sut maen nhw'n creu perfformiad cydlynol a diriaethol. Mae cysyniad gwaith tîm yn anhraethol bwysig o ran bod y dysgwr yn dod i ddeall mai pan fydd pob perfformiwr yn gweithio tuag at yr un nod yn unig y bydd drama'n llwyddo.

**Dylai'r dysgwyr berfformio rolau mewn o leiaf dwy ddrama, neu olygfeydd o ddramâu.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu dehongli rôl a gymerwyd o ddrama
- 2 Gallu datblygu rôl i'w pherfformio drwy ymarfer
- 3 Bod yn gallu cymryd rhan mewn perfformiad o ddrama
- 4 Deall effeithiolrwydd dehongliad rôl.



# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu dehongli rôl a gymerwyd o ddrama

*Chwarae*: trin themâu a materion gan y dramodydd; arddull ysgrifennu; gofynion y ddrama o ran cymeriadu; defnyddio'r llais ee acen, tafodiaith, patrymau llefaru; defnyddio symud ee ystumiau, arferion corfforol, osgo, safiad, gwisgoedd, propiau; colur; masgiau

*Dehongliad*: dadansoddi nodweddion corfforol; is-destun; cymhwysu canfyddiadau ymchwil i'r rôl a/neu'r cymeriad; perthynas â chymeriadau a/neu rolau eraill; cydlynu â chysyniad y cyfarwyddwr; gofynion y cynhyrchiad; technegau ymarfer ee ymarferion oddi ar y testun, y gadair goch, cyfnewid rolau

## 2 Gallu datblygu rôl i'w pherfformio drwy ymarfer

*Sgiliau technegol*: dysgu llinellau; ymarfer ciwiau; symudiadau; ymateb i eraill; ymwybyddiaeth ofodol; trin a defnyddio cymhorthion allanol, ee gwisgoedd, masgiau, colur; derbyn cyfarwyddyd

*Rheoli personol*: rheoli amser; ymateb i amserlenni; paratoi corfforol; paratoi meddyliol; arferion gweithio iechyd a diogelwch; canolbwyntio a disgyblaeth; ymddiriedaeth a chydweithredu; sefydlu trefn ymarfer

## 3 Deall effeithiolrwydd dehongliad rôl

*Sgiliau perfformio*: defnyddio sgiliau symud i bortreadu cymeriad a/neu rôl; rheoli symudiad, ee llonyddwch, osgo, gweithred, ystumiau, pwysau ac ati; defnyddio sgiliau lleisiol i bortreadu cymeriad a/neu rôl ee tôn, cyflymder, goslef, acen, tafodiaith, ynganiad; rheoli'r llais; taflu'r llais; goslefiad; trin propiau a chymhorthion allanol eraill

*Cyfathrebu*: â'r perfformwyr eraill, â'r gynulleidfa; cyfathrebu dehongliad o'r cymeriad/rôl; eglurder traddodi'r ddeialog; mynegiant lleisiol; mynegiant corfforol; ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio ac ymateb

## 4 Deall effeithiolrwydd dehongliad rôl

*Proffesiynol*: ateb y briff; ymarfer yn effeithiol; perthnasoedd gweithio gydag eraill; cynhyrchu cynnyrch effeithiol sy'n rhoi profiad ystyrion

*Artistig*: cyfathrebu bwriadau, syniadau gwreiddiol; defnyddio cyfrwng y ddrama; creu rolau; cyfathrebu â chynulleidfa; cryfder a gwendidau'r gwaith

**Dylai'r dysgwyr berfformio rolau mewn o leiaf dwy ddrama, neu olygfeydd o ddramâu.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> datblygu rôl a gwneud penderfyniadau am ddehongliad [MC]	<b>T1</b> datblygu rôl a gwneud penderfyniadau ystyriol am ddehongliad gyda pheth mewnwelediad a dychymyg	<b>Rh1</b> datblygu rôl sy'n dangos defnydd effeithiol o'r dychymyg a/neu fewnwelediad o ran y dewisiadau a'r penderfyniadau a wnaed am y dehongliad
<b>LI2</b> mynychu ymarferion a pherfformiadau gan ddangos sgiliau rheoli personol a thechnegol [GT]	<b>T2</b> mynychu ymarferion a pherfformiadau a dangos ymgysylltiad â'r deunydd gydag ymrwymiad a chanolbwyntio	<b>Rh2</b> mynychu ymarferion a pherfformiadau a dangos ymdeimlad o ffocws pwrpasol ar y gwaith drwyddi draw
<b>LI3</b> perfformio rôl gyda mynegiant lleisiol a chorfforol gan gysylltu â'r perfformwyr eraill y rhan fwyaf o'r amser [GT]	<b>T3</b> perfformio rôl gyda chywirdeb lleisiol a chorfforol gan gysylltu â'r perfformwyr eraill drwyddi draw	<b>Rh3</b> perfformio rôl gyda dychymyg a chywirdeb lleisiol a chorfforol gan ymateb i'r perfformwyr eraill drwy'r amser
<b>LI4</b> cyfathrebu bwriad i'r gynulleidfa [CE]	<b>T4</b> cyfathrebu bwriad i gynulleidfa'n llwyddiannus	<b>Rh4</b> cyfathrebu bwriad i gynulleidfa gydag eglurder ac ystyr
<b>LI5</b> adolygu prif gryfderau a gwendidau gwaith perfformio. [DM]	<b>T5</b> adolygu cryfderau a gwendidau gwaith perfformio gyda pheth rhesymu.	<b>Rh5</b> adolygu'n fanwl effeithiolrwydd gwaith perfformiad gyda chanlyniadau ystyriol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned B8: Perfformio Theatr Gerdd

<b>Cod yr uned:</b>	<b>A/502/4820</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau'r dysgwyr wrth berfformio theatr gerdd. Mae gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio sgiliau perthnasol o ddisgyblaethau dawns, drama a cherddoriaeth fel ei gilydd mewn perfformiad o waith theatr gerdd.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae cynulleidfa eang yn dilyn genre perfformio poblogaidd y theatr gerdd. Mae'n galluogi'r dysgwyr i gyfuno sgiliau actio, dawns a cherddorol a'u defnyddio mewn perfformiad.

Mae pwyslais ymarferol gan yr uned ac mae'n ceisio cyfoethogi tair prif ddisgyblaeth perfformiad theatr gerdd. Felly bydd yn apelio at nifer o ddysgwyr o lwybrau dawns, drama a cherddoriaeth. Bydd yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi a datblygu sgiliau mewn arddull berfformio sy'n wahanol i'w prif ddisgyblaeth ac sydd, felly, yn ddefnyddiol wrth gyfoethogi natur amryddawn y perfformiwr. Gellir ei dysgu ar draws llwybrau fel uned integredig.

Mae'r uned hon yn gofyn i'r dysgwyr ddangos mewn sefyllfa berfformio dair prif ddisgyblaeth perfformiad theatr gerdd gyda lefel o allu technegol. Mae angen i'r dysgwyr ddangos eu sgîl technegol yn gyson o bob disgyblaeth a dylid rhoi cyfle iddynt berfformio pob sgîl yn gyfartal.

Yn ogystal â genre y theatr gerdd, bydd y dysgwyr yn gweld bod y profiad a gafwyd yn yr uned hon yn ddefnyddiol lle mae dramâu ffurfiol yn gofyn am dechnegau sy'n gysylltiedig â chanu a dawnsio. Mae angen i'r ystod hon o sgiliau sy'n ofynnol gan actorion fod mor gynhwysfawr ag sy'n bosibl er mwyn datblygu eu potensial cyflogaeth i'r eithaf.

**Dylai'r dysgwyr fod yn gallu dangos eu sgiliau o bob disgyblaeth mewn o leiaf un perfformiad.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu defnyddio sgiliau actio
- 2 Gallu defnyddio sgiliau dawn
- 3 Gallu defnyddio sgiliau perfformiad cerddorol
- 4 Gallu perfformio gwaith theatr gerdd.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu defnyddio sgiliau actio

*Techneg:* technegau lleisiol; technegau corfforol; ymarferion lleisiol; ymarferion corfforol; dysgu llinellau; defnyddio cymhorthion allanol; mynegi ystyr drwy eiriau, tawelwch; defnyddio symud, ystum, llonyddwch, mynegiant wyneb; defnyddio amseru, cyflymder, egni

*Dehongliad:* dadansoddi amgylchiadau testun a roddwyd; dehongli'r rôl; archwilio'r berthynas rhwng elfennau cerddorol, telynegol, llafar; cymhwyso canfyddiadau ymchwil i'r rôl/cymeriad; perthynas â rolau, cymeriadau eraill; cydlynu â dehongliad cyffredinol y cynhyrchiad

## 2 Gallu defnyddio sgiliau dawns

*Sgiliau corfforol:* osgo; llinelliad; cydlynu; cydbwysu; hyblygrwydd; cryfder; gallu i atgynhyrchu ymwybyddiaeth o weithred, dynameg, rhythm, gofod; cof symud; ymwybyddiaeth o ddawnsuwr eraill mewn perfformiad a pherthynas â nhw

*Sgiliau dehongli:* ee taflu'r llais, brawddeg, cerddgarwch, mynegiant, ffocws, pwyslais, mynegiant wyneb

## 3 Gallu defnyddio sgiliau perfformiad cerddorol

*Sgiliau technegol:* cywirdeb traw, rhythm, alaw; cerddgarwch, arddull, tôn, goslef, dynameg, tempo; dysgu alawon; cof cerddorol

*Dehongliad:* dehongli geiriau, naws, cymeriad y gerddoriaeth; ymdeimlad o arddull, tempo, rhythm; dilyn cyfarwyddyd/cyfeiliant; ciwio dyfodiadau, newidiadau mewn tempo, cysylltiadau deialog a/neu newidiadau deinamig

## 4 Gallu perfformio gwaith theatr gerdd

*Sgiliau perfformio:* defnyddio sgiliau dawns, actio, cerddorol wrth ddehongli rôl; trin propiau, cymhorthion allanol eraill; defnyddio lle; chwarae'r arddull briodol

*Cyfathrebu:* â pherfformwyr eraill; cynulleidfa; cyfathrebu dehongliad o'r cymeriad/rôl; sicrwydd o ran cyfuno sgiliau actio, dawns a cherddoriaeth (canu a/neu offerynnol); ymrwymiad ar y llwyfan; rhyngweithio ac ymateb; egni

*Adolygu:* hunanarfarnu ac arfarnu gan gymheiriaid; arsylwi ac arfarnu gan diwtor; ymateb y gynulleidfa

**Dylai'r dysgwyr fod yn gallu dangos eu sgiliau o bob disgyblaeth mewn o leiaf un perfformiad.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos sgiliau actio gyda rheolaeth dechnegol [DM]	<b>T1</b> dangos sgiliau actio mewn ffyrdd sy'n dangos rheolaeth dechnegol dda	<b>Rh1</b> dangos meistrolaeth dechnegol gref ar sgiliau actio
<b>LI2</b> dangos sgiliau dawnsio gyda rheolaeth dechnegol [DM]	<b>T2</b> dangos sgiliau dawns mewn ffyrdd sy'n dang	<b>Rh2</b> dangos meistrolaeth dechnegol gref ar sgiliau dawns
<b>LI3</b> dangos sgiliau cerddorol gyda rheolaeth dechnegol [DM]	<b>T3</b> dangos sgiliau cerddorol mewn ffyrdd sy'n dangos rheolaeth dechnegol dda	<b>Rh3</b> dangos meistrolaeth dechnegol gref ar sgiliau cerddorol
<b>LI4</b> cyfathrebu dehongliad syml mewn perfformiad drwy ddefnyddio a chyfuno sgiliau theatr gerdd [MC]	<b>T4</b> cyfathrebu bwriad wrth berfformio gan roi sylw i fanylion a llwyddo i ddefnyddio sgiliau'n gyson ar draws y tair disgyblaeth	<b>Rh 4</b> cyfathrebu bwriad wrth berfformio'n eglur ac yn effeithiol drwy ddefnyddio sgiliau'n ddychmygus ac yn gyson ar draws y tair disgyblaeth
<b>LI5</b> adolygu prif gryfderau a gwendidau gwaith perfformio. [DM]	<b>T5</b> adolygu cryfderau a gwendidau gwaith perfformio gyda pheth rhesymu.	<b>Rh 5</b> adolygu'n fanwl effeithiolrwydd gwaith perfformiad gyda chanlyniadau ystyriol.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



## Uned B9:

# Datblygu Perfformiadau Theatr Gorfforol

**Cod yr uned:**

**F/502/4821**

**FfCCH Lefel 2:**

**Tystysgrif Gyntaf BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

### Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau theatr gorfforol y dysgwyr. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau symud, ymwybyddiaeth ofodol a llais drwy archwilio ymarferol.

### Cyflwyniad i'r uned

Mae theatr gorfforol yn gyffrous ac yn heriol. Mae perfformwyr sy'n gwneud ac yn creu gwaith yn y ffurf hon yn defnyddio eu cyrff i ddatblygu cymeriadau, lleoedd a syniadau ac, wrth wneud hyn, maen nhw'n gofyn i'w cynulleidfaoedd ddychmygu a phrofi'r daith y maen nhw i gyd yn mynd arni. Rhaid i gynulleidfaoedd sy'n gwyllo theatr gorfforol weithio gyda'r perfformwyr, mynd ar y daith gyda nhw, pan fydd yn cael ei gwneud yn dda, gall fod yn ffurf wefreiddiol. Yn yr uned hon bydd cyfle i'r dysgwyr archwilio gwaith rhai ymarferwyr theatr gorfforol; byddan nhw'n datblygu sgiliau symud corfforol a llais, ac yn eu defnyddio i greu gwaith ar gyfer perfformiad.

Rhaid i berfformwyr sy'n defnyddio'r sgiliau hyn fod â chyrff a lleisiau helaeth eu hyfforddiant er mwyn ateb heriau'r arddull, felly bydd y dysgwyr yn gweithio tuag at fireinio eu sgiliau symud a gwella eu lefelau ffitrwydd a chydysymud. Byddan nhw'n archwilio sut gellir defnyddio lle, ar y llwyfan neu yn y stiwdio, a sut gellir creu lleoedd dychmygol drwy ddefnyddio cyrff y perfformwyr eu hunain yn unig. Bydd dychymyg a gwaith caled yn allweddol!

Bydd y dysgwyr yn archwilio hefyd sut gellir datblygu deunyddiau ysgogi megis dramâu, darnau o ysgrifennu, storïau a darluniau yn waith i'w berfformio. Does dim cyfyngiadau ar y mathau o ddeunydd y gall perfformwyr eu defnyddio'n fannau cychwyn i waith yn y ffurf hon. Gellid defnyddio theatr gorfforol, er enghraifft, i ddehongli darnau o theatr glasurol, megis drama gan Shakespeare neu drasiedi Roegaid. Hefyd, gallai fod yn ffordd o ddehongli storïau i blant neu gyflwyno negeseuon cymdeithasol. Fel arall, gall gwaith godi drwy ddatblygu syniad am stori'n unig.

Mae sawl ffordd wahanol o gynhyrchu theatr gorfforol. Gallai gwaith ddeillio o ddawns, felly mae ymarferion ac ymarfer dawnys yn greiddiol iddi. Mae ymarferwyr fel Pina Bausch a'i chwmmi'n enghreifftiau da o artistiaid sy'n perfformio yn yr arddull hon. Mae ymarferwyr theatr gorfforol eraill yn defnyddio cyfrwng drama i greu eu gwaith, gan ddechrau o ddeialog a mynd ymlaen i symudiadau. Mae Steven Berkoff yn enghraifft dda o'r math hwn o berfformiwr. Wedyn mae'r rhai sy'n defnyddio meim yn sail i'w theatr, fel Jacques Lecoq. Mae pob un o'r perfformwyr hyn wedi creu theatr gyffrous a heriol mewn ffurf sy'n defnyddio corff a llais y perfformiwr yn unig i greu a chyfathrebu storïau a syniadau i'w cynulleidfaoedd.

**Dylai'r dysgwyr ddangos sgiliau theatr gorfforol mewn o leiaf ddau berfformiad.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu datblygu sgiliau theatr gorfforol
- 2 Gallu ymarfer theatr gorfforol ar gyfer perfformiad
- 3 Gallu perfformio rôl theatr gorfforol.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu datblygu sgiliau theatr gorfforol

*Arddulliau*: arddulliau dawnas a seiliedig ar ddrama ee Commedia dell'Arte, clownio, sgiliau syrcas, adrodd storïau i blant, drama ddawns gyfoes, theatr fasgiau, pypedwaith, theatr stryd, meim

*Sgiliau corfforol*: ffitrwydd; cryfder y cyhyrau; rheoli anadlu; cydbwyso; deinameg; codi; dal; ymwybyddiaeth ofodol; cydlynu; deheurwydd; hyblygrwydd

*Technegau*: ee meim, tableaux, dawnas arwyddo, acrobateg, creu byrfyfyr drwy gyffwrdd, masgiau, crefft ymladd, motifau a datblygiad

*Sgiliau dychmygus*: datblygu rôl a chymeriad; ystumiau; arferion; agweddau; ymateb yn ddigymell; trefnau gosod

*Ensemble*: ymarferion ymddiried; gwaith tîm; iechyd a diogelwch

## 2 Gallu ymarfer theatr gorfforol ar gyfer perfformiad

*Syniadau ar gyfer perfformiad*: ee testun, delweddau, dyluniad, materion, cerddoriaeth, themâu, storïau, teithiau, bywgraffiadau, trosiad, cerddi, sylwebaeth gymdeithasol, gwisgoedd, llais, peintiadau, gwrthrychau

*Dylanwadau ymarferwyr cyfoes*: ee Steven Berkoff, Theatre de Complicite, Common Ground, Frantic Assembly, Trestle Theatre Company, Physical Approaches, DV8, Cirque du Soleil, Gardzienice, Eugenio Barba, Candoco Dance Company, Kneehigh Theatre, Dario Fo, Merce Cunningham, Pina Bausch

*Y gweithdy*: gweithio gyda'i gilydd fel ensemble, deuawd ac unawd; paratoi personol at y dosbarth a'r ymarfer; disgyblaeth; log y perfformiwr; gwerthuso ac adolygu eu gwaith eu hun; gosod targedau personol

## 3 Gallu perfformio rôl theatr gorfforol

*Hyfforddiant cof symud a lleisiol*: adeiladu; ymarfer; ailadrodd; cofio

*Perfformio'r gwaith a grëwyd yn gywir*: rheoli'r corff a'r llais; ymwybyddiaeth ofodol; cywirdeb symud a lleisiol; cyflawni rôl a chymeriad

*Sgiliau perfformio*: defnyddio symud, deinameg, ansawdd lleisiol a thaflu'r llais yn briodol; ffocws ar y perfformiad; cyfathrebu

**Dylai'r dysgwyr ddangos sgiliau'r theatr gorfforol mewn o leiaf ddau berfformiad.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos sgiliau theatr gorfforol mewn gweithdai a pherfformiad [YA, MC, DM, GT]	<b>T1</b> dangos sgiliau theatr gorfforol mewn gweithdai a pherfformiad yn gymwys	<b>Rh1</b> dangos sgiliau theatr gorfforol mewn gweithdai a pherfformiad yn ddychmygus
<b>LI2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol i ddatblygu rôl i'w pherfformio [MC, CE, HR, DM]	<b>T2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol priodol i archwilio deunyddiau ysgogi a datblygu rôl i'w pherfformio	<b>Rh2</b> defnyddio sgiliau theatr gorfforol priodol i archwilio'n ddychmygus ddeunyddiau ysgogi a datblygu rôl i'w pherfformio
<b>LI3</b> perfformio rôl gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol. [GT, HR, CE]	<b>T3</b> perfformio'n gymwys rôl sy'n archwilio'r deunydd neu'r syniad ysgogi, gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol.	<b>Rh3</b> perfformio rôl ddychmygus a chydlynus gan ddefnyddio sgiliau theatr gorfforol sy'n datblygu'r deunydd neu'r syniad ysgogi i'r eithaf.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned C10: Dawns Gyfoes

<b>Cod yr uned:</b>	<b>H/502/4827</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn ymwneud â datblygu sgiliau dawnsio technegol mewn arddull dawns gyfoes. Bydd y dysgwyr yn cymryd dosbarthiadau techneg cyson a bydd cyfle iddyn nhw ddangos eu sgiliau yn y dosbarth ac mewn perfformiad.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae techneg dawns gyfoes yn hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio ym maes coreograffi a pherfformio neu sy'n dymuno symud ymlaen i lefelau cymwysterau uwch. Mae nifer o gwmnïau a choreograffwyr dawns yn defnyddio dawns gyfoes, a hefyd mae cwmnïau bale yn gofyn am ddealltwriaeth o ddawns gyfoes mewn perfformiad. Erbyn hyn mae nifer o sioeau yn West End Llundain yn defnyddio technegau a choreograffeg cyfoes mewn perfformiadau.

Bydd cyfle i'r dysgwyr ddysgu a gwella eu sgiliau dawns drwy ganolbwyntio ar y ffordd y mae'r corff yn symud mewn dawns gyfoes, a thrwy ddatblygu'r cryfder a'r hyblygrwydd angenrheidiol. Byddan nhw'n dysgu ac yn ymarfer dilyniannau symud syml a chyfuniadau o gamau, gan werthuso'u cynnydd a derbyn beirniadaeth, fel bod eu techneg ddawns unigol yn gwella ac yn datblygu yn ystod yr uned.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar yr elfennau y mae'n rhaid i bob dawnsiwr eu meddu er mwyn symud ymlaen yn y byd dawnsio proffesiynol neu amatur. Dylid gweld y gwaith i'r uned hon fel sail gadarn mewn techneg. Er na chaiff arddull dawns gyfoes ei rhagnodi, gellir ystyried bod y canlynol yn addas: Graham, Cunningham, Limone, a rhyddhad (*release*). Bydd angen i'r dysgwyr ymagweddu'n broffesiynol tuag at bob gweithgaredd, nodi eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain, dangos gwelliannau a all ddod yn sgil eu harsylwadau eu hunain neu gyfarwyddu tiwtor, a gallu dysgu sut mae adolygu a gwerthuso eu perfformiad er mwyn ei ddatblygu.

**Rhaid i'r dysgwyr berfformio o leiaf ddwy arddangosfa ymarferol o'u techneg, gyda phob un yn para rhwng un funud a dwy funud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau techneg gyfoes
- 2 Gallu defnyddio sgiliau corfforol yn y dosbarth
- 3 Gallu cofio ac atgynhyrchu patrymau symud
- 4 Gallu dangos cynnydd technegol unigol i'w ddatblygu ymhellach.



# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu cymryd rhan mewn dosbarthiadau techneg gyfoes

*Defnyddio*: dillad addas; gwallt wedi'i glymu'n ôl lle y bo'n briodol; ymrwymiad; hunanddisgyblaeth; defnyddio cyfarwyddyd; llinelliad cywir; gwerthuso; cywiro

*Strwythur*: cynhesu; canoli; ymarferion llawr; teithio; brawddegau symud; cyfuniadau; oeri

*Geirfa symud*: cyfangu; estyn; pum safle'r asgwrn cefn, safleoedd y breichiau a'r traed; gwaith llawr; rholio; siglenni; plîés; defnyddio'r traed; gogwyddo; defnyddio'r torso; symud pwysau'r corff; troi; camu i gyfeiriadau gwahanol; codi; brawddegau teithio

## 2 Gallu defnyddio sgiliau corfforol yn y dosbarth

*Sgiliau corfforol*: osgo; llinelliad; gosod y traed, y coesau, y breichiau; ymwybyddiaeth o'r canol a'i ddefnyddio; cydlynu; gallu i atgynhyrchu symudiad yn gywir; cyfranogi gan y corff i gyd; arwahanrwydd; defnyddio ystod ddeinamig ymwybyddiaeth ofodol; amseru; ymwybyddiaeth rythmig; defnyddio'r anadl; defnyddio disgyrchiant; crogiant

## 3 Gallu cofio ac atgynhyrchu patrymau symud

*Brawddegau symud*: ymarferion ffurfiol; cyfuniadau o ddeunyddiau symud; brawddegau teithio syml; astudiaethau gosod byr

*Atgynhyrchu'r canlynol yn gywir*: trefn; gweithrediadau'r corff; siâp y corff; amseru, brawddegau; rhythm; defnydd o ofod personol; gofod y llwyfan; deinameg

*Hyfforddiant cof symud*: ailadrodd; torri brawddegau i lawr a'u hadeiladu; ymarfer

## 4 Gallu dangos cynnydd technegol unigol i'w ddatblygu ymhellach

*Adolygu*: hunanasesu; cryfderau a gwendidau; arsylwi gan gymheiriaid; adborth tiwtor

*Gwella*: nodi targedau; ymarfer; ailadrodd; gwerthuso o'r newydd

**Rhaid i'r dysgwyr berfformio o leiaf ddwy arddangosfa ymarferol o'u techneg, gyda phob un yn para rhwng un funud a dwy funud.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos hunanddisgyblaeth mewn dosbarthiadau techneg [HR]	<b>T1</b> dangos lefel eglur o hunanddisgyblaeth mewn dosbarthiadau techneg	<b>Rh1</b> dangos ymagweddu disgybledig iawn tuag at ddosbarthiadau techneg
<b>LI2</b> defnyddio'r rhan fwyaf o'r cyfarwyddyd technegol ac ymateb i werthuso a chywiro [HR]	<b>T2</b> defnyddio cyfarwyddyd technegol ac ymateb yn gadarnhaol i werthuso a chywiro	<b>Rh2</b> defnyddio cyfarwyddyd yn llawn ac yn ateb yn gadarnhaol i'r holl werthuso a chywiro
<b>LI3</b> dangos bod sgiliau corfforol yn cael eu defnyddio wrth roi brawddegau symud/ymarferion ar waith	<b>T3</b> dangos bod sgiliau corfforol yn cael eu defnyddio'n gyson wrth roi brawddegau symud/ymarferion ar waith	<b>Rh3</b> dangos bod sgiliau corfforol yn cael eu defnyddio'n gymwys wrth roi brawddegau symud/ymarferion ar waith
<b>LI4</b> atgynhyrchu brawddegau techneg syml gydag ambell wall gan ddangos ymwybyddiaeth o weithred, cynnwys deinamig, rhythmig a gofodol	<b>T4</b> atgynhyrchu brawddegau techneg syml mewn gweithred, cynnwys deinamig, rhythmig neu ofodol	<b>Rh4</b> atgynhyrchu brawddegau techneg syml yn gywir ac yn hyderus

**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI5</b> cyflwyno, gydag arweiniad, adolygiad o'r broses dechnegol unigol [HR, DM, CE]	<b>T5</b> cyflwyno, gydag arweiniad, adolygiad cadarn o'r broses dechnegol unigol	<b>Rh5</b> cyflwyno, gydag ychydig iawn o arweiniad, adolygiad trylwyr o'r broses dechnegol unigol swyddogaethau'r corff
<b>LI6</b> dangos peth gwelliant yn y perfformiad o ganlyniad i ymarferion.	<b>T6</b> dangos gwelliannau yn y perfformiad o ganlyniad i ymarferion.	<b>Rh6</b> dangos gwelliant sylweddol yn y perfformiad o ganlyniad i ymarferion trylwyr.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned C11: Archwilio Arddulliau Dawns Trefol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/4828</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am arddulliau dawns drefol. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r arddulliau gwahanol sydd ar gael a chaffael y wybodaeth greiddiol am sgiliau corfforol a deongliadol sylfaenol yr arddulliau hyn.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dawns drefol a'i hamryfal dechnegau'n hanfodol i unrhyw un sy'n bwriadu gweithio ym maes dawns fasnachol, dawns gymunedol neu sy'n dymuno symud ymlaen i goleg galwedigaethol. Mae dawns drefol yn rhan o ddiwylliant yr ifanc ac mae'n cyrraedd West End Llundain, fideos pop, perfformiadau byw grwpiau pop, sioeau llwyfan, ffilmiau a rhaglenni teledu. Mae cystadlaethau a chyfarfodydd di-ri sy'n annog y ffurf hon ar gelfyddyd mewn nifer o ardaloedd trefol ym Mhrydain ac UDA, yn ogystal â chwmnïau dawns a choreograffwyr sy'n defnyddio arddulliau o ddawns drefol mewn gweithiau cyfoes a dawns i'r camera.

Bydd y dysgwyr yn herio eu hunain drwy ddarganfod beth yw dawns drefol drwy weithdai ymarferol ac ymchwilio yn y dosbarth, yn ogystal â dysgu beth sy'n gwneud i'r arddull ddawns hon fod yn hwyl i'w pherfformio. Bydd y dysgwyr yn datblygu geirfa a sgiliau symud y gellir eu defnyddio drwy gydol yr uned. Cyflwyniad Lefel 2 i ddawns drefol yw hwn a bydd yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwyr y gellid ei datblygu ar Lefel 3.

Nod yr uned hon yw ehangu dealltwriaeth y dysgwyr o'r ymatebion deinamig i'r arddulliau a ddewiswyd a'u hannog i werthfawrogi eu ffurf sy'n dal i esblygu. Mae arddulliau dawns drefol yn amrywiol ac yn aml maen nhw wedi ymdoddi i'w gilydd, er enghraifft, gallai dilyniant dawns stryd ddefnyddio syniadau hip hop gyda rhai elfennau jazz ac efallai symudiadau llawr breg-ddawns.

Dylai'r addysgu a'r dysgu dynnu ar gynnwys yr uned i gwmpasu pob un o'r elfennau a'r sgiliau sydd eu hangen i'r dysgwyr ddechrau meithrin cysyniad o'r arddulliau dawns hyn. Mae rhai agweddau ar ddawns drefol yn gallu herio natur gorfforol dysgwr ac mae'n bwysig sefydlu amgylchedd gweithio diogel. Er y caiff y dysgwyr eu hasesu ar eu hymwneud ymarferol, mae'n hanfodol fod arsylwi a gwerthfawrogi gwaith dysgwyr eraill yn cael ei ystyried yn rhan o'r broses ddatblygu. Rhaid rhoi

sylw i elfennau o dechneg perfformio, megis sgiliau deongliadol, yn yr uned hon, fel y bydd y dysgwyr yn magu hyder a gwybodaeth am sut dylen nhw gyflwyno eu hunain fel artistiaid sy'n perfformio.

Mae hon yn uned gyffrous oherwydd bod nifer o'r arddulliau sy'n gysylltiedig â dawns drefol yn dal i ddatblygu, esblygu, herio a newid. Mae hi'n arddull ddawns mor newydd sy'n cwmpasu pob dim fel y gall y dysgwyr ddyfeisio eu hymatebion eu hunain weithiau a fydd yn cyd-fynd â'r arddulliau sy'n cael eu haddysgu ac mae'n rhaid annog hyn.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu perfformio nodweddion allweddol dawns drefol
- 2 Gallu defnyddio rhythm i bwysleisio amrywiadau ar amseru, cyfrif a phwysleisio
- 3 Gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio sgiliau corfforol a deongliadol.

# Cynnwys yr uned

---

## 1 Gallu perfformio nodweddion allweddol dawns drefol

*Iechyd a diogelwch:* cynhesu; dillad priodol; gallu i ymateb i gyfarwyddyd; arferion diogel ac ymwybyddiaeth grŵp

*Arddulliau gwahanol:* ee dawns stryd, jazz stryd, breg-ddawnsio neu b-boying, locking, body popping, boogaloo, hip hop, bump a grind, roboteg, roc y corff, arddull rydd, rhedeg rhydd, capoeira, krumping

*Geirfa symud:* ee troelli ar y cefn, chwifio'r corff a'r breichiau, cyfangiadau, coesau gorffwyll, 'down rock', gwaith traed, ystumiau, llithran, troelli ar y pen, 'isolations', gwaith pengliniau, colynnu, llithriadau, top rock, troadau, melinau gwynt, tri cham, chwe cham, plethu, rhewi, codi

## 2 Gallu defnyddio rhythm i bwysleisio amrywiadau ar amseru, cyfrif a phwysleisio

*Defnyddio rhythm yn y corff:* creu'n fyrfyfyr; trawsacen; tempo; colli curiadau; oddi ar y curiad; pwyslais

*Gosodiad clywedol:* defnyddio gwahanol arddulliau cerddoriaeth; acennu; polyffoni; cerddgarwch; alaw; cydberthyniad uniongyrchol â'r gosodiad clywedol: geiriau

## 3 Gallu dangos eu bod yn gallu defnyddio sgiliau corfforol a deongliadol

*Sgiliau corfforol:* osgo; llinelliad; cydbwyso; cydlynu; hyblygrwydd; cryfder; stamina; ymwybyddiaeth gorfforol; estyn; cyfangu; cylchdroi; gallu i atgynhyrchu symudiad yn gywir; cyfranogi a/neu arwahanu gan y corff i gyd; defnyddio ystod ddeinamig llonyddwch

*Sgiliau dehongli:* taflu'r llais; ffocws; brawddeg; pwyslais; ansawdd; cerddgarwch; deinameg; mynegiant yr wyneb

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn ddisgybledig yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau [HR]	<b>T1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn ddisgybledig yn y dosbarthiadau	<b>Rh1</b> dangos ymwybyddiaeth o faterion iechyd a diogelwch yn hynod ddisgybledig yn y dosbarthiadau
<b>LI2</b> perfformio nodweddion allweddol dawns drefol [CE]	<b>T2</b> perfformio nodweddion allweddol dawns drefol yn gywir	<b>Rh2</b> perfformio i safon uchel nodweddion allweddol dawns drefol yn gywir a gyda fflach
<b>LI3</b> dangos y deunydd symud gyda mân wallau	<b>T3</b> dangos yn eglur amseru a rhythm y deunydd symud yn y corff i gyd	<b>Rh3</b> dangos amseru rhythmig dawns drefol yn y corff i gyd gyda hyder a chywirdeb
<b>LI4</b> defnyddio sgiliau corfforol a dehongliadol wrth roi brawddegau symud ar waith.	<b>T4</b> defnyddio sgiliau corfforol a dehongliadol wrth roi brawddegau symud ar waith gydag ymrwymiad a chysondeb.	<b>Rh4</b> defnyddio sgiliau corfforol a dehongliadol wrth roi brawddegau symud ar waith gyda rhwyddineb, hyder a fflach.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned C12: Dawns Jazz

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4832</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau dawns jazz, ar gyfer gwaith grŵp ac unigol. Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu ac yn perfformio dawnsiau, gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o arddulliau a thechneg dawns jazz.

## Cyflwyniad i'r uned

Term cyffredinol yw dawns jazz sy'n cwmpasu nifer o arddulliau; mae poblogrwydd cymharol arddulliau jazz yn newid yn barhaus, gan ymateb i ddatblygiadau mewn cerddoriaeth a diwylliant poblogaidd. Ni ddylid diystyru unrhyw arddull, pa mor newydd bynnag ydy hi, at ddibenion yr uned hon, ond bod y gwaith a wneir yn ddiogel ac yn addas i'r ganolfan unigol.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau dawns jazz, ac yn eu defnyddio mewn gwaith grŵp ac unigol. Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu ac yn perfformio dawnsiau, gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o arddulliau a thechneg dawns jazz.

Mae dawns jazz wedi datblygu'n gyflym o jazz, ffync a stryd i 'locking a popping', ond mae'n dal i gynnwys dawns sioe a bale jazz. Gellir perfformio dawns jazz o'i ran ei hun a gall gyfrannu hefyd i ffurfiau mwy traddodiadol eraill, megis sioe adloniant a theatr gerdd.

Mae sylfaen dda drwy ddisbarthiadau dawns cyson yn hanfodol; bydd hyn yn gwella lefelau ffitrwydd, cryfder ac ymestyn i bob dysgwr – elfennau sy'n hanfodol i bob dawnsiwr. Yn ogystal, bydd dosbarthiadau cyson yn galluogi'r dysgwyr i arbrofi ag arddulliau, archwilio cyfuniadau gosod a datblygu eu cyfuniadau eu hunain. Bydd y dysgwyr yn gwella eu gallu i gymryd syniadau dawnsiwr eraill i mewn a'u dehongli drwy gynyddu'r cof symud. Dylid adeiladu hyn dros yr uned fel bod y dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn cyfuniadau hirach – sy'n hanfodol i bob dawnsiwr sy'n perfformio y mae angen iddyn nhw gofio dilyniannau hir a chymhleth o sioeau'n aml.

Rhaid rhoi sylw i elfennau o dechneg perfformio yn yr uned hon, fel y bydd y dysgwyr yn magu'r hyder a'r ddealltwriaeth am sut dylen nhw gyflwyno eu hunain fel artistiaid sy'n perfformio.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu dangos y berthynas rhwng cerddoriaeth, cyfeiliant a dawns jazz
- 2 Gallu perfformio nodweddion allweddol arddull dawns jazz
- 3 Gallu perfformio astudiaethau a chyfuniadau mewn arddull jazz.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu dangos y berthynas rhwng cerddoriaeth, cyfeiliant a dawns jazz

*Arddulliau gwahanol:* ee pop, stryd, ffync jazz, 'locking a popping', bale jazz, roc, theatr gerdd

*Ymwybyddiaeth rhythmig:* tempo; gwerth nodau; colli curiadau

*Trawsacen:* oddi ar y curiad; acenion wedi'u symud; dyblu

### 2 Gallu perfformio nodweddion allweddol arddull dawns jazz

*Safleoedd y traed, y breichiau a'r dwylo:* safleoedd sylfaenol; wedi'u troi allan; cyflin; breichiau jazz, dwylo jazz

*Arwahaniadau:* pen; ysgwyddau; asennau; cluniau; breichiau; dwylo; traed

*Symudiadau:* cyfangu; rhyddhau; cerdded jazz; camau teithio; fflicio'r coesau; cicio; neidio; llamu; troi, ee pirwetau, rholio, troelli

*Amseru:* cyfuniadau o symudiadau o wahanol rannau o'r corff; rhythmau croes i'w gilydd

### 3 Gallu perfformio astudiaethau a chyfuniadau mewn arddull jazz

*Hyfforddiant cof symud:* adeiladu; ymarfer; ailadrodd; cofio

*Perfformio cyfuniadau'n gywir:* rheoli'r corff a sefydlogrwydd creiddiol; llinelliad yr aelodau; ymwybyddiaeth ofodol; cywirdeb rhythmig

*Sgiliau perfformio:* defnyddio deinameg gyferbyniol yn briodol; taflunio a ffocws

**Dylai'r dysgwyr gael o leiaf ddau gyfle i berfformio dawnsiau jazz, pob un yn para un funud.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> dangos ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng dawns jazz a cherddoriaeth [MC DM HR CE]	<b>T1</b> dangos y berthynas rhwng dawns jazz a cherddoriaeth yn eglur	<b>Rh1</b> dangos y berthynas rhwng dawns jazz a cherddoriaeth yn fynegiadol ac yn ddychmygus
<b>LI2</b> dangos nodweddion allweddol arddull dawns jazz mewn perfformiad [MC HR]	<b>T2</b> dangos nodweddion allweddol arddull dawns jazz yn gymwys mewn perfformiad	<b>Rh2</b> dangos nodweddion arddull dawns jazz i safon dechnegol uchel mewn perfformiad
<b>LI3</b> cofio ac atgynhyrchu cyfuniadau dawns a ddysgwyd gan ddefnyddio technegau jazz mewn perfformiad. [DM HR CE]	<b>T3</b> cofio a dangos amrywiaeth o gyfuniadau dawns jazz, gan ddefnyddio deinameg, taflunio a ffocws mewn perfformiad.	<b>Rh2</b> cofio cyfuniadau dawns jazz yn gywir a'u dangos i safon dechnegol uchel, gan ddefnyddio deinameg, taflunio a ffocws mewn perfformiad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned C13: Perfformio Dawns

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4829</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymarfer a pherfformio dawnsiau wedi'u coreograffu. Rhaid i'r dysgwyr gymryd dosbarthiadau cyson, dysgu arddulliau dawns gwahanol, cymryd coreograffeg a wnaed gan eraill i mewn, ac ymarfer a chymryd rhan mewn perfformiadau.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'n rhaid i bob dawnsiwr gymryd rhan yn effeithiol mewn dosbarthiadau cyson i sicrhau eu bod yn gwella ac yn mireinio eu sgiliau corfforol, gan ddod yn fwy hyblyg, yn gryfach ac yn fwy ymwybodol yn gorfforol. Fel hyn y mae cydbwysedd ac osgo dawnsiwr yn gwella, a'u rhythm a'u hamseru hefyd. Hefyd mae'n rhaid i ddawnsiwr ddehongli sut mae dawnsiwr eraill yn symud a rhaid iddynt ddysgu coreograffeg a grëwyd gan artistiaid a choreograffwyr eraill. Mae gallu'r dawnsiwr i ddod â syniadau coreograffydd yn fyw yn un o'r doniau allweddol y mae'n rhaid i unrhyw ddawnsiwr sy'n gweithio'n broffesiynol ymarfer a pherffeithio.

Bydd arddulliau dawns gwahanol yn nodwedd o'r uned hon; bydd y dysgwyr yn archwilio amrywiaeth o arddulliau fel eu bod yn dod yn gyfarwydd ag o leiaf ddwy ohonyn nhw, ac yn gallu eu perfformio. Yn y byd dawns proffesiynol, mae'r rhan fwyaf o artistiaid yn gallu perfformio sawl arddull wahanol: dyma'r ffordd orau o sicrhau llwyddiant yn y byd gwaith. Efallai y bydd canolfannau'n dymuno gwahodd dawnsiwr a choreograffwyr proffesiynol i weithio gyda'u dysgwyr, fel y gallen nhw gael profiadau i archwilio arddulliau ac ymagweddu eang eu cwrpas. Mae pob arddull ddawns yn addas i'r uned hon ac efallai y bydd canolfannau sydd eisiau cynnig rhaglen eang yn dymuno ymgysylltu â dawns a dawnsiwr o genhedloedd a grwpiau ethnig eraill. Gellid cynnwys ffurfiau nad ydyn nhw'n rhai gorllewinol, fel rhai de Asia, Affrica a'r Dwyrain Canol, ynghyd ag arddulliau gwerin fel dawnsio Gwyddelig a dawns y gloesen. Mae ffurfiau dawns cyfoes, fel Graham, Limone, Cunningham a release, bale clasurol, tap, dawns jazz (gan gynnwys stryd), bale jazz, ffync a threfol i gyd yn ffurfiau addas i'w hastudio.

Drwy gydol yr uned, bydd y dysgwyr yn adolygu ac yn gwerthuso eu gwaith eu hunain, a gwaith eraill wrth ymarfer a pherfformio. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut mae dawnsiwr yn gwella fel perfformiwr, sut maen nhw'n rhoi ac yn derbyn beirniadaeth ac yn dysgu oddi wrthi. Yn olaf, bydd y dysgwyr yn ymarfer yn drylwyr gan werthfawrogi diben hyn, fel y gall y perfformiadau terfynol fod yn llwyddiannus.

**Dylai'r dysgwyr brofi o leiaf ddwy arddull ddawns a dylen nhw gael o leiaf dri chyfle i berfformio.**

## **Canlyniadau dysgu**

**Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn gweithdai dawns ymarferol
- 2 Gallu defnyddio sgiliau dawns corfforol a deongliadol
- 3 Gallu dangos arddulliau a rhinweddau dawns mewn perfformiad
- 4 Deall sut gall wella ei berfformiad ei hun mewn ymarfer.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn gweithdai dawns ymarferol

*Defnyddio:* gwisg addas; canolbwyntio; ymateb i gyfarwyddyd

*Strwythur:* cynhesu; syniadau gwaith, coreograffi; mireinio deunydd yn ddarnau perfformio; ymarfer

*Ystod o arddulliau:* ee jazz, cyfoes, bale, tap, de Asia, Affrica, gwerin, dawns stryd, roc a rôl

*Ffynhonnell:* gwaith coreograffi gan y tiwtor; gwaith coreograffi gan gymheiriaid; cwmni sy'n ymweld; artist sy'n ymweld; gwaith wedi'i addasu o repertoire proffesiynol

### 2 Gallu defnyddio sgiliau dawns corfforol a dehongliadol

*Sgiliau corfforol:* osgo; llinelliad; cydlynu; cydbwysu; gallu i atgynhyrchu gweithred/deinameg/rhythm/cynnwys gofodol; cof symud; ymwybyddiaeth o ddawnsyr eraill mewn perfformiad a pherthynas â nhw; ymwybyddiaeth ofodol

*Sgiliau deongliadol:* cerddgarwch; ffocws; pwyslais; mynegiant yr wyneb

### 3 Gallu dangos arddulliau a rhinweddau dawns mewn perfformiad

*Nodweddion corfforol sy'n briodol i'r arddull benodol:* osgo; defnydd o'r corff i gyd; ystod ddeinamig; ansawdd y symud; arddull y symud; mynegiant yr wyneb; ffocws; ymwybod â chyfeiliant sain a'i werthfawrogi

### 4 Deall sut gall wella ei berfformiad ei hun mewn ymarfer

*Gwerthusiad:* hunanasesu; arsylwi gan gymheiriaid; adborth tiwtor

*Gwella:* derbyn beirniadaeth adeiladol; nodi targedau; ymarfer; ailadrodd; gwerthuso o'r newydd a gwella

**Dylai'r dysgwyr brofi o leiaf ddwy arddull ddawns a dylen nhw gael o leiaf dri chyfle i berfformio.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf ar gyfer gradd pasio'n disgrifio'r lefel cyrhaeddiad sydd ei hangen i basio'r uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> mynychu'r dosbarthiadau a'r ymarferion, gan gydweithio [CE]	<b>T1</b> dangos ymagweddu disgybledig tuag at y dosbarthiadau a'r ymarferion	<b>Rh1</b> dangos ymrwymiad ar lefel uchel i'r dosbarthiadau a'r ymarferion
<b>LI2</b> dangos sgiliau dawns corfforol a deongliadol yn cael eu cymhwyso [HR, MC]	<b>T2</b> dangos sgiliau dawnsio corfforol a deongliadol priodol yn cael eu cymhwyso'n gywir	<b>Rh2</b> dangos sgiliau dawnsio corfforol a deongliadol yn cael eu cymhwyso'n drylwyr
<b>LI3</b> dangos ymwybyddiaeth o nodweddion arddull mewn perfformiad dawns [MC]	<b>T3</b> dangos nodweddion arddull yn cael eu defnyddio'n hyderus mewn perfformiad dawns	<b>Rh3</b> dangos nodweddion arddull yn cael eu defnyddio'n ardderchog mewn perfformiad dawns
<b>LI4</b> adolygu prif gryfderau a gwendidau eich perfformiad eich hun [DM]	<b>T4</b> adolygu cryfderau a gwendidau eich perfformiad eich hun gyda pheth rhesymu	<b>Rh4</b> adolygu cryfderau a gwendidau eich perfformiad eich hun yn fanwl gan ddod i ganlyniadau ystyriol
<b>LI5</b> dangos gwelliannau yn y perfformiad o ganlyniad i ymarferion. [HR]	<b>T5</b> dangos gwelliannau yn y perfformiad o ganlyniad i ymrwymiad i ymarferion.	<b>Rh5</b> dangos gwelliannau arwyddocaol yn y perfformiad o ganlyniad i ymrwymiad i ymarferion.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned C14: Datblygiad Dawns

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/4831</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr o gyd-destun cymdeithasol a hanesyddol dawns a'r broses goreograffi. Yn ogystal, bydd cyfle i'r dysgwyr archwilio'u sgiliau coreograffi eu hunain a chreu dawns ar gyfer perfformiad.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r ystod o arddulliau dawns rydyn ni'n eu profi a'u mwynhau heddiw'n ganlyniad i daith amrywiol a chyffrous o ddatblygu sydd wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd.

Mae angen i unrhyw un sy'n dymuno bod yn ddawnsiwr wybod o ble mae dawns wedi dod, beth sydd wedi dylanwadu ar ei datblygiad a sut mae wedi esblygu'n llawer o ffurfiau ar ddawns rydyn ni'n eu mwynhau heddiw. Bydd yr uned hon yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr ddarganfod sut mae'r lluo o arddulliau dawns cyfoethog ac amrywiol sydd ar gael i ni wedi datblygu dros gyfnod o amser.

Mae'r rhai sy'n dymuno bod yn ddawnsiwr yn aml yn dymuno bod yn goreograffwyr hefyd a bydd yr uned hon yn annog y dysgwyr i archwilio a datblygu eu sgiliau coreograffi tra byddan nhw'n dysgu am amrywiaeth o arddulliau dawns yn eu cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol.

Drwy edrych ar sut mae dawns wedi datblygu drwy waith coreograffwyr a dawnsiwr proffesiynol, caiff y dysgwyr eu hannog i arbrofi a datblygu eu sgiliau ymarferol eu hunain i greu dawns ar gyfer eu hunain a'u cymheiriaid. Bydd cyfle i'r dysgwyr ymchwilio i arddulliau dawns penodol a chyflwyno eu canfyddiadau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Cânt eu hannog i arbrofi a helaethu eu geirfa symud bersonol tra byddan nhw'n ymateb i wahanol ddeunydd ysgogi mewn fframwaith cefnogol. Yn ogystal caiff y dysgwyr eu hannog i fyfyririo ar eu datblygiad fel coreograffwyr ac adolygu eu cynnydd yn gyson.

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu o leiaf ddau ddarn o ddawns, a phob un yn para dwy i dair munud.**

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am gyd-destunau cymdeithasol a hanesyddol yng nghyd-destun dawns ac arddulliau dawns
- 2 Gallu ymateb i'r broses goreograffi
- 3 Gallu adolygu'r broses goreograffi.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am gyd-destunau cymdeithasol a hanesyddol yng nghyd-destun dawns ac arddulliau dawns

*Dylanwadau cymdeithasol a hanesyddol:* ee gwleidyddol, diwylliant poblogaidd, cynulleidfa, defod, lleoliad

*Arddulliau dawns:* ee bale, jazz, tap, cyfoes, trefol, neuadd, Affrica, gwerin

### 2 Gallu ymateb i'r broses goreograffi

*Nodweddion cyfansoddol:* gosodiad clywedol; lle; gweithred; deinameg; amseru; lleoliad ffisegol; maint y grŵp; perthnasoedd; dyluniad

*Creu:* ysgogiadau; creu'n fyrfyfyr; dethol a gwrthod deunydd; unsain; canon; datblygu motifau

### 3 Gallu adolygu'r broses goreograffi

*Proses:* dehongli ysgogiadau, dethol deunydd symud, defnyddio lle perfformio, perthnasoedd gweithio, rheoli amser, ymarfer, cryfderau a gwendidau

**Dylai'r dysgwyr gynhyrchu o leiaf ddau ddarn o ddawns, a phob un yn para dwy i dair munud.**

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi'r ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad dawns ac arddulliau dawns [YA]	<b>T1</b> disgrifio'r ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad dawns ac arddulliau dawns	<b>Rh1</b> esbonio'n fanwl y ffactorau cymdeithasol a hanesyddol sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiad dawns ac arddulliau dawns
<b>LI2</b> nodi amrywiaeth o arddulliau dawns a'u nodweddion penodol [YA]	<b>T2</b> disgrifio amrywiaeth o arddulliau dawns a'u nodweddion penodol	<b>Rh2</b> esbonio'n fanwl amrywiaeth o arddulliau dawns a'u nodweddion penodol
<b>LI3</b> creu deunydd dawns sy'n dangos elfennau allweddol y broses goreograffi [MC]	<b>T3</b> creu deunydd dawns sy'n dangos elfennau allweddol y broses goreograffi'n eglur ac yn greadigol	<b>Rh3</b> creu deunydd dawns sy'n dangos elfennau allweddol y broses goreograffi gyda hyder a chreadigrwydd
<b>LI4</b> cyflwyno, gydag arweiniad, adolygiad o'r broses goreograffi. [DM]	<b>T4</b> cyflwyno, gydag arweiniad, adolygiad cadarn o'r broses goreograffi.	<b>Rh4</b> cyflwyno, gydag ychydig iawn o arweiniad, adolygiad trylwyr o'r broses goreograffi.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned D15: Creu Gwisgoedd

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/4833</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y sgiliau sydd eu hangen i greu gwisg y bydd modd ei gwisgo mewn perfformiad. Bydd y dysgwyr yn gwneud hyn drwy ddatblygu sgiliau a drwy greu gwisg ar gyfer perfformiad byw.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dysgu sut mae defnyddio gwahanol fathau o ffabrigau a defnyddiau eraill, sut mae dewis y ffabrig neu'r defnydd mwyaf priodol i wisg, sut mae dehongli braslun dylunio gwisg, sut mae gwneud gwisg ar gyfer perfformiad neu arddangosfa a sut mae defnyddio arferion gweithio diogel drwy gydol y broses. Bydd y gwaith a wneir yn cyflwyno'r dysgwyr i'r ffyrdd y mae gwneuthurwyr gwisgoedd yn cydweithredu â dylunwyr a pherfformwyr yn y byd proffesiynol i gynhyrchu gwisgoedd ymarferol.

Bydd gweld gwisgoedd ar lwyfan ac mewn perfformiad yn ddefnyddiol i'r dysgwyr er mwyn darganfod pa wisgoedd sy'n gweithio orau, a sut maen nhw'n ychwanegu at gwmpas gwaith yr artist sy'n perfformio. Byddan nhw hefyd yn dysgu bod gwisgoedd yn rhan hanfodol o broses y celfyddydau perfformio, sy'n aml yn effeithio ar y ffordd y gall artist gynhyrchu ei berfformiad yn gorfforol. Pa mor syml bynnag y maen nhw'n ymddangos, bydd gwisgoedd wedi bod yn destun ystyriaeth a chynllunio o ran sut maen nhw'n edrych a'u defnydd mewn perfformiad, gan eu bod yn ddull hanfodol o greu ystyr i gynulleidfa.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am amrywiaeth o rinweddau ffabrigau a'r defnydd sy'n cael eu gwneud ohonyn nhw
- 2 Gallu defnyddio sgiliau creu gwisgoedd
- 3 Gallu cynhyrchu gwisg ar gyfer perfformiad neu arddangosfa.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am amrywiaeth o rinweddau ffabrigau a'r defnydd sy'n cael eu gwneud ohonyn nhw

*Mathau o ffabrigau:* ee lliain, sidan, cotwm, gwllân, yr amrywiaeth eang o ffabrigau synthetig, melfed, brocêd, ffabrigau â gorffeniadau addurniadol, defnydd rhwylllog, mwslin

*Defnyddio ffabrigau:* cost; lled y ffabrig; golchadwyaeth; addasrwydd i'r dyluniad; addasrwydd i'r dulliau creu; gwydnwch y ffabrig

### 2 Gallu defnyddio sgiliau creu gwisgoedd

*Cynllunio:* dehongli braslun dylunio gwisgoedd; torri'r patrwm; dethol; defnyddio patrwm syml; taflenni mesuriadau; mesur yr actor; defnyddio tâp mesur

*Technegau creu gwisgoedd:* defnyddio'r patrwm; torri'r defnydd; mesur; peiriant gwnïo, overlocker, gwnïo â llaw; defnyddio'r haearn; gludio; mathau o edau; atgyfnerthu; ffasninau; ffitio'r wisg

*Proses ymchwil i newid ffabrigau:* ee lliwio, argraffu, peintio, gorffeniadau addurniadol

*Rhoi gorffeniadau addurniadol:* ee defnyddio dryll glud, paent, chwistrellu, heneiddio, brodwaith, appliqué

### 3 Gallu cynhyrchu wisg ar gyfer perfformiad neu arddangosfa

*Cynllunio:* dethol defnydd; mesur y perfformiwr; dehongli brasluniau dylunio; asesu gofynion y wisg; math y perfformiad; hyd y rhediad; cyfrifo faint o bethau sydd ei angen; cynllunio'r amserlen; amcangyfrif costau; mynychu cyfarfodydd cynhyrchu

*Dethol dulliau creu:* ee torri, gwnïo, dryll glud, mynychu sesiynau ffitio, dulliau uno, ffasninau, gorffeniadau addurniadol, torri i lawr, heneiddio, peintio'r wisg a grëwyd, rhoi gorffeniad ar y wisg

*Iechyd a diogelwch i'r sawl sy'n creu'r wisg:* ee defnyddio'r canlynol yn ddiogel: peiriant gwnïo, pinnau, sisyrnau, drylliau glud, heyrn smwddio, lliwiau, gorffeniadau; trefnu, defnyddio gofod y gweithdy, storio ffabrigau a gwisgoedd

*Iechyd a diogelwch i'r perfformiwr sy'n gwisgo'r wisg:* adweithiau alergaidd; ymosodiadau asthma; pa mor gyfforddus mae'r wisg yn ffitio; pa mor hawdd yw hi i symud yn y wisg

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi ffabrigau a ddefnyddir yn gyffredin wrth greu gwisgoedd [YA]	<b>T1</b> disgrifio ffabrigau a ddefnyddir yn gyffredin wrth greu gwisgoedd a pha mor addas ydyn nhw i'w defnyddio yn y diwydiant celfyddydau perfformio	<b>Rh1</b> cymharu ffabrigau a ddefnyddir yn gyffredin wrth greu gwisgoedd, gan werthuso pa mor addas ydyn nhw i'w defnyddio yn y diwydiant celfyddydau perfformio
<b>LI2</b> dangos sgiliau creu gwisg sylfaenol drwy ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau addas wrth greu gwisg neu ddarn o wisg	<b>T2</b> dangos sgiliau creu gwisg sylfaenol yn gymwys drwy ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau addas wrth greu gwisg neu ddarn o wisg	<b>Rh2</b> dangos sgiliau creu gwisg sylfaenol drwy ddefnyddio offer, cyfarpar a thechnegau addas wrth greu gwisg neu ddarn o wisg gyda rhwyddineb ac annibyniaeth
<b>LI3</b> cynllunio a pharatoi ar gyfer gwisg [GT, HR]	<b>T3</b> cynllunio a pharatoi'n fanwl ar gyfer gwisg	<b>Rh3</b> cynllunio a pharatoi'n fanwl a thrylwyr ar gyfer gwisg
<b>LI4</b> cynhyrchu gwisg y bydd modd ei gwisgo mewn perfformiad. [GT, HR]	<b>T4</b> cynhyrchu gwisg wedi'i gwneud yn dda y bydd modd ei gwisgo mewn perfformiad.	<b>Rh4</b> cynhyrchu gwisg wedi'i gwneud yn dda ar gyfer perfformiad sy'n cynnwys technegau creu gwisgoedd o safon uchel.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned D16: Criwio ar gyfer Perfformiadau Llwyfan

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/4842</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y sgiliau a'r arferion sydd eu hangen i weithio'n effeithiol fel aelod o griw llwyfan.

## Cyflwyniad i'r uned

Aelodau o griw llwyfan yw'r bobl anweledig nad ydyn nhw'n aml yn cael eu gwerthfawrogi sy'n cefnogi cynhyrchiad theatr llwyddiannus. Efallai nad yw'r gynulleidfa'n ymwybodol o'u cyfraniad nhw, ond hebddyn nhw, ni allai cynhyrchiad ddigwydd. Mae aelodau criw llwyfan yn aml yn cael eu cyflogi fel gweithwyr 'ysbeidiol' (hy yn cael eu cyflogi am gyfnod cyfyngedig ar gyfer tasgau penodol sy'n gysylltiedig â chynhyrchiad) ac felly mae angen iddyn nhw fod wedi meistrolï'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer amrediad o dasgau. Yn ogystal mae angen iddyn nhw fod yn hyblyg ac ymateb i anghenion sefyllfa arbennig. Mae'r sgiliau hyn yn debyg ar draws ystod o genres cynhyrchu, felly bydd y dysgwyr yn gallu cefnogi amrywiaeth eang o gynyrchiadau. Yn bwysicach, mae'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer gwaith go iawn yn y diwydiant.

Fel arfer aelodau'r criw llwyfan sy'n symud y setiau a'r cyfarpar ar gyfer cynhyrchiad i'r lleoliad (*get-in*), gosod y cyfarpar (*fit-up*), a thynnu'r cyfarpar yn rhydd (*strike*) yn ogystal â symud y setiau a'r cyfarpar allan o'r lleoliad ar ddiwedd rhediad (*get-out*). Yn ystod rhediad sioe efallai y byddan nhw'n gweithio ar osodiad. Weithiau mae aelodau'r criw'n gweithio fel gweithredwyr sbot dilyn neu weithredwyr byrddau sain/goleuo yn ystod perfformiad.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr gael y sgiliau sylfaenol sydd eu hangen i gyflawni'r tasgau uchod. Byddan nhw'n dysgu am dechnegau sylfaenol trin elfennau'r set a swyddogaeth yr offer llaw a phŵer sy'n gysylltiedig â'r elfennau hyn a sut maen nhw'n gweithio. Yn ogystal byddan nhw'n dysgu'r technegau ar gyfer rhoi elfennau set at ei gilydd yn sicr ac yn ddiogel. Bydd dysgu sgiliau gweithredu sbot dilyn ar gyfer perfformiad yn rhan o'r cwrs hefyd.

Bydd y dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddeall rôl hanfodol rheoliadau iechyd a diogelwch a phwysigrwydd anhraethol gweithio'n ddiogel fel aelod o'r criw, er lles eu diogelwch eu hunain a diogelwch aelodau eraill o'r cynhyrchiad a'r gynulleidfa.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am y rolau, y cyfrifoldebau a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â gweithrediadau llwyfan cyffredinol
- 2 Gallu gweithredu fel aelod o'r criw sy'n paratoi ar gyfer perfformiad ac yn ystod perfformiad
- 3 Gallu rhoi arferion gweithio diogel ar waith pan fyddan nhw'n rhoi prosesau ar waith a defnyddio offer a chyfarpar.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 **Gwybod am y rolau, y cyfrifoldebau a'r derminoleg sy'n gysylltiedig â gweithrediadau llwyfan cyffredinol**

*Rolau:* ee criw llwyfan, tîm rheoli llwyfan, criw rigio, gweithredwr sbot dilyn

*Cyfrifoldebau:* ee dilyn ciwiau, rheoli ei hun ac eraill, trin fflatiau a setiau, rheoli propiau, cadw at ofynion iechyd a diogelwch

*Terminoleg:* dechnegol ee ciwiau, copi cofweini, streic, theatraidd ee esgyll, tryciau, troi, pydew, tabiau; confensiynau ee sefyllfaoedd gwrthol, propiau dirprwyol, rheoli arfau

### 2 **Gallu gweithredu fel aelod o'r criw sy'n paratoi ar gyfer perfformiad ac yn ystod perfformiad**

*Prosesau:* cynlluniau/lluniadau; symud setiau i mewn/allan; gosod a thynnu cyfarpar; ymarferion technegol; plotio; rhagosod

*Golygfeydd llwyfan:* gosod; trin fflatiau; rostra ac elfennau golygfaol eraill

*Ciwio:* taflenni ciwio; ateb yn ôl; ciwiau geiriol; ciwiau gweledol

### 3 **Gallu rhoi arferion gweithio diogel ar waith pan fyddan nhw'n rhoi prosesau ar waith a defnyddio offer a chyfarpar**

*Trefnau diogel ar gyfer:* trin, codi; cyfathrebu a chydlynu ag eraill; adnabod, asesu a lleihau peryglon

*Offer a chyfarpar:* mynediad i gyfarpar; offer llaw; offer pŵer; cyfarpar llwyfan mecanyddol; sbot dilyn

*Dogfennaeth:* asesiadau risg; cadw cofnodion

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi o leiaf chwe rôl gefn llwyfan/ gynhyrchu a'u cyfrifoldebau gan ddefnyddio terminoleg briodol [YA]	<b>T1</b> disgrifio o leiaf chwe rôl gefn llwyfan/ gynhyrchu a'u cyfrifoldebau gan ddefnyddio terminoleg briodol	<b>Rh1</b> esbonio o leiaf chwe rôl gefn llwyfan/ gynhyrchu a'u cyfrifoldebau gan ddefnyddio terminoleg briodol
<b>LI2</b> cynhyrchu lluniad graddedig sy'n ddigon cywir i gael ei ddefnyddio [YA]	<b>T2</b> cynhyrchu lluniad graddedig manwl sy'n ddigon cywir i gael ei ddefnyddio lle ceir elfennau eilaidd sy'n gywir i'r un safon	<b>Rh2</b> cynhyrchu lluniad graddedig cymhleth gyda chywirdeb sy'n addas i'r dasg lle ceir elfennau ac anodiadau eilaidd sy'n gywir ac wedi'u cyflwyno'n broffesiynol
<b>LI3</b> symud setiau i mewn/allan, gosod a thynnu cyfarpar o dan gyfarwyddyd [GT]	<b>T3</b> symud setiau i mewn/allan, gosod a thynnu cyfarpar, gan gymryd peth cyfrifoldeb am y prosesau a weithredir	<b>Rh3</b> symud setiau i mewn/allan, gosod a thynnu cyfarpar, gan gymryd cyfrifoldeb a rhoi prosesau ar waith
<b>LI4</b> gosod golygfeydd/ setiau/propiau sylfaenol yn ôl cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno o dan gyfarwyddyd [GT]	<b>T4</b> gosod golygfeydd/ setiau/propiau yn ôl cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno gyda pheth cyfarwyddyd	<b>Rh4</b> gosod golygfeydd/ setiau/propiau cymhleth yn ôl cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno heb gyfarwyddyd

**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>L15</b> dilyn ciwiau ac ymateb yn foddhaol [HR, GT] gyfarwyddyd [GT]	<b>T5</b> dilyn ciwiau gan ddefnyddio terminoleg y diwydiant, gan ymateb yn gywir	<b>Rh5</b> dilyn ciwiau cymhleth gan ddefnyddio terminoleg y diwydiant, gan ymateb yn gywir ac yn broffesiynol
<b>L16</b> dangos arferion gweithio diogel yn y gwaith rhag-gynhyrchu a chynhyrchu, gan ddangos ymwybod â rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol. [DM]	<b>T6</b> dangos arferion gweithio diogel yn y gwaith rhag-gynhyrchu a chynhyrchu, gan ddangos ymwybod eglur â rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol.	<b>Rh6</b> dangos arferion gweithio diogel yn y gwaith rhag-gynhyrchu a chynhyrchu, gan ddangos ymwybod cyson a chraff â rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned D17: Dylunio ar gyfer Perfformiadau

<b>Cod yr uned:</b>	<b>D/502/4843</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am sgiliau dylunio a chynhyrchu gwisgoed, propiau a setiau. Bydd y dysgwyr yn datblygu sgiliau cynhyrchu dyluniadau a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad i gynhyrchiad ar ddylunio set, gwisgoed, propiau, goleuo neu sain.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae dylunio'n rhan greiddiol a sylfaenol o bob cynhyrchiad, ble bynnag mae'r lleoliad neu beth bynnag yw'r gyllideb. Mae'r dylunydd yn dethol elfennau sy'n helpu'r gynulleidfa i ddeall bwriad y perfformiad.

Mae'r uned hon yn datblygu'r sgiliau dylunio sydd eu hangen i gefnogi anghenion cynhyrchiad. Bydd yr uned yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddyblygu prif nodweddion y prosesau dylunio. At ddibenion yr uned hon, mae'r term 'dylunio' yn cwmpasu pob un o'r cyfraniadau creadigol i gynhyrchiad. Mae'r meysydd dylunio y mae'r uned hon yn eu cwmpasu'n cynnwys set, gwisgoed, goleuo, sain a phropiau. Gall y dysgwyr arbenigo mewn un maes dylunio neu ateb y meini prawf drwy weithio ar draws mwy nag un maes dylunio. Bydd pob un o'r meysydd hyn yn cynnwys sgiliau gwahanol a phenodol ond byddan nhw'n ymwneud â'r un prosesau a sgiliau hanfodol y mae'n rhaid i ddylunwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y diwydiant eu cael.

Bydd y dysgwyr yn dysgu am amgylcheddau perfformio ac yn cael eu cyflwyno i sgiliau cynhyrchu dyluniadau, ac yna'n datblygu sgiliau penodol ac yn eu cymhwyso i berfformiad. Wedyn bydd y dysgwyr yn dangos eu dealltwriaeth drwy fyfyrion ar eu profiad, eu sgiliau a'u dealltwriaeth. Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwyr allu cyflawni rôl cynhyrchu dyluniadau gyda chyfrifoldebau megis ymchwilio, cynllunio, dylunio, cyllidebu, dod o hyd i adnoddau, gwireddu'r dyluniadau a rheoli'r timau cynhyrchu. Yn ogystal, mae'r uned yn hon yn datblygu nifer o sgiliau rhyngbersonol a gwaith tîm.

Mae'r uned hon yn cysylltu ag amryw o unedau eraill, i ddysgwyr sy'n dilyn llwybrau perfformio a thechnegol fel ei gilydd ac mae hi'n cysylltu'n uniongyrchol â'r unedau *Proses Gynhyrchu'r Celfyddydau Perfformio*, *Dyfeisio Dramâu*, *Sgiliau a Thechnegau Actio*, *Creu Gwisgoedd*, *Gweithrediadau Goleuo ar gyfer Perfformiad Llwyfan*, *Gweithrediadau Sain ar gyfer Perfformiad Llwyfan*, *Creu Set a Gwneud Masgiau*. Gellir dysgu'r uned hon ar draws llwybrau actio, dawns a thechnegol yn gydweithredol a gall fod yn gyfrwng addas ar gyfer addysgu ar draws y cwrs. Gellir defnyddio creu'r elfennau dylunio o'r uned hon yn ysgogiad i waith perfformio arall a bydd dysgwyr technegol yn gweld bod y sgiliau creu a ddatblygir yn yr uned hon yn cyd-fynd â sgiliau a ddatblygir mewn unedau eraill sy'n seiliedig ar greu.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am nodweddion amgylcheddau perfformio
- 2 Gallu rhoi sgiliau cynhyrchu dyluniadau ar waith
- 3 Gallu gwireddu syniadau dylunio
- 4 Gallu deall ei gwaith cynhyrchu dyluniadau ei hun.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am nodweddion amgylcheddau perfformio

*Gofod perfformio*: ee bwa prosceniwm, theatr gylch, promenâd, ymwthiol, theatr draws, prosceniwm di-fwa (end-on); terminoleg theatr ee tabiau, esgyll, llwyfan ogwydd, safle wrthdro

*Mathau o berfformiad*: ee sioeau dawn, darnau theatr gorfforol, sioeau adloniant, dramâu, sioeau cerdd, gigiau comedi, digwyddiadau cerddoriaeth, sioeau talent, sioeau ffasiwn

*Dylunio ar gyfer perfformiad*: dylunio set; dylunio propiau; dylunio gwisgoedd; dylunio goleuo; dylunio sain

### 2 Gallu rhoi sgiliau cynhyrchu dyluniadau ar waith

*Dehongli*: ee cyfarwyddiadau llwyfan, cynlluniau llwyfan, caneuon, sgoriau cerddoriaeth, coreograffi, cyd-destun cymdeithasol a hanesyddol, cymeriadau, dogfennau briffio, arddull, nodweddion arwyddocaol, gofynion sy'n gwrthdaro

*Egwyddorion dylunio*: deall potensial y gofod perfformio; dylunio'r defnydd ar y gofod ee defnyddio mynedfeydd ac allanfeydd, defnyddio lefelau, defnyddio grisiau; cyllidebu

*Sgiliau dylunio setiau*: dylunio, creu a pheintio cefndiroedd a/neu fflatiau; Dylunio a pheintio lliainiau llawr; y sgiliau creu i ddylunio, gwneud a pheintio darnau o set annibynnol; brasluniau dylunio; lluniadau creu, cynllun llawr

*Sgiliau dylunio gwisgoedd*: dod o hyd i wisgoedd sy'n bod a'u haddasu; gwneud gwisgoedd sylfaenol gan ddefnyddio patrymau gwisgoedd; addurno gwisgoedd; rhoi ôl traul ar wisgoedd; pa mor addas yw gwisgoedd i'w gwisgo; dyluniadau gwisgoedd

*Sgiliau dylunio propiau*: gwneud propiau llaw; dod o hyd i eitemau a'u haddasu; peintio a heneiddio propiau; pa mor addas yw propiau i'w defnyddio; cynlluniau a brasluniau dylunio

*Dylunio goleuo*: mathau o lusernau a'u dethol; defnyddio lliw; egwyddorion dylunio goleuo syml; rigio, plotio a ffocysu; cynlluniau goleuo

*Dylunio sain*: cyfarpar chwarae sain yn ôl; cyfarpar recordio sain; recordio effeithiau sain a thraciau sain gwirio'r sain; taflenni ciwio sain

### 3 Gallu gwireddu syniadau dylunio

*Briffiau dylunio:* dadansoddi'r gofynion; dylunio; cynllunio

*Creu a defnyddio arteffactau dylunio:* cynlluniau llawr; modelau graddedig syml; dyluniadau cynllunio drwy gymorth cyfrifiadur (CAD); brasluniau; brasluniau technegol; diagramau; lluniadau gweithio; cynlluniau rigio

*Defnyddio defnyddiau:* ee defnyddiau gwneud modelau, defnyddiau adeiladu a pheintio setiau, defnyddiau adeiladu propiau, defnyddiau gwneud gwisgoedd, yr holl gyfarpar goleuo, yr holl gyfarpar sain

*Defnyddio sgiliau:* sgiliau gwneud modelau, sgiliau adeiladu a pheintio propiau, sgiliau gwneud ac addurno gwisgoedd; sgiliau rigio, ffocysu, plotio a gweithredu goleuo; sgiliau rigio sain

*Datrys problemau:* nodi problemau; cysoni gofynion sy'n gwrthdaro; cynnig atebion

*Sgiliau trefnu:* cadw nodiadau; cadw at derfynau amser; sylweddoli bod angen ymgynghori

*Iechyd a diogelwch:* gwybodaeth am y ddeddfwriaeth gyfredol berthnasol fel y mae'n effeithio ar ofodau perfformio, cynulleidfaoedd; creu a defnyddiau

### 4 Gallu deall ei gwaith cynhyrchu dyluniadau ei hun

*Adolygu'r gallu i ddefnyddio deunyddiau cyfathrebu dylunio:* ee brasluniau 2D, diagramau, cynlluniau graddedig syml, cynlluniau creu, model 3D o set

*Adolygu datblygu sgiliau cynhyrchu dyluniadau:* ee cynllunio, gwneud, peintio, gosod, gwaith cynhyrchu terfynol

*Adolygu'r defnydd o ddogfennaeth gynhyrchu:* ee cynlluniau cyllidebu syml, cynlluniau creu, brasluniau, diagramau

*Adolygu sgiliau cyfathrebu'r broses gynhyrchu:* cyfraniad i gyfarfodydd cynhyrchu; cyfathrebu rhithwir; cyfathrebu geiriol; cyfathrebu ysgrifenedig; eglurder mynegiant; gwrando; trafod; dibynadwyedd; prydlondeb

*Adolygu addasrwydd y dyluniad terfynol:* addasrwydd i'r perfformiad; addasrwydd i'r gofod perfformio; defnydd o ddefnyddiau priodol; prosesau a sgiliau; cost; sut mae gwella'r tro nesaf



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio nodweddion amgylcheddau perfformio [YA]	<b>T1</b> trafod nodweddion allweddol amgylcheddau perfformio	<b>Rh1</b> esbonio prif nodweddion amgylcheddau perfformio
<b>LI2</b> dangos sgiliau, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu dyluniadau [YA, CE]	<b>T2</b> dangos sgiliau, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu dyluniadau priodol	<b>Rh2</b> dangos cymhwysedd ar lefel uchel wrth ddefnyddio sgiliau, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu dyluniadau allweddol
<b>LI3</b> defnyddio sgiliau, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu i wireddu syniadau dylunio [MC, CE, HR, GT]	<b>T3</b> gwireddu'r bwriad dylunio allweddol drwy ddethol a defnyddio sgiliau, defnyddiau a phrosesau dylunio addas	<b>Rh3</b> gwireddu syniadau dylunio'n effeithiol drwy ddethol a defnyddio sgiliau, defnyddiau a phrosesau cynhyrchu priodol yn gymwys
<b>LI4</b> esbonio ei waith cynhyrchu dyluniadau ei hun. [DM]	<b>T4</b> esbonio ei waith cynhyrchu dyluniadau ei hun gan ddefnyddio peth terminoleg gywir a dangos peth ymwybod â rolau a chyfrifoldebau'r dylunydd.	<b>Rh4</b> esbonio ei waith cynhyrchu dyluniadau ei hun yn gynhwysfawr ac yn fanwl, gan ddefnyddio terminoleg gywir.diau

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned D18: Gweithrediadau goleuo ar gyfer Perfformiadau Llwyfan

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/4847</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am gyfarpar a gweithredu goleuo; byddan nhw'n caffael y sgiliau sydd eu hangen i roi'r gwasanaethau goleuo a all gyfoethogi perfformiadau.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn aml mae presenoldeb golau'n gallu gwella cynhyrchiad a chyfrannu i ystyr a dehongliad drama neu ddawns.

Er y gall dysgwyr sydd eisoes yn meddu ar sgiliau technegol fanteisio ar yr uned hon, mae hi wedi bwriadu i fod ar gael i ddysgwyr sy'n canolbwyntio ar feysydd arbenigol eraill megis dawns, cerddoriaeth neu ddrama. Mae'n galluogi i sgiliau gael eu datblygu o gysyniadau sylfaenol i'r sgiliau hynny sy'n angenrheidiol i oleuo perfformiad. Mae'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned hon yn drosglwyddadwy, a hyd yn oed os nad yw'r dysgwyr yn bwriadu dilyn gyrfa mewn maes technegol, mae cefndir cadarn yn yr hyn y gellir ei gyflawni, a sut mae ei gyflawni, yn sgîl defnyddiol iawn i unrhyw un sy'n astudio'r celfyddydau perfformio.

Mae'r uned hon yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i'r dysgwyr nodi, defnyddio a chynnal a chadw amrywiaeth o gyfarpar goleuo llwyfan sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin mewn lleoliadau sy'n amrywio o neuaddau bach i dai cynhyrchu pwysig maint llawn. Mae'n canolbwyntio ar gyfarpar y cyfeirir ato'n aml fel goleuo 'generig' Mae cyfarpar o'r fath fel arfer yn cynnwys goleuadau 'Fresnel', proffil, PAR a llifoleuadau. Yn ogystal, bydd y dysgwyr yn cael cyflwyniad i gyfarpar rheoli a phylu goleuadau ac ar ôl cwblhau'r uned dylen nhw allu gweithio fel aelodau effeithiol o dîm trydanol llwyfan.

Mae gweithio'n unigol, yn ogystal ag mewn grwpiau bach, yn nodweddiadol o'r uned. Bydd y dysgwyr yn gallu cynhyrchu a defnyddio lluniadau graddedig a dogfennaeth sylfaenol sy'n nodweddiadol o waith a wneir yn y diwydiant.

Efallai y bydd hi'n bosibl i beth o'r gwaith sy'n cael ei asesu gael ei wneud mewn mannau lleol neu leoliadau addas eraill. Bydd profiad gwaith amatur a phroffesiynol yn cyfoethogi cyfleoedd y dysgwyr i ddangos eu sgiliau goleuo ac integreiddio'n hawdd i strwythur yr uned.

Bydd y dysgwyr yn creu cynllun goleuo a dethol cyfarpar i'w ddefnyddio; o'r cynllun hwn byddan nhw'n gallu rigio'r cyfarpar yn ddiogel, ffocysu'r llusern a dewis y lliw sydd ei angen. Bydd y dysgwyr yn gweithredu'r ddesg oleuo, gan reoli'r goleuo i'r perfformiad llwyfan. Bydd y dysgwyr yn gwneud hyn drwy ymchwilio i'r cyfarpar sydd ar gael ac ymarferion ymarferol sy'n defnyddio cyfarpar goleuo llwyfan.

## Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut i ddefnyddio portffolio o ddeunydd cyfeirio
- 2 Gallu rigio offer yn ddiogel i gynllun goleuo
- 3 Gallu dangos sut caiff lliw ei ddefnyddio yng nghyd-destun perfformiad
- 4 Gallu ffocysu a rheoli llusernau

## Cynnwys yr uned

---

### 1 **Wybod sut i ddefnyddio portffolio o ddeunydd cyfeirio**

*Data wedi'u cyhoeddi:* ee manylebau, adolygiadau, delweddau, lluniadau, rhestri prisiau, ategolion

*Dadansoddi:* ee data ffotometrigrig, cymariaethau, nodweddion cost, dibynadwyedd, cymhlethdod

*Rheolyddion a philyddion:* mathau; nodweddion; rhagosodiadau; sianeli; prif reolyddion; protocolau rheoli; cyflenwad pŵer a chyfrifiadau

*Llusernau:* ee sbot proffil, sbot 'Fresnel', PAR, llifoleuadau

### 2 **Gallu rigio offer yn ddiogel i gynllun goleuo**

*Cynlluniau:* lluniad graddedig syml; symbolau; rhifo; confensiynau

*Mynediad i gyfarpar:* ysgolion; fframiau A; cyfarpar mynediad arbenigol

*Gosod:* rigio wrth farrau; genweiriau (booms); gosod cyplau; gosod ceblau; clampiau; gosodiadau

*Ffocws:* panio; gogwyddo; pelydru; ffocysu; brigio; tynhau a llacio

*Diogelwch:* ddeddfwriaeth; cyfarpar; systemau; dadansoddi risg

### 3 **Gallu dangos sut caiff lliw ei ddefnyddio yng nghyd-destun perfformiad**

*Damcaniaeth lliwiau:* cymysgu golau ychwanegol a thynnol; tonfedd a thrawsyrant

*Confensiynau:* naws; realaeth; effaith

*Defnydd:* mathau; gwneuthurwyr; torri; adnabod; gosod

### 4 **Gallu ffocysu a rheoli llusernau**

*Rheoli pelydrau:* caeadau; cloriau/sgriniau sbot; baneri Ffrengig; gobos; irisau; eraill (ee cylchdröwyr); effeithiau; donuts; hetiau silc; trylediad

*Pŵer:* cysylltyddion; ceblau; grelcos; systemau amlffordd; barrau wedi'u gwifro'n fewnol

*Cyfathrebu:* ymateb; ymateb; cywirdeb; cyflymder

### 5 **Gallu gweithredu rheolyddion goleuo**

*Switshis pylu:* ceblau rheoli; ceblau pŵer; clytio

*Swyddogaethau:* ee pylwyr, is-feistri, meistri, rhagosodiadau, cofwyr, grwpiau, paletau, ailchwarae, staciau, HTP, LTP, ICBF

*Technegau:* ee adeiladu, pylu, trawsbylu, llwyrddwch, symud pylu, bympiau, ciwiau, sgriptiau

*Confensiynau:* ee cynheswyr tab, gorffen drwy oleuo'n llawn, gwaedu drwy liain rhwylllog, golchiadau cyc, goleuadau gwaith

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi'r rhannau allweddol o ddata a gasglwyd wrth ymchwilio [YA]	<b>T1</b> disgrifio data perthnasol a gasglwyd gan gynnwys gwybodaeth dechnegol	<b>Rh1</b> disgrifio data perthnasol a gasglwyd yn fanwl ar ffurf addas i'w defnyddio
<b>LI2</b> rigio cyfarpar yn ôl cynllun yn ddiogel o dan arweiniad [GT]	<b>T2</b> rigio cyfarpar yn ôl cynllun goleuo graddedig'n ddiogel gydag ychydig o gyfarwyddyd	<b>Rh2</b> rigio cyfarpar yn ddiogel, yn gymwys ac yn gywir yn ôl cynllun goleuo graddedig heb gyfarwyddyd
<b>LI3</b> dethol a dewis rhai lliwiau priodol ar gyfer prosiectau set penodol	<b>T3</b> dethol a defnyddio lliwiau priodol a chonfensiynol ar gyfer prosiectau set penodol	<b>Rh3</b> dethol a defnyddio lliwiau llwyddiannus ac anghonfensiynol ar gyfer prosiectau set penodol
<b>LI4</b> ffocysu cyfarpar goleuo'n ddiogel gyda pheth cywirdeb [GT]	<b>T4</b> ffocysu cyfarpar goleuo'n ddiogel, gyda chryn gywirdeb	<b>Rh4</b> ffocysu cyfarpar goleuo'n ddiogel, gyda chywirdeb llwyr
<b>LI5</b> recordio a rhedeg ciwiau gan ddefnyddio swyddogaethau rheoli sylfaenol. [CE]	<b>T5</b> recordio, golygu a rhedeg ciwiau gan ddefnyddio swyddogaethau rheoli.	<b>Rh5</b> recordio, golygu a rhedeg ciwiau gan ddefnyddio uwch swyddogaethau rheoli.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--





# Uned D19: Coluro ar gyfer Perfformwyr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>T/502/4850</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu technegau coluro a ddefnyddir yn y diwydiant celfyddydau perfformio. Bydd y dysgwyr yn astudio sgiliau dylunio a gosod colur, ac yn dylunio a chreu colur.

## Cyflwyniad i'r uned

Cyflwyniad i golur ar gyfer perfformiad yw'r uned hon. Mae'r uned yn rhoi cyfle i'r dysgwyr archwilio, datblygu a defnyddio amrywiaeth o sgiliau coluro technegol a gall gynnig cysylltiadau â phrosiectau perfformio ymarferol. Yn ddelfrydol, bydd cyfle gan y dysgwyr i roi cynnig ar eu dyluniadau a'u technegau gosod colur mewn sefyllfa ymarferol fel perfformiad byw neu drwy baratoi actorion at rannau ffilm a theledu. Bydd hyn yn galluogi i'r broses o ddylunio, gosod a thynnu colur fod yn berthnasol i amgylchedd gweithio realistig lle gellir ystyried ffactorau fel amser, cost a goblygiadau iechyd a diogelwch.

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwyr fod yn gallu dangos sgiliau gosod colur sylfaenol mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan goluro eu hunain ac eraill ac ystyried pwysigrwydd paratoi gofalus, defnyddio technegau gosod a thynnu a thrin cyfarpar arbenigol yn ddiogel. Dylai'r dysgwyr fod yn gyfarwydd â rhai o'r mathau o golur arbenigol a sut gall technegau gosod ar gyfer colur llwyfan fod yn wahanol i dechnegau ar gyfer colur ffasiwn.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am yr ystod sylfaenol o golur a thechnegau llwyfan
- 2 Gallu paratoi dyluniadau ar gyfer colur llwyfan
- 3 Gallu dehongli dyluniadau colur a'u gosod ar eu hunain ac eraill
- 4 Gallu rhoi a thynnu colur gan roi sylw i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am yr ystod sylfaenol o golur a thechnegau llwyfan

*Mathau o golur:* ee aquacolour, hylif, crempogen, colur yn deillio o saim, colur yn deillio o hufen, pensiliau llinellu, powdrau

*Technegau:* ee defnyddio gludion, gosod gwallt crepe, defnyddio darnau prosthetig ac enamel dannedd, defnyddio gwaed theatraidd, creu creithiau, colur i berfformwyr du ac ethnig, technegau i'r theatr, technegau i ffilm a theledu

### 2 Gallu paratoi dyluniadau ar gyfer colur llwyfan

*Dyluniadau dylunio:* cynllun wyneb i bob cymeriad; nodi'r technegau i'w defnyddio; nodi'r deunyddiau a'r cyfarpar i'w defnyddio; defnyddio lliw, gwead, siâp, ychwanegiadau at nodweddion; gwahanol fathau o golur

### 3 Gallu dehongli dyluniadau colur a'u gosod ar eu hunain ac eraill

*Paratoi ac ymchwil:* dadansoddiad o'r model a strwythur yr esgyrn; paratoi a gosod, deunyddiau i'w defnyddio, defnyddio a dehongli colur ee lliw, arddull, perthynas â'r ffurf ar gelfyddyd (dawns, theatr, ffilm ac ati), dehongli briff y cyfarwyddwr

*Gosod colur:* gosod ar eu hunain; gosod ar fodel; defnyddio dyluniadau'n ymarferol; gofalu am y croen; tynnu colur; glanhau

### 4 Gallu rhoi a thynnu colur gan roi sylw i ddefnyddio cyfarpar yn ddiogel

*Defnydd o gyfarpar:* paratoi'r cyfarpar a'r ardal weithio; ymwybyddiaeth am adwaith ac ymateb croen; defnyddio pob deunydd colur yn ddiogel, gofal wrth ei osod a'i dynnu, gofal wrth gynnal a chadw cyfarpar a defnyddiau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> adnabod gwahanol fathau o golur a'u defnydd [YA]	<b>T1</b> gwneud cymariaethau rhwng gwahanol fathau o golur a'u defnydd	<b>Rh1</b> gwneud cymhariaeth fanwl rhwng gwahanol fathau o golur a'u defnydd
<b>LI2</b> creu dyluniadau ar gyfer eu colur eu hunain ar gyfer perfformiad [IE, MC]	<b>T2</b> dangos gallu creadigol wrth ddatblygu dyluniadau colur ar gyfer eu colur eu hunain	<b>Rh2</b> dangos gallu creadigol ar lefel uchel wrth ddatblygu dyluniadau colur ar gyfer eu colur eu hunain gan fyfrio ar yr ymchwil a wnaed
<b>LI3</b> dylunio colur cymeriad i berfformiwr (heblaw amdanyn nhw eu hunain) gyda chyfarwyddyd [MC]	<b>T3</b> dylunio colur cymeriad i berfformiwr (heblaw amdanyn nhw eu hunain) gyda chreadigrwydd ac ychydig iawn o gyfarwyddyd	<b>Rh3</b> dangos gallu ar lefel uchel wrth nodi, datblygu a dylunio colur cymeriad i gymeriad (heblaw amdanyn nhw eu hunain) gydag annibyniaeth a dawn
<b>LI4</b> creu colur ar gyfer eu hunain yn ddiogel gan ddefnyddio technegau coluro sylfaenol	<b>T4</b> dangos sgîl creadigol wrth greu colur ar gyfer eu hunain yn ddiogel gan ddefnyddio technegau coluro'n briodol	<b>Rh4</b> dangos sgîl creadigol ar lefel uchel wrth greu colur ar gyfer eu hunain yn ddiogel gan ddefnyddio technegau coluro'n hyderus

<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI5</b> gosod colur cymeriad yn ddiogel ar berfformiwr (heblaw amdanyn nhw eu hunain)	<b>T5</b> gosod colur cymeriad yn ddiogel ar berfformiwr (heblaw amdanyn nhw eu hunain) gydag ychydig o gyfarwyddyd yn unig	<b>Rh5</b> gosod colur cymeriad yn ddiogel ac yn hyderus ar berfformiwr (heblaw amdanyn nhw eu hunain) gyda rhwyddineb ac annibyniaeth
<b>LI6</b> paratoi, defnyddio a thynnu colur yn ofalus ac yn ddiogel bob amser. [HR]	<b>T6</b> dangos gallu i drefnu ardal weithio'r coluro'n ddiogel a pharatoi, defnyddio a thynnu colur gyda pheth cyfarwyddyd.	<b>Rh6</b> dangos y gwaith o drefnu ardal weithio'r coluro'n annibynnol ac yn ddiogel yn y camau paratoi, gosod a chynnal a chadw.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned D20: Gwneud Masgiau

<b>Cod yr uned:</b>	<b>L/502/4854</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am sgiliau dylunio a chynhyrchu masgiau. Bydd y dysgwyr yn gallu caffael y sgiliau sydd eu hangen i greu masg ar gyfer perfformiad.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae masgiau wedi bod yn greiddiol i berfformiadau a defodau ers cyn cof; i ddechrau roedd masgiau'n cael eu creu at ddibenion defodol, ac wrth i ddefodau ddod yn berfformiadau, daliwyd ati i ddefnyddio masgiau i guddio wyneb y perfformiwr ac i gyflwyno un mynegiant cyson. Mae masgiau'n dal i fod yn elfen allweddol mewn nifer o genres perfformio fel dawn, drama, ffilm, fideo a theledu. Yn ogystal, mae gan fasiau rôl bwysig o hyd mewn defodau mewn nifer o ddiwylliannau amrywiol.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i'r ffordd y mae masgiau'n cael eu defnyddio mewn perfformiad ac yn eu helpu i ddatblygu amrywiaeth o ddeunyddiau, sgiliau a phrosesau dylunio masgiau a gwneud masgiau. Drwy gydol yr uned hon bydd y dysgwyr yn creu masg i'w ddefnyddio mewn perfformiad. Er mwyn cadarnhau eu dealltwriaeth, bydd y dysgwyr yn myfyrio ar bob agwedd ar y broses, eu dealltwriaeth a'u datblygiad sgiliau.

Ar ôl gorffen yr uned hon bydd y dysgwyr yn gallu dylunio a chreu masgiau sylfaenol ac yn deall y dibenion perfformio y mae'r masgiau wedi'u creu ar eu cyfer. Drwy gydol yr holl waith cynhyrchu a pherfformio bydd disgwyl i'r dysgwyr ddangos arferion gweithio diogel.

Mae'r uned hon yn cysylltu ag ystod o unedau eraill i ddysgwyr sy'n dilyn llwybrau perfformio a thechnegol fel ei gilydd ac mae hi'n cysylltu'n uniongyrchol â: *Proses Cynhyrchu Celfyddydau Perfformio*, *Dyfeisio Dramâu*, *Sgiliau a Thechnegau Actio*, *Creu Gwisg a Colur ar gyfer Perfformwyr*. Gellir dysgu'r uned hon ar draws llwybrau actio, dawn a thechnegol yn gydweithredol ac felly bydd yn gyfrwng addas ar gyfer addysgu ar draws y cwrs. Gellir defnyddio creu'r masg o'r uned hon yn ysgogiad i waith perfformio arall ac efallai bydd dysgwyr technegol yn gweld bod y sgiliau creu a ddatblygir yn yr uned hon yn cyd-fynd â sgiliau a ddatblygir mewn unedau eraill sy'n seiliedig ar greu.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am sut mae masgiau'n cael eu defnyddio mewn perfformiadau neu ddefodau
- 2 Gallu defnyddio sgiliau creu masgiau
- 3 Gallu cynhyrchu masg ar gyfer perfformiad neu arddangosfa
- 4 Gallu adolygu ei waith creu masgiau ei hun.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am sut mae masgiau'n cael eu defnyddio mewn perfformiadau neu ddefodau

*Mewn perfformiadau:* masg fel cuddwisg; cyfathrebu cymeriad; cyfathrebu naws; defnydd o fynegiant; sut mae'r actor yn gwisgo'r masg; sut mae'r masg yn cyd-fynd â'r cynllun dylunio; hanes defnyddio masgiau

*Mewn defodau:* mae masg yn rhoi grym i'r sawl sy'n ei wisgo; newid cymeriad; cuddwisg; goruwchnaturiol; pwerus

*Mathau o fasgiau:* masgiau wyneb rhannol, masgiau wyneb cyfan, masgiau sy'n cael eu dal â llaw, masgiau sydd â phenwisg, masgiau mawr, masgiau corff

### 2 Gallu defnyddio sgiliau creu masgiau

*Dulliau a defnyddiau:* ee tâp papur brown, Modroc, cerdyn, papur, sbwng, latecs, ffabrig; castio plastr, modelu, papier maché, gwneud mowldiau; ystyriaethau iechyd a diogelwch

*Gorffeniadau addurniadau:* ee paent, glud PVA, lliain gwedd llac, sgrim, mwslin, llinyn, hancesi papur, gleiniau, pasta sych

### 3 Gallu cynhyrchu masg ar gyfer perfformiad neu arddangosfa

*Cynhyrchu dyluniad ar gyfer perfformiad:* ymchwilio i syniadau dylunio, ymchwilio i ofynion y ddrama; cynllunio, brasluniau, collage; ystyried peryglon iechyd a diogelwch

*Cynllunio:* trafodaethau dylunio; ymchwilio i'r defnyddiau; dulliau adeiladu; brasluniau; mesur wyneb yr actor; ystyriaethau iechyd a diogelwch

*Gwneud y masg:* ee defnyddio'r dull adeiladu a ddewiswyd, ffitio'r masg; ystyriaethau iechyd a diogelwch

*Masg mewn perfformiad:* bodloni gofynion y perfformiad, gofynion llefaru, cyflawni'r effaith weledol sy'n ddymunol a bodloni gofynion ymarferol; ystyriaethau iechyd a diogelwch

### 4 Gallu adolygu ei waith creu masgiau ei hun

*Gwneud y masg:* ee cofnodi a gwerthuso'r broses drwyddi draw, dulliau ymchwil, dylunio, cynllunio, dod o hyd i ddefnyddiau, dull adeiladu, addurno'r masg, ffitio'r masg

*Gofynion y perfformiad:* gwerthuso llwyddiant y masg mewn perfformiad; rhwyddineb ei wisgo; rhwyddineb llefaru os yw hynny'n briodol; gweld; addasrwydd i'r dyluniad cyffredinol; hyd y rhediad; dulliau cau'r masg; adweithiau alergaidd posibl i'r defnyddiau

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> disgrifio sut gellir defnyddio gwahanol fathau o fasnau mewn perfformiad neu ddefod [YA]	<b>T1</b> trafod sut gellir defnyddio masgiau mewn perfformiad neu ddefod	<b>Rh1</b> egluro gydag enghreifftiau sut gellir defnyddio masg mewn perfformiad a defod
<b>LI2</b> dangos sut mae defnyddio prosesau a defnyddiau gwneud masgiau [YA]	<b>T2</b> dangos defnydd galluog o brosesau a defnyddiau gwneud masgiau	<b>Rh2</b> dangos defnydd llwyddiannus o brosesau a defnyddiau gwneud masgiau
<b>LI3</b> defnyddio technegau, defnyddiau a phrosesau i ddylunio a gwneud masg ar gyfer perfformiad neu arddangosiad [MC]	<b>T3</b> defnyddio technegau, defnyddiau a phrosesau addas i ddylunio a gwneud masg creadigol sy'n addas i'w ddefnyddio mewn perfformiad neu arddangosiad	<b>Rh3</b> dangos defnydd ystyriol a medrus o dechnegau, defnyddiau a phrosesau i ddylunio a gwneud masg dychmygus ac effeithiol ar gyfer perfformiad neu arddangosiad
<b>LI4</b> adolygu eu gwaith gwneud masgiau eu hun. [DM]	<b>T4</b> adolygu eu gwaith gwneud masgiau eu hun gan ddefnyddio peth terminoleg gywir a chan gyfeirio rywffaint at waith gwneud masgiau proffesiynol.	<b>Rh4</b> adolygu eu gwaith gwneud masgiau eu hun yn fanwl gan ddefnyddio terminoleg gywir a chyfeirio'n ystyriol at waith gwneud masgiau proffesiynol.



**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol



# Uned D21: Adeiladu Setiau

<b>Cod yr uned:</b>	<b>J/502/5016</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>5</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>30</b>

## Nod a phwrpas

Bydd yr uned hon yn datblygu gwybodaeth y dysgwyr am ddefnyddiau a thechnegau creu golygfeydd drwy archwilio defnyddiau, dulliau a gofynion cynllunio.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r uned hon yn ymwneud â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gynllunio ac adeiladu golygfeydd llwyfan yn ddiogel ac yn gywir, gan ddefnyddio offer a defnyddiau adeiladu setiau safonol yn effeithiol. Mae'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd y dysgwyr yn eu caffael drwy'r uned hon yn uniongyrchol berthnasol i weithio yn y diwydiant celfyddydau perfformio. Bydd y dysgwyr yn dod i ddeall arferion a thechnegau safonol y diwydiant ac yn dod yn gymwys wrth eu trin.

Bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â'r prif offer a ddefnyddir i greu setiau, byddan nhw'n adnabod eu swyddogaethau ac yn datblygu sgiliau wrth eu defnyddio'n briodol. Byddan nhw'n dod i ddeall y prosesau sydd ynghlwm wrth lunio setiau, o'r cam cynllunio hyd at eu cwblhau. Byddan nhw'n cael profiad ymarferol yn adeiladu elfennau o set, yn ogystal â dysgu am bwysigrwydd arferion gweithio diogel a sut mae eu defnyddio yn eu gwaith eu hunain. Yn ogystal, mae hi'n bwysig fod gan adeiladwyr setiau ymwybyddiaeth eglur o'r broses gynhyrchu ac am rolau aelodau eraill o'r tîm cynhyrchu yn ogystal â'u rôl nhw eu hunain.

Bydd y sgiliau y mae'r dysgwyr yn eu caffael yn yr uned hon yn eu galluogi i gymryd y camau cyntaf ar lwybrau gyrfaol a all arwain at swyddi fel prif saer neu reolwr technegol; mae'r ddwy swydd hyn yn gofyn am wybodaeth a sgiliau helaeth ym maes adeiladu setiau. Mae theatrau'n amrywio o ran eu maint ac mae swyddi perthnasol yn amrywio'n unol â hynny, ond mae angen sgiliau adeiladu setiau ar lawer o staff technegol yn y diwydiant celfyddydau perfformio. Mewn theatrau llai neu mewn cwmnïau teithiol, mae gofyn am dechnegwyr sydd â nifer o sgiliau. Mae mwy a mwy o theatrau'n cael eu setiau wedi'u hadeiladu gan ffynonellau allanol, felly mae gofyn am y sgiliau hynny yn y cwmnïau amrywiol, yn fach a mawr, sy'n gwasanaethu'r angen hwnnw. Mae modd trosglwyddo nifer o'r sgiliau sy'n cael eu caffael yn yr uned hon i sefyllfaoedd nad ydynt yn rhai theatraidd.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae defnyddio offer a defnyddiau adeiladu setiau
- 2 Gwybod am y broses adeiladu setiau
- 3 Gallu cynllunio ac adeiladu elfen o olygfa
- 4 Gallu dangos arferion gweithio diogel drwy gydol y broses o adeiladu'r set

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae defnyddio offer a defnyddiau adeiladu setiau

*Offer:* ee tyrnsgrïw, arfau pŵer 110f a 240f, arfau pŵer diwifr (tyrnsgrïw, dril, herclif), morthwyl, gordd, llif drawstor, llif dyno, gwn styffylu, tâp dur, riwliau, brwshys a rholeri paent, sgwâr profi, cylllell grefft, gefeiliau cynfas

*Defnyddiau:* ee pren, llenni MDF, haenau, caledfwrdd, cynfas, Vacform, bolltau, colfachau, hoelion, sgrïwiau a hoelion byr, paent, resin epocsi, hydoddyddion, Copydex, glud PVA, glud pren

### 2 Gwybod am y broses adeiladu setiau

*Cynllunio:* cynlluniau syml; lluniau adeiladu technegol mesur; graddfa; dethol defnyddiau

*Dulliau adeiladu:* llifio; torri; drilio; dulliau uno defnyddiau; mesur; graddio; peintio

### 3 Gallu cynllunio ac adeiladu elfen o olygfa

*Cynllunio:* gwneud cynlluniau; amserlenni; pennu eu terfynau amser eu hunain; brasluniau; lluniadau technegol syml

*Adeiladu setiau:* defnyddio offer; mesur; torri; uno; dilyn eu cynllun eu hunain; bodloni terfynau amser; peintio; rhoi gorffeniadau addurniadol

*Elfen golygfeydd:* fflat; rhes lawr; sgrin; dodrefn syml

### 4 Gallu dangos arferion gweithio diogel drwy gydol y broses o adeiladu'r set

*Defnyddio offer a chyfarpar a defnyddiau'n ddiogel:* trefnu lle'r gweithdy; cynnal lle'r gweithdy; defnyddio offer a defnyddiau'n ddiogel; amddiffyniad digonol; deall y peryglon posibl; asesu risgiau; technegau codi diogel; ymwybod â chanllawiau iechyd a diogelwch perthnasol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi offer adeiladu setiau a'u defnydd [YA]	<b>T1</b> disgrifio offer adeiladu setiau a'u defnydd	<b>Rh1</b> esbonio'r defnydd o offer adeiladu setiau a'u defnydd
<b>LI2</b> nodi defnyddiau adeiladu setiau a'u defnydd [YA]	<b>T2</b> disgrifio'r prif ddefnyddiau adeiladu setiau a'u defnydd	<b>Rh2</b> esbonio ystod eang o ddefnyddiau adeiladu setiau a'u defnydd
<b>LI3</b> gweithredu'r broses cynllunio adeiladu setiau yn gymwys, gyda chefnogaeth ac arweiniad [YA, MC]	<b>T3</b> gweithredu'r broses cynllunio adeiladu setiau yn llwyddiannus, gydag ychydig o gefnogaeth ac arweiniad	<b>Rh3</b> gweithredu'r broses cynllunio adeiladu setiau yn effeithiol ac yn annibynnol
<b>LI4</b> dangos sgiliau adeiladu setiau sylfaenol wrth gwblhau'r elfen olygfaol [GT, HR, CE, YA, DM]	<b>T4</b> dangos eu bod yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r sgiliau adeiladu setiau'n gymwys, gan wneud elfen olygfaol gymwys	<b>Rh4</b> dangos eu bod yn gallu defnyddio ystod eang o sgiliau adeiladu setiau yn llawn ac yn effeithiol, gan wneud elfen olygfaol yn fedrus
<b>LI5</b> defnyddio arferion gweithio diogel sylfaenol drwy gydol y broses o adeiladu'r set. [YA, DM]	<b>T5</b> defnyddio arferion gweithio diogel drwy gydol y broses o adeiladu'r set.	<b>Rh5</b> defnyddio arferion gweithio diogel wedi'u datblygu'n dda drwy gydol y broses o adeiladu'r set yn gyson.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol





# Uned D22: Gwisgoedd ar gyfer Perfformiadau Llwyfan

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4880</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr gaffael gwybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn adran wisgoedd theatr.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r tîm wisgoedd yn hanfodol i lwyddiant unrhyw gynhyrchiad teatraidd. Mewn cwmnïau theatr mawr bydd adran wisgoedd yn cynnwys gwneuthurwyr hetiau a gemwaith. Mae'r tîm yn cael ei arwain gan reolwr wisgoedd sy'n berson hynod fedrus a chymwys sydd ag ystod eang o wybodaeth am ddefnyddiau, offer a dulliau gweithio. Yn ogystal mae'n rhaid iddyn nhw reoli gofod, adnoddau a thîm, gan weithio'n aml o dan bwysau ac at derfynau amser cynhyrchu sylweddol. Mae angen ystod gymhleth o sgiliau, gan gynnwys rheoli pobl a phrosesau. Bydd yr uned hon yn rhoi cyflwyniad i'r sgiliau sydd eu hangen gan aelodau o'r tîm wisgoedd a'u rheolwr, a bydd yn galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau hyn mewn efelychiadau a thrwy weithio ar gynhyrchiadau go iawn.

Bydd y dysgwyr yn gwneud tasgau i sicrhau bod ffabrigau'n cael eu prynu neu eu caffael mewn da bryd, bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chylchredeg i'r unigolion priodol a bod ffitiadau'n cael eu trefnu ar adegau y cytunwyd arnynt gydag aelodau perthnasol y tîm cynhyrchu fel y cyfarwyddwr, y dylunydd a'r gwneuthurwyr wisgoedd.

Bydd yr uned hon yn rhoi'r wybodaeth a'r profiad i'r dysgwyr i gymryd y camau cyntaf ar y llwybr a all eu harwain nhw i ddod yn aelodau o dîm wisgoedd, efallai drwy gymryd swydd is yn yr adran wisgoedd. Byddan nhw'n dysgu am bwysigrwydd rheoli gofod ac adnoddau lle y gall fod prinder o'r ddau ac mae angen iddyn nhw wneud eu gwaith yn ddyfeisgar. Byddan nhw hefyd yn dysgu am bwysigrwydd cyfathrebu eglur a manwl, ac am ddysgu a chadw at brosesau cyfathrebu safonol gyda'r tîm cynhyrchu yn ei gyfanrwydd.

Byddan nhw'n dysgu am bwysigrwydd gofalu am wisgoedd, gan y bydd y gwisgoedd yn adnodd pwysig i gynyrchiadau'r dyfodol, yn ogystal â rhai'r presennol, neu bydd yn rhaid eu dychwelyd mewn cyflwr da ar ôl eu llogi. Byddan nhw hefyd yn dysgu pa mor arwyddocaol yw sgiliau rheoli ystafelloedd gwisgo, yn ystod rhediad sioe ac ar ei ôl.

Bydd y dysgwyr yn ymgylfarwyddo â holl gyfrifoldebau beunyddiol ymarferol y tîm gwisgoedd, yn ogystal â phwysigrwydd arferion iechyd a diogelwch iddyn nhw eu hunain ac i aelodau eraill y tîm cynhyrchu. Byddan nhw'n caffael ymdeimlad o sut mae'r tîm gwisgoedd yn cydweithio ag aelodau eraill o'r tîm cynhyrchu i greu cynhyrchiad llwyddiannus.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae adran wisgoedd wedi'i threfnu
- 2 Gallu cyfrannu i baratoi at berfformiad fel aelod o'r tîm gwisgoedd
- 3 Gallu gweithredu fel aelod o'r tîm gwisgoedd yn ystod ac ar ôl perfformiad.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gwybod sut mae adran wisgoedd wedi'i threfnu

*Pobl:* aelodau o'r tîm wisgoedd ee rheolwr wisgoedd, torrwr, pwythwr, gwneuthurwr hetiau, gwneuthurwr gemwaith; rolau a chyfrifoldebau

*Gofod:* ystafelloedd gwaith ee gweithdai, storfeydd ffabrigau, cyfleusterau storio wisgoedd; ystafelloedd gwisgo; dyrannu, rheoli

*Cyfarpar:* ee peiriannau gwnïo, overlockers, heyrn smwddio, byrddau smwddio, drylliau glud, peiriannau golchi, sisyrnau, pinnau, nodwyddau

*Ffabrigau ac ategolion:* storfeydd ffabrigau; cronfa ddata o gyflenwyr; amcangyfrif o feintiau ffabrig; manion gwnïo; ategolion; aildddefnyddio wisgoedd presennol

*Cyllideb wisgoedd:* amcangyfrif costau; cynllunio cyllideb; amcangyfrif o'r symiau sydd eu hangen; cadw cyfrif o wariant y gyllideb

*Iechyd a diogelwch:* peryglon posibl a nodwyd ac a rwystrwyd; defnyddio cyfarpar trydanol ac arall ee heyrn, peiriannau gwnïo, peiriannau golchi, drylliau glud, sisyrnau, nodwyddau a phinnau; prosesau ac arferion, ee llyffwrdd, gludio, peintio, chwistrellu, ffitiadau wisgoedd, cynnal a chadw gofod, cael gwared ar storfeydd ffabrigau sbwriel

## 2 Gallu cyfrannu i baratoi at berfformiad fel aelod o'r tîm wisgoedd

*Paratoadau:* siopa; gosodiadau; cadw cyfrif o wariant y gyllideb; cynhyrchu wisgoedd; llogi wisgoedd; ymarferion technegol; parêd wisgoedd; ymarfer gyda wisgoedd; canllawiau iechyd a diogelwch

*Cyfathrebu â'r tîm wisgoedd a'r cwmni:* amserlenni; rhoi gwybod i'r cwmni am y broses gynllunio; cyfarfodydd cynhyrchu'r cwmni; cyfarfodydd cynhyrchu'r wisgoedd; mynychu ffitiadau; ymarferion technegol a chyda wisgoedd

*Cyfathrebu gwaith papur:* taflenni mesuriadau; amserlenni; cadw hysbysfwrdd ffitiadau'r wisgoedd yn gyfredol; cofnodion cyfarfodydd cynhyrchu'r wisgoedd; dyddiadur cynhyrchu

## 3 Gallu gweithredu fel aelod o'r tîm wisgoedd yn ystod ac ar ôl perfformiad

*Yn ystod rhediad y sioe:* cynnal a chadw'r wisgoedd; prosesau sychlanhau; golchi; cynnal gorffeniadau

*Storio wisgoedd ar ôl y perfformiad:* dychwelyd wisgoedd wedi'u llogi; sychlanhau; golchi; tynnu gorffeniadau addurniadol os yw'n briodol; gwarchod; cofnodi lle mae'r wisg wedi'i storio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi sut mae adran wisgoedd wedi'i threfnu [YA, MC]	<b>T1</b> disgrifio sut mae adran wisgoedd wedi'i threfnu	<b>Rh1</b> esbonio sut mae adran wisgoedd wedi'i threfnu
<b>LI2</b> cyfrannu i baratoi gwisgoedd at berfformiad [GT]	<b>T2</b> gwneud cyfraniad cymwys i baratoi gwisgoedd at berfformiad	<b>Rh2</b> gwneud cyfraniad effeithiol a hyderus i baratoi gwisgoedd at berfformiad
<b>LI3</b> dangos sgiliau cyfathrebu yn ystod y broses gynhyrchu [CE]	<b>T3</b> dangos sgiliau cyfathrebu cymwys yn ystod y broses gynhyrchu	<b>Rh3</b> dangos sgiliau cyfathrebu effeithiol a hyderus yn ystod y broses gynhyrchu
<b>LI4</b> dangos sgiliau gofalu am wisgoedd yn ystod ac ar ôl perfformiad. [GT]	<b>T4</b> dangos sgiliau cymwys wrth ofalu am wisgoedd yn ystod ac ar ôl perfformiad.	<b>Rh4</b> dangos sgiliau effeithiol wrth ofalu am wisgoedd yn ystod ac ar ôl perfformiad.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned D23: Gweithrediadau Sain ar gyfer Perfformiadau Llwyfan

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4880</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am gyfarpar a gweithredu sain. Bydd y dysgwyr yn gweithio'r cyfarpar sain, gan reoli'r sain i giwiau a roddwyd mewn perfformiad llwyfan.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae ar y diwydiant theatr ac adloniant angen pobl sydd â sgiliau i gaffael, gosod a gweithredu amrywiaeth fawr o gyfarpar sain arbenigol. Mae aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol iawn o ansawdd a dyfnder y sain mewn lleoliadau o bob maint, gan gwmpasu amrywiaeth eang o genres.

Bwriad yr uned hon yw cynnig sgiliau hanfodol ar draws y maes eang hwn. Mae cynnwys yr uned yn cwmpasu'r elfennau damcaniaethol ac ymarferol sydd eu hangen i fod yn aelod defnyddiol o dîm cynhyrchu, ac i ymgymryd â gwaith unigol a fydd yn cynhyrchu rhai o'r cynhyrchion sain cyffredin fel effeithiau sain, recordio, golygu a chwarae'n ôl. Gall y dysgwyr ddefnyddio'r sgiliau hanfodol hyn os ydyn nhw'n mynd i mewn i'r diwydiant yn uniongyrchol neu fel sylfaen dda i astudio ymhellach ar lefel uwch.

Mae'r uned yn addas i'w hastudio gan ddysgwr nad yw wedi cael profiad o faes cynhyrchu sain o'r blaen a hefyd gall fod yn ddull defnyddiol i rywun sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant mewn maes arall gaffael sgiliau ychwanegol; mae goleuo a llwyfannu'n enghreifftiau da.

Dylai'r dysgwyr nodi bod nifer o'r sgiliau a ddatblygir yn yr uned hon yn gallu cael eu trosglwyddo i waith mewn meysydd cysylltiedig. Mae'n rhaid i glybiau nos, eglwysi, canolfannau arddangos, adeiladau cyhoeddus, radio a theledu fod â staff sydd â gwybodaeth waith am dechnegau cynhyrchu sain.

Efallai y bydd hi'n bosibl i beth o'r gwaith sy'n cael ei asesu gael ei wneud mewn mannau lleol neu leoliadau addas eraill. Mae profiad gwaith amatur a phroffesiynol yn cyfannu'n hawdd i strwythur yr uned a bydd yn gwella'r cyfleoedd sydd i ddysgwyr ddangos eu sgiliau sain.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Deall egwyddorion damcaniaethau sain ac acwstig
- 2 Gallu dangos sgiliau wrth osod cyfarpar sain a thechnegau recordio
- 3 Gallu darparu sain ar gyfer perfformiad.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Deall egwyddorion damcaniaethau sain ac acwstig

*Sain tonfedd*: amledd; osgled; cyfeiriad; nodau sylfaenol a harmonigau; wythfedau; ymateb amledd; desibelau (dBs); llais a chlyw dynol

*Acwsteg*: datseinedd naturiol ac artiffisial; adlewyrchiad; amsugniad; ynysiad ac arwahanu

*Trawsddygiaduron*: mathau o feicroffonau; patrymau codi (diagramau pegynol); dethol a defnyddio; mathau o uchelseinyddion; bafflau; pyrth; croesbwyntiau gweithredol a goddefol; cysylltwyr a cheblau

### 2 Gallu dangos sgiliau wrth osod cyfarpar sain a thechnegau recordio

*Technegau meicroffon*: standiau; gosod mewn safle; offerynnau; gosod ceblau; diogelwch ceblau; blychau chwistrellu uniongyrchol

*Cymysgwyr sain*: cyfarpar analog/digidol; ennil; (cam) polaredd; ategolion; mewnosodiadau; is-grwpiau; mesuryddion; monitro; bysiau

*Systemau*: y broses recordio; recordio analog/digidol; prosesu signalau; cywasgu a lleihau data; cydamseru; storio cyfryngau; systemau caledwedd/meddalwedd

*Cynhyrchion*: traciau cefndir; effeithiau sain; cerddoriaeth neu effeithiau i osod golygfa; hysbysiadau gwybodaeth a diogelwch

### 3 Gallu darparu sain ar gyfer perfformiad

*Rigio*: gosod a thynnu cyfarpar; rhoi cyfarpar at ei gilydd a'i leoli; gwirio llinellau; monitorau; gwirio sain; diogelwch

*Hafalu*: paramedrig; pasio bandiau; graffig; lleihau adborth

*Mwyhad*: cyflenwi pŵer; allbynnu pŵer; cyfateb rhwystriant; lefelau; aflunio

*Gweithredu*: rôl person sain mewn cynyrchiadau a pherfformiadau; taflenni ciwio; sgriptiau a dogfennaeth; canfod diffygion; systemau meicroffonau radio

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> gwerthuso priodweddau acwstig lleoliad perfformio [YA]	<b>T1</b> gwerthuso priodweddau acwstig lleoliad perfformio gydag ychydig o sylw i fanylion gan ddefnyddio terminoleg y diwydiant	<b>Rh1</b> gwerthuso priodweddau acwstig lleoliad perfformio, gan ddefnyddio terminoleg ac awgrymu atebion ymarferol o ran sut gellid gwella acwsteg lleoliad
<b>LI2</b> dethol a defnyddio cyfarpar sy'n briodol ar y cyfan [YA]	<b>T2</b> dethol a defnyddio cyfarpar priodol gydag ychydig iawn o arweiniad	<b>Rh2</b> dethol a defnyddio cyfarpar gyda hyder ac annibyniaeth
<b>LI3</b> gosod cyfarpar sain ar gyfer recordio a pherfformiadau o dan oruchwyliaeth gan sicrhau ei fod yn gweithio [GT]	<b>T3</b> gosod cyfarpar sain ar gyfer recordio a pherfformiadau gan ddilyn cynllun sain gyda pheth goruchwyliaeth a chan ystyried sut mae ei ddefnyddio, gan roi technegau canfod diffygion sylfaenol ar waith	<b>Rh3</b> gosod cyfarpar sain ar gyfer recordio a pherfformiadau gan ddilyn cynllun sain, yn annibynnol ac yn hyderus, gan ddatrys y problemau a wynebwyd a sicrhau ei fod yn addas i'r diben
<b>LI4</b> cynhyrchu recordiadau sy'n addas i'r diben gyda pheth arweiniad [HR]	<b>T4</b> cynhyrchu recordiadau, gydag ychydig iawn o gefnogaeth, sy'n dangos technegau recordio a golygu cymwys	<b>Rh4</b> cynhyrchu recordiadau heb help ac ar lefel uwch gan ddangos y lefelau recordio, a'r technegau amseru a golygu cywir



<b>Meini prawf asesu a graddio</b>		
<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<p><b>L15</b> rheoli cyfarpar sain byw mewn perfformiad a chynhyrchu effeithiau sain ar ôl cael ciw i wneud hynny. [MC, CE]</p>	<p><b>T5</b> rheoli cyfarpar sain byw mewn perfformiad i'r lefelau sain a'r amserau pylu cywir, yn brydlon ac yn ôl ciwiau.</p>	<p><b>Rh5</b> rheoli cyfarpar sain byw mewn perfformiad ar y lefelau sain cywir, i giwiau geiriol a gweledol, gan newid a chydbwyso lefelau'n barhaus yn ôl yr angen yn ystod y perfformiad.</p>

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned E24: Technoleg a Pherfformiad DJ

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4863</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw archwilio'r ffyrdd i mae DJs yn gallu gweithredu a gwneud bywoliaeth, nid yn unig mewn meysydd arbenigol, ond ym mhrif ffrwd y diwydiant adloniant. Bydd y dysgwyr yn ymgyswrtu â'r ystod o sgiliau a chyfarpar sydd eu hangen, yn deall rolau ac amgylcheddau, ac yn gallu dethol rhaglen o ddeunydd effeithiol i berfformio gyda hi.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae bod yn DJ yn adloniant poblogaidd i nifer o gerddorion ac mae rhai'n gallu gwneud bywoliaeth o'r gweithgarwch hwn. Yn ystod y 1990au daeth y DJ yn rym arwyddocaol ym maes cerddoriaeth boblogaidd. Mae DJs yn gallu mwynhau'r sylw a statws a arferai gael eu rhoi i berfformwyr mwy traddodiadol yn unig. Bellach, ystyrir sgiliau'r 'troellwr' yn gyfartal â sgiliau gitarydd, drymiwr neu ganwr. Mae amrywiaeth eang o DJs, o DJ clwb i DJ radio. Mae gweithio fel DJ yn ymwneud â chreu perfformiad lawn cymaint ag y mae bod yn rhan o fand neu gerddorfa. Mae angen i DJs ddeall sut mae strwythuro eu setiau yn ogystal â chyfathrebu â'u cynulleidfaoedd i gael perfformiad llwyddiannus.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu ystod o sgiliau technegol ac artistig sy'n berthnasol i yrfaedd fel DJs clwb neu gynhyrchu. Mae pwyslais yr uned ar DJs fel perfformwyr a chynhyrchwyr cerddoriaeth ddawns.

Bydd yr uned hon yn gwneud i ddysgwyr ymgyswrtu â'r ystod o gyfarpar y mae DJs yn eu defnyddio heddiw mewn amrywiaeth o rolau ac amgylcheddau. Oherwydd bod DJs yn gweithio gyda chyfarpar trydanol, mae angen iddyn nhw ddeall yn drylwyr sut mae defnyddio'r cyfarpar hwn yn ddiogel. Gan fod llawer o DJs yn gweithio mewn amgylcheddau sydd â lefelau sain uchel, bydd y dysgwyr yn dod i ddeall sut mae gweithio mewn ffordd sy'n gwarchod eu hiechyd. Bydd y dysgwyr yn cael cyflwyniad i sut mae defnyddio cyfarpar DJ yn ddiogel ac yn greadigol a byddan nhw'n dysgu ystod o dechnegau perfformio DJ.

Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r gwahanol rolau ac amgylcheddau y mae DJs yn gweithio ynddyn nhw er mwyn gallu gwneud dewis gwybodus am eu datblygiad a'u cynnydd yn y maes.

Byddan nhw'n archwilio arddulliau a genres cerddoriaeth ddawns boblogaidd. Yn ogystal, bydd y dysgwyr yn dangos sut mae defnyddio ystod o dechnoleg cerdd berthnasol, gan gynnwys cyfarpar dilyniannu a samplo, er mwyn helaethu a gwella eu perfformiadau.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am y cyfarpar sy'n angenrheidiol i weithredu fel DJ
- 2 Gallu gosod a pherfformio gan ddefnyddio cyfarpar a thechnegau DJs yn ddiogel
- 3 Gwybod am y rolau a'r amgylcheddau y mae DJs yn gweithredu ynddyn nhw
- 4 Gallu dethol a rhaglennu deunyddiau priodol i'w perfformio.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am y cyfarpar sy'n angenrheidiol i weithredu fel DJ

*Cyfarpar:* byrddau tro (deciau, finyl); deciau CD; chwaraewyr MP3; gliniaduron/cyfrifiaduron sydd â meddalwedd DJ; pylwyr sianelau; trawsbylwyr; rheolwyr EQ; switshis trawsffurfio; switshis lladd; clustffonau; mwyhawyr; seinyddion; meicroffonau; lidiau a chysylltyddion

### 2 Gallu gosod a pherfformio gan ddefnyddio cyfarpar a thechnegau DJs yn ddiogel

*Technegau DJ:* curiadau'r funud; rheoli traw; brawddeg; ôl-droellwyr; stopio botymau; trawsbylu; gollwng; torri

*Cyfarpar:* deciau; mwyhawyr; system seinyddion; clustffonau; gliniadur/cyfrifiadur; dec CD

*Iechyd a diogelwch:* peryglon trydanol; peryglon corfforol; trin a storio'n ddiogel; lefelau sain

### 3 Gwybod am y rolau a'r amgylcheddau y mae DJs yn gweithredu ynddyn nhw

*Mathau o DJ:* DJ clwb; DJ 'personoliaeth'; DJ radio; cynhyrchydd DJ

*Amgylcheddau:* stiwdio recordio; clwb; stiwdio ddarlledu

### 4 Gallu dethol a rhaglennu deunyddiau priodol i'w perfformio

*Dethol deunydd priodol:* ee house, techno, hip-hop, garage, trance, euro ac ati

*Rhaglennu:* math o ddigwyddiad, math ac ymateb y gynulleidfa; tueddiadau

*Perfformiad:* dewis traciau i set; strwythuro'r set; cyfathrebu â'r gynulleidfa; deunydd sy'n addas i genre

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi'r gwahanol ddarnau o gyfarpar sydd eu hangen i weithio fel DJ [YA, HR]	<b>T1</b> cymharu'r gwahanol ddarnau o gyfarpar sydd eu hangen i weithio fel DJ	<b>Rh1</b> dadansoddi'r gwahanol ddarnau o gyfarpar sydd eu hangen i weithio fel DJ
<b>LI2</b> dangos eu bod yn gallu gosod a gweithredu cyfarpar DJ yn ddiogel gyda chefnogaeth tiwtor [HR, GT]	<b>T2</b> dangos eu bod yn gallu gosod a gweithredu cyfarpar DJ yn ddiogel gydag ychydig iawn o gefnogaeth	<b>Rh2</b> dangos eu bod yn gallu gosod a gweithredu cyfarpar DJ yn ddiogel, yn annibynnol ac yn hyderus
<b>LI3</b> nodi gwahanol fathau o DJ a'r amgylchedd lle maen nhw'n gweithio [YA]	<b>T3</b> cymharu gwahanol fathau o DJ a'r amgylchedd lle maen nhw'n gweithio	<b>Rh3</b> dadansoddi gwahanol fathau o DJ a'r amgylchedd lle maen nhw'n gweithio
<b>LI4</b> cynllunio a pherfformio set DJ wedi'i strwythuro. [HR, MC]	<b>T4</b> cynllunio a pherfformio set DJ sy'n defnyddio deunydd sy'n addas i'r genre.	<b>Rh4</b> cynllunio set DJ a'i pherfformio gan gyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfau.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned E25: Archwilio Systemau Cyfrifiadurol a Ddefnyddir gan Gerddorion

<b>Cod yr uned:</b>	<b>K/502/4893</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

---

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am fanylebau a gweithrediad systemau cyfrifiadurol sydd wedi'u dylunio'n benodol i greu cerddoriaeth. Yn ogystal bydd y dysgwyr yn gweithredu systemau cyfrifiadurol cerddoriaeth tra byddan nhw'n creu darnau o gerddoriaeth, a fydd yn cynnwys eu cyfansoddiadau gwreiddiol eu hunain; bydd iechyd a diogelwch yn rhan greiddiol o'r broses.

## Cyflwyniad i'r uned

Yn yr oes ddigidol mae cyfrifiaduron wedi cymryd lle blaenllaw mewn amgylcheddau cynhyrchu cerddoriaeth. Mae'r cyfoeth o offer meddalwedd a systemau caledwedd wedi esgor ar amgylcheddau 'stiwidio rithwir' sy'n gallu cynhyrchu recordiadau o ansawdd oedd yn arfer bod ar gael i systemau drud wedi'u seilio ar galedwedd yn unig, a hyn am dipyn yn llai o arian. Mae offer MIDI a dilyniannu sain wedi rhoi cerddorfeydd cyfan yn nwylo cyfansoddwyr a pherfformwyr cerddoriaeth.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn archwilio elfennau'r galedwedd a'r feddalwedd gyfrifiadurol a ddefnyddir wrth gynhyrchu a pherfformio cerddoriaeth. Cyflwynir y dysgwyr i'r egwyddorion a'r technegau sy'n gysylltiedig â meddalwedd creu cerddoriaeth a byddan nhw'n ymglyfarwyddo ag ystod o dechnoleg berthnasol.

Bydd disgwyl i'r dysgwyr ddangos dealltwriaeth o system cynhyrchu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur ac yna byddan nhw'n defnyddio'r system i greu cerddoriaeth. Drwy gydol yr uned, datblygir ymwybyddiaeth o rôl yr elfennau caledwedd a meddalwedd sy'n gysylltiedig â system cynhyrchu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gerddoriaeth a bydd y dysgwyr yn gallu disgrifio, egluro a defnyddio'r cyfarpar yn annibynnol. Bydd angen iddyn nhw allu gosod a ffurfweddu system syml ond gweithredol, a gweithredu ystod o offer meddalwedd cynhyrchu cerddoriaeth nodweddiadol. Yn rhan o'u gwaith, bydd y dysgwyr yn dilyniannu clipiau sain wedi'u golygu ac yn integreiddio gwybodaeth MIDI lle y bo'n addas.

Yn olaf, ond o bosib yn bwysicaf, bydd y dysgwyr yn dysgu technegau i ddefnyddio system gerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur i greu darnau o gerddoriaeth, eu deunydd gwreiddiol eu hunain yn ogystal â fersiynau o gerddoriaeth gan eraill.

Dylai'r dysgwyr sy'n rhoi cynnig ar yr uned hon fod yn greadigol yn gerddorol, neu dylai'r potensial fod ganddynt i feddwl am syniadau cerddorol y gellir eu gwireddu drwy ddefnyddio'r math o dechnoleg cerdd sy'n cael ei archwilio yn yr uned.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae dewis elfennau caledwedd a meddalwedd ar gyfer system creu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur
- 2 Gallu gosod a ffurfweddu system creu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur yn ddiogel
- 3 Gallu gweithredu offer meddalwedd sain a MIDI
- 4 Gallu gwireddu syniadau cerddorol gan ddefnyddio meddalwedd creu cerddoriaeth.



## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae dewis elfennau caledwedd a meddalwedd ar gyfer system creu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur

*Elfennau meddalwedd:* golygwyr sain; dilynianwyr wedi'u seilio ar ddolenni; dilynianwyr MIDI a sain; syntheseiddwyr meddalwedd; plug-ins; offerynnau VST; systemau clytio meddalwedd

*Elfennau caledwedd:* uned brosesu ganolog (CPU); monitor; ceblau; dyfeisiau mewnbwn; monitro sain; cyfarpar cymysgu; dyfeisiau copïo a storio

*Amgylchedd meddalwedd:* ee materion sy'n ymwneud â gweithredu system; dod o hyd i raglenni a'u lansio; systemau ffeilio; confensiynau storio

### 2 Gallu gosod a ffurfweddu system creu cerddoriaeth wedi'i seilio ar gyfrifiadur yn ddiogel

*Ffurfweddu a gosod meddalwedd:* gosodiadau meddalwedd; rheoli clipiau/ffeiliau sain; dewisiadau meddalwedd

*Ffurfweddu a gosod caledwedd:* dewis cydrannau; cydgysylltu cyfarpar; defnyddio ceblau a gosod cyfarpar yn gywir

*Ystyriaethau iechyd a diogelwch:* gwifro cywir; peidio gorlwytho cydrannau trydanol; dim bwyd a diod yn y stiwdio; gwifrau rhydd wedi'u tapio i'r llawr

### 3 Gallu gweithredu offer meddalwedd sain a MIDI

*Offer sain:* alinio a golygu ffeiliau sain; ymdrin â materion tiwnio, amseru a thempo; normaleiddio; effeithiau a dulliau eraill o brosesu sain ac ati

*Cyfarpar meddalwedd cerdd:* defnyddio traciau MIDI; dethol lleisiau MIDI; golygu digwyddiadau MIDI yn fanwl, gan ddefnyddio negeseuon rheoli

*Rheoli rhaglenni a ffeiliau:* trefnu'r amgylchedd cynhyrchu; rheoli ffeiliau'n drefnus; cynllunio a dogfennu

### 4 Gallu gwireddu syniadau cerddorol gan ddefnyddio meddalwedd creu cerddoriaeth

*Syniadau cerddorol:* golygu digwyddiadau MIDI a thrin deunydd sain yn effeithiol; defnyddio'r offer meddalwedd yn effeithiol; defnyddio cyfleusterau prosesu sain yn greadigol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi prif elfennau caledwedd a meddalwedd system creu sain/cerddoriaeth MIDI nodweddiadol sydd wedi'i seilio ar gyfrifiadur	<b>T1</b> cymharu prif elfennau caledwedd a meddalwedd system creu sain/cerddoriaeth MIDI nodweddiadol sydd wedi'i seilio ar gyfrifiadur	<b>Rh1</b> dadansoddi prif elfennau caledwedd a meddalwedd system creu sain/cerddoriaeth MIDI nodweddiadol sydd wedi'i seilio ar gyfrifiadur
<b>LI2</b> dangos sut mae gosod a ffurfweddu system cynhyrchu sain/cerddoriaeth MIDI wedi'i seilio ar gyfrifiadur, gydag ychydig iawn o gymorth gan diwtor [HR]	<b>T2</b> dangos sut mae gosod a ffurfweddu system cynhyrchu sain/cerddoriaeth MIDI wedi'i seilio ar gyfrifiadur yn llwyr ac yn hollol annibynnol	<b>Rh2</b> dangos sut mae gosod a ffurfweddu system cynhyrchu sain/cerddoriaeth MIDI wedi'i seilio ar gyfrifiadur yn hyderus, yn gymwys ac yn hollol annibynnol
<b>LI3</b> dangos sut mae gweithredu offer meddalwedd sain/MIDI gydag ychydig iawn o gymorth gan diwtor [HR]	<b>T3</b> dangos sut mae gweithredu offer meddalwedd sain/MIDI, yn hollol annibynnol	<b>Rh3</b> dangos sut mae gweithredu offer meddalwedd sain/MIDI yn hyderus, yn gymwys ac yn annibynnol

**Meini prawf asesu a graddio**

I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<p><b>LI4</b> cynhyrchu darnau cerddorol, gan ddefnyddio'r technegau meddalwedd cyfrifiadurol sain/MIDI sydd ar gael yn effeithiol. [MC], [HR]</p>	<p><b>T4</b> cynhyrchu darnau cerddorol, gan ddefnyddio technegau datblygedig meddalwedd cyfrifiadurol sain/MIDI yn effeithiol.</p>	<p><b>Rh4</b> cynhyrchu darnau cerddorol, gan ddefnyddio uwch dechnegau meddalwedd cyfrifiadurol sain/MIDI creadigol yn effeithiol.</p>

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned E26: Archwilio Cyfansoddi Cerddorol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>J/502/4867</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cynnig golwg ar sylfeini rhai technegau cyfansoddi cerddorol. Bydd y wybodaeth y mae'r dysgwyr yn ei chaffael yn eu galluogi i ddatblygu eu syniadau cyfansoddi yn strwythuredig ac yn bwrpasol.

## Cyflwyniad i'r uned

Creadigrwydd yw hanfod gweithgarwch cerddorol. Mae cerddoriaeth yn ffynnu ar ddatblygu syniadau newydd a seiniau newydd o hyd, ac mae cyfansoddwyr ar flaen y gad o ran y broses greadigol hon. Pa un a ydyn nhw'n cyfansoddi i'r neuadd gyngerdd, ym maes cerddoriaeth boblogaidd neu mewn stiwdios, neu i gyfryngau masnachol eraill, mae cyfansoddwyr yn ymwneud â'r un blociau adeiladu sylfaenol; cynhyrchu deunydd a gweithio gydag ef i lunio darnau fel arfer i derfynau amser a briffiau wedi'u comisiynu'n benodol. Mae angen ystod eang o dechnegau a syniadau ar gyfansoddwyr sy'n gweithio yn y byd masnachol i greu'r effaith a ddymunir yn gyflym ac yn gymwys.

Mae archwilio cyfansoddi'n dod ag agwedd greadigol cerddoriaeth i'r amlwg a bydd yn arwain y dysgwyr drwy'r broses o greu cerddoriaeth. Bydd y dysgwyr yn cael eu cyflwyno i'r sgiliau technegol a chreadigol sydd eu hangen gan gyfansoddwr sy'n gweithio. Byddan nhw'n cael eu hannog i archwilio ystod o fannau cychwyn cyfansoddi, i ymchwilio i ystod o dechnegau ar gyfer datblygu a thrin syniadau, ac yn olaf i droi syniadau'n ddarnau gorffenedig o gerddoriaeth.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddau beth: yn gyntaf, ar gaffael gwybodaeth am rai o egwyddorion sylfaenol cyfansoddi cerddorol; yn ail, ar arbrofi. Bydd y dysgwyr yn darganfod posibiliadau cyfansoddi drwy archwilio syniadau a thechnegau'n ymarferol. Mae'r dysgwyr yn rhydd i weithio o fewn ystod o adnoddau offerynnol (acwstig ac electronig) a genres, er bod ehangu profiad yn cael ei annog yn frwd drwy gydol yr uned. Mae hi'n hanfodol fod y gerddoriaeth yn cael ei chyflwyno, ar ffurf sain neu mewn print, a bydd yn rhaid i'r dysgwyr gyflwyno'u cerddoriaeth ar ffurf briodol.

Bydd y dysgwyr yn cael profiad o ystod o gysyniadau a thechnegau cyfansoddi o'r gorffennol a'r presennol. Yn fwy na dim, mae'r uned hon yn ymwneud â chreu cerddoriaeth yn y presennol. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ddod o hyd i'w llwybrau creadigol eu hunain drwy'r broses gyfansoddi ac yn y pen draw byddan nhw'n dechrau datblygu eu llais creadigol eu hun.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu cynhyrchu syniadau cerddorol gwreiddiol o fannau cychwyn
- 2 Gwybod sut mae ehangu, datblygu a thrin deunydd cerddorol
- 3 Gallu llunio deunydd cerddorol yn gyfansoddiadau gorffenedig
- 4 Gallu cyflwyno cyfansoddiadau'n briodol.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu cynhyrchu syniadau cerddorol gwreiddiol o fannau cychwyn

*Cynhyrchu deunydd:* trawiau; rhythmau; cordiau; systemau harmonig; gweadau; manau cychwyn nad ydyn nhw'n rhai cerddorol fel themâu, testunau a delweddu

*Mannau cychwyn cerddorol:* riffiau a bachau; syniadau melodig; patrymau rhythmig; dilyniannau cordiau; paletau sain

*Gweithio i friff:* dehongli briff; dyfeisio syniadau cerddorol priodol

### 2 Gwybod sut mae ehangu, datblygu a thrin deunydd cerddorol

*Ehangu a datblygu syniad:* ailadrodd; addurno; amrywio; dilyniannu; cyferbynnu

*Technegau trin:* trawsnodi; trawsffurfio (gwrthdroi, ôl-redeg, gwrthdroadau ôl-redeg); technegau torri a gludo; prosesau (canon, cyflwyno gam wrth gam, ychwanegu, tynnu, estyn, cywasgu, dadleoli)

*Gweithio gyda haenau:* offeryniaeth; gweadau; cyferbyniadau

### 3 Gallu llunio deunydd cerddorol yn gyfansoddiadau gorffenedig

*Ffurf a strwythur:* strwythurau bloc (deuaidd, triaidd, rondo, pont, grwndfas); cyflwyniadau; codâu; strwythurau caneuon (blues 12 bar a phatrymluniau eraill, lluniadau pennill a chytgan); defnyddio ailadrodd a chyferbynnu'n effeithiol

*Cyflymder:* cadw momentwm; cyferbyniadau; cydbwyso ailadrodd a newid

### 4 Gallu cyflwyno cyfansoddiadau'n briodol

*Syniadau cerddorol:* golygu digwyddiadau MIDI a thrin deunydd sain yn effeithiol; Dulliau cyflwyno priodol: confensiynau arddulliau, genres priodol (recordiadau, ffeiliau MIDI a sain); sgoriau

*Mathau o sgoriau:* sgôr lawn; taflen arwain; siart gordiau; sgoriau graffeg; meddalwedd cyfrifiadurol perthnasol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> creu pum syniad cerddorol gwreiddiol a allai fod yn sail i gyfansoddiad [MC, DM]	<b>T1</b> creu pum syniad cerddorol gwreiddiol a allai fod yn sail i gyfansoddiad, gan ddangos ystod o nodweddion nodedig	<b>Rh1</b> creu pum syniad cerddorol gwreiddiol a allai fod yn sail i gyfansoddiad, gan ddangos ystod eang o nodweddion nodedig a chan ddangos dychymyg
<b>LI2</b> nodi'r technegau a ddefnyddir i ehangu, datblygu a thrin tri syniad cerddorol gwreiddiol [MC, DM]	<b>T2</b> nodi'r ystod o dechnegau a ddefnyddir i ehangu, datblygu a thrin tri syniad cerddorol gwreiddiol	<b>Rh2</b> nodi'r ystod o dechnegau a ddefnyddir i ehangu, datblygu a thrin tri syniad cerddorol gwreiddiol
<b>LI3</b> creu cyfansoddiad cerddorol sydd wedi'i lunio'n llawn, gan ddangos gallu i drin elfennau cerddorol yn briodol [MC, DM]	<b>T3</b> creu cyfansoddiad cerddorol sydd wedi'i lunio'n llawn, gan ddangos gallu i drin ystod o elfennau cerddorol cyferbyniol yn briodol ac yn strwythuredig	<b>Rh3</b> creu cyfansoddiad cerddorol sydd wedi'i lunio'n llawn, gan ddangos gallu i drin ystod eang o elfennau cerddorol cyferbyniol yn briodol ac yn strwythuredig a chan ddangos dychymyg



**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI4</b> creu deunydd cerddorol mewn dull sy'n briodol i'r arddull/genre.	<b>T4</b> creu deunydd cerddorol mewn dull sy'n briodol i'r arddull/genre yn eglur ac yn gywir.	<b>Rh4</b> creu deunydd cerddorol mewn dull sy'n briodol i'r arddull/genre yn eglur ac yn gywir a chan roi sylw i fanylion.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



# Uned E27: Archwilio Creu Cerddorol Byrffyr

<b>Cod yr uned:</b>	<b>R/502/4869</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddeall cysyniad technegau byrffyr mewn cerddoriaeth a'u gwireddu. Bydd y dysgwyr yn gwneud hwn drwy archwilio'r posibiliadau wrth ymateb i eraill.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae gofyn i lawer o gerddorion sy'n gweithio 'feddwl ar eu traed' yn gyson neu ddatblygu deunydd yn gyflym, ymateb i gerddoriaeth heb ei chlywed o'r blaen neu ddyfeisio a pherfformio rhannau (neu unawdau hyd yn oed) gydag ychydig neu ddim rhybudd. Mae'r rhai sy'n gweithio fel cyfeilyddion i unawdwyr yn y genre cerddoriaeth boblogaidd hefyd yn gwneud llawer o waith yn creu'n fyrffyr. Efallai y bydd pianydd neu gitarydd yn cael taflen arwain neu linell fas a bydd gofyn iddyn nhw gyfeilio i unawdydd o honno. Neu, mae gofyn i gerddorion sy'n gweithio gyda sgoriau graffeg greu eu rhannau'n fyrffyr i ddechrau, cyn gweithio i atgyfnerthu eu syniadau dros gyfnod o amser. Mae hi'n bwysig fod y cerddorion yn gallu creu'n fyrffyr mewn ffordd sy'n briodol i'r arddull gerddorol a roddwyd.

Gall cerddora'n fyrffyr fod yn un o'r gweithgareddau creadigol mwyaf gwefreiddiol. Mae hefyd yn faes y mae nifer o gerddorion sy'n hyfforddi yn ei ofni fwyaf. Felly, nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i'r profiad o gerddora cymdeithasol a byrffyr. Bydd y dysgwyr yn archwilio'r ystod o sgiliau a thechnegau sy'n allweddol i'r cerddor sy'n creu'n fyrffyr. Drwy archwilio'n ymarferol, bydd y dysgwyr yn datblygu strategaethau er mwyn gweithio mewn ystod o gerddoriaeth wedi'i chreu'n fyrffyr.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau gwranddo sydd eu hangen wrth weithio gyda cherddoriaeth wedi'i chreu'n fyrffyr: yn bennaf y gallu i ymateb yn ddigymell ac yn gerddorol i eraill. Mae'r uned yn archwilio ffyrdd o drin syniadau cerddorol yn reddfol a dulliau o strwythuro deunydd o'r fath. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i greu'n fyrffyr ar eu pennau eu hunain ac mewn grwpiau o ystod o ysgogiadau a roddir a byddan nhw'n cael profiad o ystod o arddulliau a genre sy'n gysylltiedig â chreu'n fyrffyr, gan gynnwys cerddoriaeth o ddiwylliannau'r tu hwnt i'r byd gorllewinol. Yn gyffredinol, nod yr uned yw datblygu hyder y dysgwyr wrth weithio gyda cherddoriaeth wedi'i chreu'n fyrffyr, a rhoi profiad iddynt o egni creadigol unigryw cerddora'n fyrffyr.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gallu ymateb yn gerddorol i eraill
- 2 Gallu creu'n fyrfyr yn effeithiol
- 3 Gallu trin a datblygu deunydd cerddorol yn ddigymell.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu ymateb yn gerddorol i eraill

*Ymateb i eraill:* gwranddo ar eraill yn y grŵp; cael cydbwysedd rhwng chwaraewyr; peidio â gorlwytho'r darn byrfyfyr; cymryd syniadau gan aelodau eraill a datblygu'r rheini ar draws y gwahanol offerynnau; strwythur cyffredinol y creu byrfyfyr

*Ymateb cerddorol:* y sylw a roddir i elfennau cerddorol ee traw, rhythm, harmoni, gwead, ansawdd, dynameg a chydbwysedd

*Archwiliadau ymarferol:* creu'n fyrfyfyr gyda rhythm; creu'n fyrfyfyr gyda lliw/gwead; creu'n fyrfyfyr rhydd; strwythurau syml (ee mynd o A i B, syniadau rondo); ymarferion sy'n cyfyngu (creu'n fyrfyfyr gydag un, dau neu dri thraw) manau cychwyn gweledol neu destunol (gweithiau celf, cerddi, sgoriau fel Treatise neu The Tiger's Mind gan Cornelius Cardew

### 2 Gallu creu'n fyrfyfyr yn effeithiol

*Patrymluniau:* moddau; pentatonig; raga; graddfeydd diatonig; graddfeydd blues; graddfeydd wedi'u dyfeisio

*Patrymluniau harmonig a strwythurol:* blues 12 bar; dilyniannau cordiau mewn ystod o arddulliau ee roc, jazz, Baróc; raga Indiaidd

*Patrymluniau arddull:* nodau'r blues; asio trawiau; ffurfdroeon jazz; amnewid; addurno; technegau estynedig

### 3 Gallu trin a datblygu deunydd cerddorol yn ddigymell

*Dulliau trin:* ailadrodd; amnewid; addurno; trawsnoddi; trin dynameg a lliwiau; tempo; datblygiad rhythmig; prosesau ee ychwanegu, tynnu, estyn, cywasgu; trin cyfresol (gwrthdro, ôl-redeg, gwrthdro ôl-redeg)

*Gweithio o fan cychwyn a roddwyd:* darnau o alaw; penawdau; dilyniannau cordiau; deunydd rhythmig; testunau

*Strwythurau:* llunio cyfansoddiad byrfyfyr; strwythurau syml ee deuaid, triaid, bloc, cylchol; deunydd camu; cydbwyso ailadrodd a chyferbynnu; siâp cyffredinol

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> creu'n fyrfyfyr mewn grŵp, gan ddangos gallu i wrando ar eraill ac ymateb yn gerddorol [GT; CE; MC]	<b>T1</b> creu'n fyrfyfyr mewn grŵp, gan ddangos gallu i wrando ar eraill ac ymateb yn gerddorol gyda hyder	<b>Rh1</b> creu'n fyrfyfyr mewn grŵp, gan ddangos gallu i wrando ar eraill ac ymateb yn gerddorol, gyda pheth gwreiddioldeb
<b>LI2</b> creu'n fyrfyfyr yn effeithiol mewn tri phatrymlun cerddorol gwahanol [MC; HR]	<b>T2</b> creu'n fyrfyfyr yn effeithiol mewn tri phatrymlun cerddorol gyda hyder	<b>Rh2</b> creu'n fyrfyfyr yn effeithiol mewn tri phatrymlun cerddorol, gyda pheth gwreiddioldeb
<b>LI3</b> perfformio'n ddigymell, o syniad cerddorol y cytunwyd arno, i ddatblygu a thrin cynnwys cerddorol. [MC]	<b>T3</b> perfformio'n ddigymell, o syniad cerddorol y cytunwyd arno, i ddatblygu a thrin cynnwys cerddorol gyda hyder.	<b>Rh3</b> perfformio'n ddigymell, o syniad cerddorol y cytunwyd arno, i ddatblygu a thrin cynnwys cerddorol, gan ddangos creadigrwydd.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned E28:

# Datblygu Theori Cerddoriaeth

**Cod yr uned:**

**Y/502/4873**

**FfCCH Lefel 2:**

**Tystysgrif Gyntaf BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i ddatblygu ychydig o wybodaeth sylfaenol theori cerddoriaeth, er mwyn hwyluso defnyddio egwyddorion theoretig hanfodol yn ymarferol.

## Cyflwyniad i'r uned

Bwriad yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gael gwybodaeth theoretig y gallan nhw eu defnyddio mewn sefyllfaoedd ymarferol megis ymarferion a pherfformiadau. Yn ogystal, mae'r uned yn rhoi'r iaith sydd ei hangen ar y dysgwyr i gopïo, trawsgrifio, cyfansoddi a threfnu cerddoriaeth. Mae nifer o adegau ym mywyd cerddor sy'n gweithio pan fydd angen gwybodaeth am theori, er enghraifft copïo cerddoriaeth ar gyfer perfformwyr ychwanegol, trawsgrifio cerddoriaeth i weddu i ystod gwahanol offerynnau neu gerddorion, egluro trefniadau ysgrifenedig drwy ddefnyddio dymameg a marciau mynegiant. Ar ôl cwblhau'r uned, bydd y dysgwyr wedi caffael geirfa gerddorol ac yn deall rhai o'r sgiliau sylfaenol i'w galluogi i ddefnyddio theori yn yr amgylchedd gweithio. Bydd disgwyl i'r rhai sy'n cyrraedd y graddau uchaf fod yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon yn greadigol mewn sefyllfaoedd proffesiynol lle nad oes llawer o amser. Mae'r uned hon wedi'i bwriadu ar gyfer pob cerddor a gall gwmpasu pob arddull gerddorol. Efallai y bydd llawer o ddysgwyr yn dymuno defnyddio pecynnau meddalwedd cyfrifiadurol i nodiannu cerddoriaeth ac anogir hyn lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, rhaid i'r dysgwyr ddatblygu'r wybodaeth sylfaenol er mwyn defnyddio egwyddorion theori mewn sefyllfaoedd ymarferol, heb help technoleg.

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gallu nodiannu traw, rhythm a harmoni gan ddefnyddio hen nodiant
- 2 Gallu nodiannu cerddoriaeth, gan ddangos dymameg, tempo a mynegiant
- 3 Gallu harmoneiddio alawon gan ddefnyddio cordiau
- 4 Gallu trawsnodi alaw a harmoni i gyweiriau perthynol
- 5 Gwybod sut mae archwilio elfennau'n ymwneud ag ansawdd a gweadau.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gallu nodiannu traw, rhythm a harmoni gan ddefnyddio hen nodiant

*Traw*: cleffiau (trebl a bas); enwau'r nodau; hapnodau; cyfyngau; graddfeydd; arwyddion cywair (hyd at 4# a 4b)

*Rhythm*: barrau a mesuriadau, llinellau bar, llinellau bar dwbl; gwerth nodau (o hanner brîf i hanner cwafer), gwerth seibiau (o hanner brîf i hanner cwafer); arwyddion amser, amser syml; grwpio nodau'n gywir

*Harmoni*: triadau; cordiau sylfaen; cordiau eilaidd; safle gwreiddiol; gwrthdro cyntaf

### 2 Gallu nodiannu cerddoriaeth, gan ddangos dynameg, tempo a mynegiant

*Deinameg*: newid cryfder; crescendo; diminuendo; defnyddio testun, defnyddio arwyddion a symbolau

*Tempo*: curiadau'r funud termau Eidaleg a Saesneg syml; newidiadau tempo

*Mynegiant*: stacato; legato; llithriadau; acenion; marciau brawddeg

### 3 Gallu harmoneiddio alawon gan ddefnyddio cordiau

*Harmoneiddio alawon gan ddefnyddio cordiau*: ychwanegu cordiau at alawon syml; harmoneiddio nodau alawon unigol – yr ystod o gordiau sydd ar gael i bob nodyn yn y raddfa; cordiau bloc

### 4 Gallu trawsodi alaw a harmoni i gyweiriau perthynol

*Trawsnodi*: i gyweiriau perthynol ee llywydd, is-lywydd, cywair perthynol mwyaf, cywair perthynol lleiaf; i gyweiriau priodol i offerynnau Bb i draw cyngerdd o offerynnau Bb

### 5 Gwybod sut mae archwilio elfennau'n ymwneud ag ansawdd a gweadau

*Teuluoedd offerynnol*: pres, taro, llinynnol, chwythbrennau, trydanol/electronig (ee syntheseidddydd, sampler, dilyniannydd, peiriant drymiau); piano acwstig, piano trydanol, allweddellau

*Gwead*: unawd, dyblu, unsain; 2/3/4/ rhan; cyfalaw; cyfeiliant



## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> defnyddio hen nodiant i ysgrifennu traw, rhythm a harmoni gydag ychydig iawn o wallau [YA]	<b>T1</b> defnyddio hen nodiant i ysgrifennu traw, rhythm a harmoni, yn gywir	<b>Rh1</b> defnyddio hen nodiant i ysgrifennu traw, rhythm a harmoni'n gywir ac mewn cyd-destunau priodol
<b>LI2</b> nodiannu cerddoriaeth gan ddefnyddio marciau dynameg, tempo a mynegiant	<b>T2</b> nodiannu cerddoriaeth gan ddangos gwahanol ddulliau o ddefnyddio marciau dynameg, tempo a mynegiant	<b>Rh2</b> nodiannu cerddoriaeth gan ddefnyddio gwahanol ddulliau o ddefnyddio marciau dynameg, tempo a mynegiant yn gywir ac mewn cyd-destunau priodol
<b>LI3</b> defnyddio cordiau sylfaenol a nodwyd, yn y safle gwreiddiol, wrth harmoneiddio alawon diatonig	<b>T3</b> defnyddio cordiau sylfaenol ac eilaidd a nodwyd, yn y safle gwreiddiol, wrth harmoneiddio alawon diatonig	<b>Rh3</b> defnyddio cordiau sylfaenol ac eilaidd a nodwyd, yn y safle gwreiddiol a'r gwrthdro cyntaf, wrth harmoneiddio alawon diatonig
<b>LI4</b> trawsnodi alawon i gyweiriau perthynol mwyaf, gydag ychydig o wallau'n unig, gan ddefnyddio hen nodiant	<b>T4</b> trawsnodi alawon i gyweiriau perthynol mwyaf, yn gywir, gan ddefnyddio hen nodiant	<b>Rh4</b> trawsnodi alawon cymhleth i gyweiriau perthynol mwyaf a lleiaf, yn gywir, gan ddefnyddio hen nodiant

**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>L15</b> nodi elfennau o ansawdd a gweadau cerddorol o enghreifftiau sain wedi'u recordio, gydag ychydig o wallau'n unig. [DM]	<b>T5</b> nodi elfennau o ansawdd a gweadau cerddorol o enghreifftiau sain wedi'u recordio, yn gywir.	<b>Rh5</b> nodi elfennau cydamserol o ansawdd a gweadau cerddorol o enghreifftiau sain wedi'u recordio, yn gywir.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--

# Uned E29: Cynhyrchu Recordiad o Gerddoriaeth

<b>Cod yr uned:</b>	<b>M/502/4877</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth y dysgwyr am y cyfarpar recordio sain sy'n debygol o fod mewn stiwdio recordio, ac iddyn nhw ddarganfod sut mae defnyddio'r cyfarpar hwn i greu recordiad cerddoriaeth gorffenedig drwy baratoi a defnyddio'r ystod o dechnegau sydd eu hangen.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae'r gallu i weithredu'r cyfarpar a'r dechnoleg recordio sain a ddefnyddir i gynhyrchu cynnyrch cerddoriaeth yn hanfodol i unrhyw un sy'n gweithio mewn rôl recordio a chynhyrchu yn y diwydiant cerddoriaeth. Mae peirianwyr a chynhyrchwyr stiwdio'n gweithio gydag ystod o gyfarpar a thechnoleg wrth eu gwaith. Oherwydd bod y bobl hyn ddefnyddio eu sgiliau, mae cerddoriaeth ar gael i gynulleidfaedd eang gan ddefnyddio CDau a MP3au i gael sylw drwy'r rhyngwrwd, ar y radio a'r sain sydd ei hangen ar gerddoriaeth deledu. Bwriad yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ychydig o'r dechnoleg a'r technegau sydd ynghlwm wrth greu recordiadau cerddoriaeth. Fel sy'n digwydd yn achos gweithio gydag unrhyw gyfarpar trydanol, mae deall pwysigrwydd y materion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â recordio cerddoriaeth yn hanfodol hefyd.

Bydd disgwyl i'r dysgwyr edrych ar y dechnoleg sy'n nodweddu recordio cerddoriaeth, gan gynnwys consolau cymysgu, microffonau, effeithiau/prosesau, a dyfeisiau recordio. Mae'r uned yn cydnabod bod mynd ati'n drefnus i gynllunio a gweithredu sesiynau'n hanfodol. Sesiynau recordio sy'n cael eu rhedeg yn effeithiol fydd y rhai mwyaf cynhyrchiol o ystyried eu cost.

Fel rhan o'r uned, bydd y dysgwyr yn creu cynnyrch wedi'i recordio ar ffurf y gellir ei dosbarthu'n ddigidol fel MP3 neu CD. Bydd angen i'r dysgwyr ddod i werthfawrogi'r prosesau technegol a chreadigol sydd ynghlwm wrth gipio ffynonellau sain byw. Bydd y ffynonellau hyn yn cynnwys citiau drymiau, gitarau, offerynnau bas, allweddellau a lleisiau. Byddan nhw'n dysgu sut mae cymysgu cerddoriaeth a defnyddio offer prosesu sain fel datseinio, atsain a chorws i wella eu creadigaethau cerddorol.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae dethol cyfarpar recordio sain at ddibenion penodol
- 2 Deall sut mae paratoi at sesiynau recordio'n ddiogel
- 3 Gallu cipio ffynonellau sain, gan ddefnyddio technegau recordio priodol
- 4 Gallu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gynhyrchu recordiad cerddorol gorffenedig.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae dethol cyfarpar recordio sain at ddibenion penodol

*Meicroffonau:* mathau o feicroffonau; patrymau pegynol; pŵer manylion cudd; standiau meicroffonau; ceblau a chysylltyddion meicroffonau; storio a thrin meicroffonau

*Dyfeisiau recordio a phrosesu sain:* DAWs; systemau recordio wedi'u seilio ar gyfrifiadur; recordwyr disg caled; recordwyr disg mini; blychau DI; cymysgwyr; effeithiau; rheoli dynameg; cyfryngau recordio (ee Disg Mini™, disg caled); gweithredu a thrin diogel

### 2 Deall sut mae paratoi at sesiynau recordio'n ddiogel

*Dethol a ffurfweddu cyfarpar:* dewis y meicroffon cywir; archwilio materion yn ymwneud â chytunedd; cydgysylltu cyfarpar; profi llwybrau signalau; lleoli cyfarpar yn briodol

*Paratoi:* trefnu sesiynau; trefnu eu hunain ac eraill; cadw amser; gosod targedau a monitro cynnydd; cadw cofnodion cywir (log recordio, taflenni traciau ac ati)

### 3 Gallu cipio ffynonellau sain, gan ddefnyddio technegau recordio priodol

*Ffynonellau sain:* ee cit drymiau, gitâr, bas, piano, chwythbrennau ac offerynnau pres, offerynnau cerddorfaol, un llais a nifer o leisiau

*Cipio/technegau:* lleoli meicroffonau; dethol meicroffonau; recordio uniongyrchol (DI); amldrac analog/digidol; meicroffonau cyswllt; sain-gyfeirio; materion yn ymwneud â thiwnio; materion yn ymwneud ag amseru

### 4 Gallu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i gynhyrchu recordiad cerddorol gorffenedig

*Prosesau:* ee datseinedd, atsain, corws, cywasgu, adwyo, tiwnio awtomatig, harmoneiddio

*Cymysgu:* cydbwysedd osgled; cydbwysedd cyweiraid; creu technegau cymysgu; y 'llwyfan sain'

*Fformat recordio'r cynnyrch gorffenedig:* ee CD, MP3, Disg Mini™, DAT

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi gwahanol ffurfiau ar gyfarpar a thechnoleg recordio sain [YA, HR]	<b>T1</b> cymharu gwahanol ffurfiau ar gyfarpar a thechnoleg recordio sain	<b>Rh1</b> dadansoddi gwahanol ffurfiau ar gyfarpar a thechnoleg recordio sain
<b>LI2</b> esbonio sut mae cynllunio a threfnu sesiynau recordio, o fewn gofynion iechyd a diogelwch [HR]	<b>T2</b> esbonio, yn fanwl, sut mae cynllunio a threfnu sesiynau recordio, o fewn gofynion iechyd a diogelwch	<b>Rh2</b> dadansoddi sut mae cynllunio a threfnu sesiynau recordio, o fewn gofynion iechyd a diogelwch
<b>LI3</b> recordio amrywiaeth o ffynonellau sain gan ddefnyddio microffonau a thechnegau uniongyrchol yn gymwys, gydag ychydig iawn o gefnogaeth gan diwtor [HR]	<b>T3</b> recordio amrywiaeth o ffynonellau sain gan ddefnyddio microffonau a thechnegau uniongyrchol yn hyderus ac yn annibynnol	<b>Rh3</b> recordio amrywiaeth o ffynonellau sain gan ddefnyddio microffonau a thechnegau uniongyrchol yn hyderus, yn gymwys ac yn hollol annibynnol
<b>LI4</b> cynhyrchu cymysgedd gorffenedig o recordiad amldrac gan ddefnyddio technoleg prosesu a chymysgu'n briodol, gydag ychydig iawn o gefnogaeth gan diwtor. [HR]	<b>T4</b> cynhyrchu cymysgedd gorffenedig o recordiad amldrac gan ddefnyddio technoleg prosesu a chymysgu'n hyderus ac yn annibynnol.	<b>Rh4</b> cynhyrchu cymysgedd gorffenedig o recordiad amldrac gan ddefnyddio technoleg prosesu a chymysgu'n hyderus, yn gymwys ac yn hollol annibynnol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol





# Uned E30:

# Perfformiad Cerddorol Unigol

**Cod yr uned:**

**T/502/4878**

**FfCCH Lefel 2:**

**Tystysgrif Gyntaf BTEC**

**Gwerth credydau:**

**10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:**

**60**

## Nod a phwrpas

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar alluogi'r dysgwyr i ddatblygu rhai o'r sgiliau sydd eu hangen ar unawdydd o gerddor.

## Cyflwyniad i'r uned

Mae gofyn am allu technegol ar lefel uchel gan ddefnyddio offeryn neu'r llais i gael gyrfa fel perfformiwr unawd. Er mwyn cyrraedd hyfedredd technegol ar lefel uchel, mae angen i gerddorion allu datblygu disgyblaeth ymarfer a dyfalbarhad priodol. Mae hi'n hanfodol fod yr unawdydd yn gallu dewis deunydd cerddorol a fydd yn rhoi llwyfan i'w allu technegol a cherddorol ac y bydd yn briodol i'r gynulleidfa darged.

Mae angen i'r perfformwyr allu chwarae/canu yn hyderus ac yn gywir i gynulleidfa gyda mynegiant a dehongliad yn eu gwaith.

Drwy gydol yr uned hon, bydd y dysgwyr yn archwilio'r repertoire i'w dewis offeryn ac yn gwneud penderfyniadau o ran pa ddarnau y maen nhw'n bwriadu eu paratoi i'w perfformio. Mae cynllunio ac ymarfer yn rhannau hanfodol o berfformiad llwyddiannus; dylid rhoi gwybod i'r dysgwyr pryd mae eu perfformiadau'n mynd i ddigwydd fel y gallan nhw gynllunio eu hamser paratoi. Dylid annog y dysgwyr i ddewis eu darnau eu hunain i'w perfformio i gynulleidfa. Dylai'r dysgwyr weithio gydag athro sy'n arbenigo ar eu hofferyn er mwyn gwella eu techneg a dylen nhw gadw log ymarfer sy'n nodi manylion sut maen nhw wedi gwella dros gyfnod yr uned. Os yw'n briodol, dylai'r dysgwyr drefnu eu cyfeiliant eu hunain, yn gyfeilydd unigol neu'n fand.

Dylai'r dysgwyr ymarfer y darnau y maen nhw wedi'u dewis fel eu bod yn cyflwyno perfformiadau caboledig. Gall perfformio i gynulleidfa godi ofn ar rai dysgwyr. Felly, dylen nhw gael digon o gyfleoedd i berfformio i gynulleidfa.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod sut mae dewis darnau priodol o gerddoriaeth i'w perfformio
- 2 Gwybod sut mae paratoi at berfformiad unawdydd
- 3 Gallu perfformio cerddoriaeth i gynulleidfa.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod sut mae dewis darnau priodol o gerddoriaeth i'w perfformio

*Dewis darnau priodol:* diffinio lefelau anhawster; faint o amser paratoi sydd cyn cyngerdd neu gig; argaeledd sgoriau/recordiadau; argaeledd cyfeiliant; lleoliad y cyngerdd neu'r gig; math o gynulleidfa ee plant ysgol gynradd, cymheiriaid, rhieni, aelodau clwb ieuenctid

### 2 Gwybod sut mae paratoi at berfformiad unawdydd

*Paratoadau technegol:* ee technegau cynhesu, graddfeydd, arpeggi, ymarferion technegol eraill i wella tŷn a thechneg sy'n berthnasol i'r offeryn neu'r llais; llunio arferion ymarfer effeithiol; darnau i'w perfformio wedi'u hymarfer a'u dysgu'n drylwyr

*Paratoi corfforol:* ymarferion ymlacio a/neu anadlu fel y bo'n briodol; technegau canolbwyntio; ymarferion i reoli'r nerfau; ffug berfformiadau i ymarfer perfformio yn y lleoliad ac i gynulleidfa

*Paratoadau eraill:* mae'r offeryn a'r cyfarpar (lle y bo'n berthnasol) yn gweithio'n dda ee llinynnau newydd, mwyhawyr, brwyn/ceg offeryn cywir, curwyr cywir, cynhesu'r llais; mae'r cyfeilydd neu'r band wedi'u trefnu a'u paratoi; ymarfer gyda'r cyfeilydd neu'r band (lle y bo'n berthnasol)

### 3 Gallu perfformio cerddoriaeth i gynulleidfa

*Nodweddion perfformiad llwyddiannus:* rhythm cywir; traw cywir; tonyddiaeth gywir; mynegiant; hyder; amseru

*Cyfathrebu:* cyfathrebu'n effeithiol â'r cyfeilydd/band; cyfathrebu â'r gynulleidfa

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi cerddoriaeth ar gyfer rhaglen cyngerdd sy'n briodol ar y cyfan i'w safon perfformio [YA]	<b>T1</b> rhoi disgrifiad o'r gerddoriaeth a ddewiswyd ar gyfer rhaglen cyngerdd sy'n briodol i'w safon perfformio	<b>Rh1</b> cyfiawnhau eu dewis o gerddoriaeth ar gyfer rhaglen cyngerdd sy'n briodol i'w safon perfformio
<b>LI2</b> nodi enghreifftiau o dechnegau ymarfer cerddoriaeth a ddefnyddir i wella perfformiad ar eu hofferyn [DM; HR]	<b>T2</b> disgrifio'r technegau ymarfer cerddoriaeth y maen nhw wedi'u defnyddio i wella perfformiad ar eu hofferyn	<b>Rh2</b> gwerthuso'r technegau ymarfer cerddoriaeth y maen nhw wedi'u defnyddio i wella perfformiad ar eu hofferyn
<b>LI3</b> cyflwyno portffolio wedi'i recordio o bedwar darn cyferbyniol o leiaf o gerddoriaeth sy'n cael eu perfformio'n gywir i gynulleidfa, gan ddangos peth ymdeimlad ag arddull gerddorol.	<b>T3</b> cyflwyno portffolio wedi'i recordio o bedwar darn cyferbyniol o leiaf o gerddoriaeth sy'n cael eu perfformio'n gywir, gan ddangos ymdeimlad ag arddull a chyfathrebu cerddorol â'r gynulleidfa.	<b>Rh3</b> cyflwyno portffolio wedi'i recordio o bedwar darn cyferbyniol o leiaf o gerddoriaeth sy'n cael eu perfformio'n gywir, gan ddangos ymdeimlad amlwg ag arddull a chan ddangos cyfathrebu cerddorol â'r gynulleidfa.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol

# Uned E31:

# Datblygiad Cerddoriaeth

<b>Cod yr uned:</b>	<b>Y/502/4887</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

## Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth i'r dysgwyr am rôl cerddoriaeth yn y gymdeithas – sut mae datblygiadau ym maes cerddoriaeth wedi dylanwadu ar yr amgylchedd cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol ac wedi cael eu dylanwadu ganddo.

## Cyflwyniad i'r uned

Bwriad yr uned hon yw annog y dysgwyr i gael golwg ar y ffyrdd y mae cerddoriaeth yn effeithio arnon ni ac i edrych ar rai o'r rhesymau pam. Y canlyniad cyffredinol a fwriedir yw agor gorwelion cerddorol newydd i'r dysgwyr, gan eu galluogi i gymhwyso eu gwybodaeth sy'n datblygu i'w profiad cerddorol eu hunain. Er ei bod hi'n ddealladwy y bydd y dysgwyr wedi datblygu eu hoffterau cerddorol eu hunain yn barod, hyd yn oed ar y cam cynnar hwn yn eu gyrfaedd cerddorol, disgwylir iddynt gymryd y cyfleoedd y mae'r uned hon yn eu cynnig i ddatblygu golwg ehangach ac i ymchwilio i ystod eang o arddulliau cerddorol, gan gynnwys rhai mathau o gerddoriaeth sydd y tu hwnt i'r rhai maen nhw'n gyfforddus â nhw ar hyn o bryd. Er mwyn gwneud hyn, bydd y dysgwyr yn caffael ychydig o wybodaeth am y ffactorau gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi effeithio ar hanes cerddoriaeth, a byddant yn dod i ddeall sut mae datblygiadau technolegol wedi dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n perfformio cerddoriaeth, yn gwrandao arni ac yn ymateb iddi. Yn ogystal byddan nhw'n edrych ar rai o brif nodweddion a phriodweddau datblygiadau mewn offerynnau ac arddulliau cerddorol o hanes cerddoriaeth. Ni ddylai'r agwedd hon ar yr uned gynnwys dadansoddi cerddorol manwl ar y lefel hon, ond dylai'r dysgwyr gaffael peth gwybodaeth sylfaenol ynglŷn â'r datblygiadau ym maes gwneud offerynnau cerdd. Byddan nhw'n edrych ar y mathau o gynulleidfaoedd sy'n cael eu targedu gan arddulliau cerddorol gwahanol, a'r gofynion cyfatebol ar gyfer lleoliadau perfformio priodol. Wedyn bydd cyfle i'r dysgwyr roi'r wybodaeth a gafwyd yn yr uned hon ar waith yn ymarferol drwy berfformio neu gynhyrchu darn o gerddoriaeth o'u dewis eu hunain, o unrhyw gyfnod o hanes cerddoriaeth.

## Canlyniadau dysgu

### Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Gwybod am rai o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes cerddoriaeth
- 2 Gwybod am rai o nodweddion gwahanol arddulliau cerddorol
- 3 Gallu enghreifftio nodweddion arddull gerddorol o'u dewis.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am rai o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes cerddoriaeth

*Ffactorau gwleidyddol:* ee nawdd, sensoriaeth, propaganda, rhyfel/gwrthdaro

*Ffactorau diwylliannol:* ee ffactorau daearyddol, mudiadau artistig, ffasiwn

*Ffactorau cymdeithasol:* ee crefydd, dosbarth cymdeithasol, grŵp oedran, grŵp ethnig

*Ffactorau technolegol:* offerynnau ee gitarau trydan, organ Hammond, syntheseiddwyr, samplwyr, peiriannau drymiau; electroneg ee jiwbcocsys; deciau; cymwysiadau cyfrifiadurol ym maes cerddoriaeth; cyfarpar recordio/perfformio ee recordio analog, recordio digidol, systemau PA a mwyhau, microffonau, datseinedd ac ati, pedalau effeithiau, cyfarpar hi-fi, dyfeisiau gwranddo cludadwy (ee Sony Walkman, chwaraewyr MP3), finyl, casetiau tâp, CD, lawrlwytho, rhannu ffeiliau

### 2 Gwybod am rai o nodweddion gwahanol arddulliau cerddorol

*Nodweddion:* ee offeryniaeth, niferoedd/mathau o berfformwyr, ffurf/strwythur, mathau/maint lleoliadau

*Mathau o offerynnau:* ee llais, llinynnau, chwythbrennau, pres, taro, trydanol, electronig

*Arddulliau cerddoriaeth:* ee Dadeni, Baróc, clasurol (a Rhamantiaeth a'r 'aethau'), gwerin/ethnig, blues, jazz, pop, roc, gwlad, reggae, dawns

### 3 Gallu enghreifftio nodweddion arddull gerddorol o'u dewis

*Cyd-destun:* detholiad o ddeunydd cerddorol priodol mewn cyd-destun; argaeledd offerynnau addas; ystyried safon y perfformio offerynnol sydd ei hangen

*Enghreifftio:* dangos confensiynau arddull; esbonio neu egluro i eraill

*Gwireddu:* ee defnyddio rhythm sy'n gywir i'r arddull, confensiynau harmonig, strwythur, technegau lleisiol ac offerynnol; gweithio gyda pherfformiad

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi rhai o'r ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi effeithio ar ddatblygiad gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth [YA]	<b>T1</b> disgrifio rhai o'r ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi effeithio ar ddatblygiad gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth	<b>Rh1</b> esbonio rhai o'r ffactorau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd wedi effeithio ar ddatblygiad gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth
<b>LI2</b> nodi rhai o'r datblygiadau technolegol sydd wedi dylanwadu ar gerddoriaeth [YA]	<b>T2</b> disgrifio rhai o'r datblygiadau technolegol sydd wedi dylanwadu ar gerddoriaeth	<b>Rh2</b> gwerthuso sut mae technoleg wedi cael dylanwad cadarnhaol a negyddol ar ddatblygiad cerddoriaeth
<b>LI3</b> nodi rhai o nodweddion gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth	<b>T3</b> disgrifio rhai o nodweddion gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth	<b>Rh3</b> gwneud sylwadau beirniadol ar rai o nodweddion gwahanol arddulliau/genres cerddoriaeth



**Meini prawf asesu a graddio**

<b>I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:</b>	<b>I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:</b>
<b>LI4</b> perfformio neu gynhyrchu un darn o hanes cerddoriaeth, gan enghreifftio rhai o nodweddion y gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r arddull berthynol.	<b>T4</b> perfformio neu gynhyrchu un darn o hanes cerddoriaeth, gan enghreifftio dehongliad cywir o rai o nodweddion y gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r arddull berthynol.	<b>Rh4</b> perfformio neu gynhyrchu un darn o hanes cerddoriaeth, gan enghreifftio dehongliad eglur a chywir o bob un o brif nodweddion y gerddoriaeth sy'n gysylltiedig â'r arddull berthynol.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol MC – meddylwyr creadigol	DM – dysgwyr myfyriol GT – gweithwyr tîm	HR – hunanreolwyr CE – cyfranogwyr effeithiol
----------------	--	---	--



## Uned E32:

# Gweithio fel Ensemble Cerddorol

<b>Cod yr uned:</b>	<b>H/502/4889</b>
<b>FfCCH Lefel 2:</b>	<b>Tystysgrif Gyntaf BTEC</b>
<b>Gwerth credydau:</b>	<b>10</b>
<b>Oriau dysgu dan arweiniad:</b>	<b>60</b>

### Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gaffael gwybodaeth am aelodau ensemble cerddorol, a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnyn nhw.

### Cyflwyniad i'r uned

Mae'r rhan fwyaf o'r cerddorion sy'n perfformio'n ennill eu bara menyn drwy chwarae mewn ensembles. Mae cerddorion yn chwarae mewn ystod eang o ensembles cerddorol, er enghraifft gall chwaraewr llinynnau berfformio'n rhan o gerddorfa, pedwarawd llinynnol neu'n rhan o grŵp sy'n cyfeilio i ganwr. Mae llawer o gerddorion yn gweithio fel chwaraewyr sesiwn ac yn perfformio'n rhan o grŵp cerddorol nad ydyn nhw'n chwarae gyda nhw'n gyson.

Gweithgarwch cymdeithasol yw cerddora, ac mae'r gallu i weithio gydag eraill yn rhan allweddol o bortffolio'r cerddor. Bydd y rhan fwyaf o gerddorion yn gweld eu bod nhw'n gweithio'n gyson yn rhan o dîm. Mae sgiliau cyfathrebu, a'r gallu i drafod, cyfaddawdu a gweithio tuag at yr un nod i gyd cyn bwysiced â gallu technegol a cherddorol. Mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddod yn rhan o dîm cerddorol, gan ganolbwyntio ar y prosesau sy'n ymwneud â thîm yn gweithio gyda'i gilydd tuag at berfformiad. Gallan nhw ymwneud fel perfformiwr neu gyfarwyddwr/arweinydd. Bydd pob aelod o'r tîm yn rhannu cyfrifoldeb am y perfformiad terfynol. Drwy drafod a chyfaddawdu, bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud fel tîm a dylai'r prosiectau gael eu harwain gan y dysgwyr, cyhyd ag y bo modd, i ganiatáu hyn. Bydd disgwyl i'r dysgwyr benderfynu ar ffurf y perfformiad terfynol, gwneud penderfyniadau o ran repertoire priodol, datblygu deunydd cerddorol gwreiddiol os yw'n briodol, llunio amserlenni realistig er mwyn cyflawni'r perfformiad a chymryd cyfrifoldeb dros gyflwyno'r perfformiad terfynol.

Nid yw bod yn berfformiwr neilltuol o dda yn golygu o angenrheidrwydd bod cerddor yn gyflogadwy. Mae llawer o sgiliau eraill y mae'n rhaid eu dysgu cyn y gall unrhyw un fod yn gerddor crwn. Bydd cyfle i'r dysgwyr ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd hyn yn yr uned hon.

Yn ogystal â hyn, bydd y dysgwyr yn datblygu'r sgiliau cyfathrebu *cerddorol* sy'n rhan annatod o berfformio'n rhan o ensemble. Mae chwarae mewn ensemble yn gofyn am sgiliau gwahanol i'r rhai sy'n gysylltiedig â pherfformio unawd; y gallu i wrando ac ymateb i farn/syniadau eraill, cadw cydbwysedd ac asio ag eraill, ac ymateb yn gerddorol i eraill. Mae'r uned hon yn edrych ar feysydd rhyngweithio cerddorol. Sut mae cerddorion yn rhyngweithio â'i gilydd? Sut maen nhw'n cyfathrebu'n gerddorol ac yn gorfforol yn ystod perfformiad?

Nod gyffredinol yr uned hon yw datblygu sgiliau cydweithio'r dysgwyr. Mae dynameg grŵp, deall rolau, cyfathrebu syniadau ag eraill, a rhyngweithio cerddorol yn ganlyniadau allweddol bob un.

**Bydd disgwyl i'r dysgwyr gyfrannu fel chwaraewyr ensemble i o leiaf ddau berfformiad ar wahân.**

## Canlyniadau dysgu

**Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:**

- 1 Gwybod am rai o'r ffactorau sydd wedi dylanwadu ar ddatblygiadau ym maes Gwybod am rolau a chyfrifoldebau aelodau ensembles cerddorol
- 2 Gallu paratoi at berfformiadau fel rhan o ensemble
- 3 Gallu cyflwyno perfformiadau ensemble effeithiol
- 4 Gallu dangos sgiliau cyflogadwyedd drwy gyfranogi mewn gweithgareddau ensemble cerddorol.

## Cynnwys yr uned

---

### 1 Gwybod am rolau a chyfrifoldebau aelodau ensembles cerddorol

*Rolau mewn ensemble cerddorol:* perfformiwr ee offerynnwr, lleisydd, lleisydd cyfeiliant; arweinydd ee arweinydd, côr-feistr, band-feistr, arweinydd adran, arweinydd y gerddorfa; cyfarwyddwr cerdd

*Cyfrifoldebau mewn ensemble cerddorol:* prydlondeb/dibynadwyedd; perfformwyr ee cynnal a chadw offerynnau/cyfarpar personol, cario cyfarpar sbâr/atodol fel lidiau, plectrymau, tannau, brwyn, olew falfiau, resin a mudyddion; ymarfer unigol cyn ymarferion grŵp, mynychu ymarferion, cyfathrebu cerddorol, cyfrannu i ddatblygiad tîm, trafodaethau; arweinwyr ee paratoi amserlenni ymarferion, mynychu ymarferion, dehongliad cerddorol y darnau, cadw'r chwaraewyr gyda'i gilydd; cyfarwyddwr cerdd ee dewis deunydd, gweledigaeth gyffredinol i'r cyngerdd; rheolwyr

### 2 Gallu paratoi at berfformiadau fel rhan o ensemble

*Ystyriaethau unigol wrth ddyfeisio perfformiad:* lleoliad; math o gynulleidfa; amserlenni a therfynau amser; personél (ee nifer y perfformwyr, offerynnau sydd ar gael, lefel gallu'r perfformwyr); repertoire sy'n addas i ensemble

*Cynllunio, paratoi ac ymarfer:* amserlennu, rhaglennu ymarferion; ystyriaethau ymarferol; cadw lle mewn ystafelloedd; gofynion technegol, ee archebu cerddoriaeth/sgoriau i'r perfformwyr; dirprwyo cyfrifoldebau; defnyddio technegau ymarfer sy'n briodol i'r math o ensemble

### 3 Gallu cyflwyno perfformiadau ensemble effeithiol

*Sgiliau cerddorol:* ee cywirdeb traw, rhythm, tonyddiaeth, amseriad; cydbwysedd ac asio rhwng yr offerynnau; cerddgarwch; mynegiant

*Cyflwyno perfformiad:* ee elfennau gweledol (dillad llwyfan, safleoedd ar y llwyfan); presenoldeb llwyfan ee dod ar y llwyfan ac oddi arno; taflu'r sain; cyfathrebu â chynulleidfa

*Cyfathrebu cerddorol mewn ensemble:* gweithio gydag arweinydd, gweithio fel ensemble; rhyngweithio cerddorol; curiadau i fyny/arwain i mewn a diweddebau; cynnal curiad; cyfathrebu corfforol, iaith y corff; ymateb cerddorol

### 4 Gallu dangos sgiliau cyflogadwyedd drwy gyfranogi mewn gweithgareddau ensemble cerddorol

*Sgiliau cyflogadwyedd:* dibynadwyedd; prydlondeb; agwedd gadarnhaol; ffocws; brwdfrydedd; cymhelliant; gwneud cyfraniad i'r tasgau gosod; parchu barn eraill; cefnogi eraill; trafod drwy fynegi barn yn rhesymol; ymateb i adborth; derbyn cyngor/cyfarwyddyd

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn pasio'r uned hon, mae angen i'r dystiolaeth y mae'r dysgwyr yn ei chyflwyno i'w hasesu ddangos eu bod yn gallu bodloni holl ganlyniadau dysgu'r uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

Meini prawf asesu a graddio		
I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd teilyngdod, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:	I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:
<b>LI1</b> nodi rolau a chyfrifoldebau aelodau ensembles cerddorol	<b>T1</b> disgrifio rolau a chyfrifoldebau aelodau ensembles cerddorol	<b>Rh1</b> cyfiawnhau rolau a chyfrifoldebau aelodau ensembles cerddorol
<b>LI2</b> dangos rhai o'r prosesau sydd eu hangen wrth gyfranogi mewn perfformiadau cerddorol, yn aelod o ensemble cerddorol	<b>T2</b> dangos pob un o'r prosesau sydd eu hangen wrth gyfranogi mewn perfformiadau cerddorol, yn aelod o ensemble cerddorol	<b>Rh2</b> dangos pob un o'r prosesau sydd eu hangen wrth gyfranogi mewn perfformiadau cerddorol, yn aelod o ensemble cerddorol gyda hyder ac ymrwymiad
<b>LI3</b> dangos y sgiliau cerddorol, cyflwyno a chyfathrebu cerddorol sydd eu hangen mewn perfformiadau ensemble [CE4, CE5]	<b>T3</b> dangos y sgiliau cerddorol, cyflwyno a chyfathrebu cerddorol sydd eu hangen mewn perfformiadau ensemble effeithiol gyda hyder	<b>Rh3</b> dangos y sgiliau cerddorol, cyflwyno a chyfathrebu cerddorol sydd eu hangen mewn perfformiadau ensemble effeithiol gyda hyder a chreadigrwydd
<b>LI4</b> dangos rhai sgiliau cyflogadwyedd mewn gweithgareddau ensemble.	<b>T4</b> dangos ystod o sgiliau cyflogadwyedd mewn gweithgareddau ensemble.	<b>Rh4</b> dangos ystod eang o sgiliau cyflogadwyedd yn effeithiol mewn gweithgareddau ensemble.

**SDMP:** Mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, lle y bo'n berthnasol, yn y bachau petryal, elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol yn y meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos defnydd effeithiol o elfennau cyfeirnodedig y sgiliau.

<b>Allwedd</b>	YA – ymholwyr annibynnol	DM – dysgwyr myfyriol	HR – hunanreolwyr
	MC – meddylwyr creadigol	GT – gweithwyr tîm	CE – cyfranogwyr effeithiol